

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 15/2015

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Cymunedau 2.0

Adroddiad Gwerthuso Terfynol - Diwygiedig*

Gwerthusiad o Cymunedau 2.0 – Adroddiad Gwerthuso Terfynol*

* Sylwch: Diweddariad Trosolwg 28 Gorffennaf 2015

Diweddariad terfynol gwerthusiad Cymunedau 2.0 ydy hyn. Mae'r diweddariad yn cyfri'r alldro terfynol a gyhoeddwyd.. Mae'r Ffigurau yn Nhablau 2, 4, 9, 10, 11, 12, 26 a 27 hefyd wedi eu diweddarau i gynnwys data 2014/15.



Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rheini a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o anghenraid, safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Mike Harmer

Tîm Dadansoddi Llywodraeth Lleol a Chymunedau

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

E-bost: michael.harmer@cymru.gsi.gov.uk



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 28 Gorffennaf2015

ISBN 978-1-4734-3057-0

© Hawlfraint y Goron, 2015

Tabl cynnwys

Cynnwys: Tablau a Ffigurau	4
1.0 Cyflwyniad	6
2.0 Cefndir	11
3.0 Canfyddiadau: Rhesymeg a 'ffit polisi' yng nghyd-destun newid mewn polisi	39
4.0 Canfyddiadau: Prosesau a threfniadau cyflenwi'r Rhaglen	43
5.0 Canfyddiadau: Perfformiad hyd yma	47
6.0 Canfyddiadau: Ymwybyddiaeth ac amgyffred	56
7.0 Canfyddiadau: Cefnogaeth a bodlonrwydd	66
8.0 Canfyddiadau: Tystiolaeth a chanlyniadau ac effaith	98
9.0 Canfyddiadau: Y dyfodol	128
10.0 Casgliadau ac argymhellion	135

Cynnwys: Tablau a Ffigurau

	Tudalen
Blwch 1: Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni - Themâu a Nodau	14
Blwch 2: Rhestr wirio cynhwysiant digidol	21
Tabl 1: Mynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd	22
Tabl 2: Canran oedolion yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd	24
Tabl 3: Aelwydydd gyda mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl oedran	27
Tabl 4: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl oedran a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd	28
Tabl 5: Canran yn ymweld â gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (ymwelwyd yn y 12 mis diwethaf) yn ôl oedran	29
Tabl 6: Aelwydydd gyda mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl daliadaeth	31
Tabl 7: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl statws cyflogaeth a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd	33
Tabl 8: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl statws anabledd a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd	34
Tabl 9: Yr hyn a gyflawnodd Cymunedau 2.0 o gymharu a'r targedau (Medi 2014)	48
Tabl 10: Dosbarthiad allbynnau yn ôl ardal awdurdod lleol	50
Tabl 11: Oedran buddiolwyr prosiect Cymunedau 2.0 (hyd at Fedi 2014)	51
Tabl 12: Gwariant ariannol hyd yma	52
Tabl 13: Sut mae sefydliadau trydydd sector yn clywed am gynhwysiant digidol fel arfer	58
Tabl 14: Sut mae sefydliadau sector cyhoeddus yn clywed am gynhwysiant digidol fel arfer?	58
Tabl 15: Mathau o gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau	70
Tabl 16: Priodoldeb, ansawdd ac amseroldeb cymorth gan Cymunedau 2.0 i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol	83
Tabl 17: Effeithlonrwydd mathau o gefnogaeth gan Cymunedau 2.0	83
Tabl 18: Effeithiolrwydd gweithgareddau ar gyfer buddiolwyr unigol	93
Tabl 19: Mathau o weithgareddau y cymerir rhan ynddynt	97
Tabl 20: Cyfraniad Cymunedau 2.0 at godi ymwybyddiaeth o'r agenda cynhwysiant digidol yn y sector cyhoeddus	102
Tabl 21: Cyfraniad Cymunedau 2.0 at newidiadau yn y ffordd y darparodd sefydliadau wasanaethau ar-lein	102
Tabl 22: I ba raddau mae grwpiau cymunedol/mentrau cymdeithasol wedi newid eu defnydd o TGCh	107
Tabl 23: I ba raddau y mae Cymunedau 2.0 wedi cyfrannu at newidiadau yn y defnydd o TGCh	107
Tabl 24: Ffyrdd o gyrchu'r rhyngrwyd	116
Tabl 25: Rhesymau am ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer defnydd personol neu breifat	117
Tabl 26: Defnydd y rhyngrwyd gan ymatebwyr yr ail don o gymharu â'u hymateb gwreiddiol	119

Tabl 27: Defnydd y rhyngrwyd ar gyfer gwahanol ddibenion gan gohortau 2011/2013 yn 2013/1014	121
Tabl 28: Tebygolrwydd y bydd gweithgareddau cynhwysiant digidol yn cael eu cynnal	134
Ffigur 1: Effeithlonrwydd presenoldeb Cymunedau 2.0 ar y we	60
Ffigur 2: Effeithlonrwydd presenoldeb Cymunedau 2.0 ar y cyfryngau cymdeithasol	60
Ffigur 3: Pa mor ddefnyddiol deunyddiau astudiaethau achos a gynhyrchwyd gan raglen Cymunedau 2.0	61
Ffigur 4: Llwyddiant Cymunedau 2.0 wrth ddefnyddio sefydliadau cyfryngol i gyrraedd grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol	62
Ffigur 5: Llwyddiant Cymunedau 2.0 wrth ddefnyddio grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i gyrraedd pobl sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol	84
Ffigur 6: Defnydd blaenorol o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg	96
Ffigur 7: Defnydd blaenorol o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr arolwg 65 oed a throsodd	96
Ffigur 8: Cyfraniad rhaglen Cymunedau 2.0 at godi ymwybyddiaeth o'r agenda cynhwysiant digidol yn y sector gwirfoddol a chymunedol/menter gymdeithasol	101
Ffigur 9: I ba raddau y mae'r Rhaglen wedi helpu mentrau cymdeithasol i ddod yn fwy proffidiol neu gynaliadwy	112
Ffigur 10: Defnydd cynt ac wedyn o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr yr arolwg	113
Ffigur 11: Defnydd cynt ac wedyn o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr yr arolwg 65 oed a throsodd	114
Ffigur 12: Llwyddiant y Rhaglen wrth ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn technoleg	126
Ffigur 13: Llwyddiant y Rhaglen wrth wneud buddiolwyr yn fwy cyflogadwy	127

1.0 Cyflwyniad

1.1 Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

Penodwyd Old Bell 3 Cyf. yn 2010 i gynnal gwerthusiad hirdymor o Cymunedau 2.0 gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, fel yr oedd bryd hynny, Llywodraeth Cymru. Nod rhaglen Cymunedau 2.0¹ oedd rhoi dull gweithredu strategol ar gyfer cynhwysiant digidol, gan weithio gyda grwpiau cymunedol a chyrrff sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Ariannwyd y rhaglen gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) o'r Rhaglen Cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a gan Lywodraeth Cymru.

Nod y gwerthusiad oedd dynodi a mesur effaith cynllun Cymunedau 2.0 a'i gynnydd wrth gyflawni ei nodau ac amcanion. Bwriedid i'r gwerthusiad ganolbwyntio ar y Rhaglen a ariannwyd gan yr ERDF yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac er i'r Rhaglen gael ei hymestyn yn ddilynol (heb gyllid Ewropeaidd) i gynnwys Dwyrain Cymru, mae ffocws yr adroddiad hwn i raddau helaeth ar y ddarpariaeth yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio.

Roedd tri cham neilltuol yn y gwerthusiad. Cyhoeddwyd Adroddiad Proses Ddechreuol a Chwmpasu yn gynnar yn 2011² ac Adroddiad Interim yn Ionawr 2012³. Bwriedir i'r trydydd adroddiad olaf hwn fod yn werthusiad crynodedol o'r Rhaglen.

Amcanion gwreiddiol y cam terfynol, fel y nodir yn y Fanyleb ddechreuol, oedd:

- adeiladu ar y gwerthusiad ffurfiannol yng nghanam 1 ac adolygu trefniadau cyflenwi'r Rhaglen i asesu eu heffeithlonrwydd wrth gefnogi cyflawni neu ddiffyg cyflawni nodau ac amcanion y Rhaglen;

¹ Cyfeiriwn at Cymunedau 2.0 drwy'r adroddiad hwn fel Rhaglen, er y caiff ei ystyried fel prosiect o safbwynt Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

² <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-two-point-zero/?lang=cy>

³ <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-two-point-zero/?lang=cy>

- adeiladu ar gam 2 y gwerthusiad ac adolygu allbwn a data meintiol arall, a chasglu ac adolygu data ansoddol i ddynodi a mesur canlyniadau'r Rhaglen. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gynnydd ar y targedau disgwyliedig a rhoi ystyriaeth i faterion gwrthffeithiol;
- defnyddio'r data sydd ar gael i ddod i gasgliadau ar effaith cymdeithasol ac economaidd y Rhaglen. Dylai hyn gynnwys cymhariaeth o'r 'cyflwr terfynol' o gymharu â sefyllfaoedd llinell sylfaen i asesu maint y newid o fewn yr ardaloedd targed a chymharu hyn gydag ardaloedd nad oeddent yn rhai targed;
- asesu ychwanegedd y Rhaglen ac i ba raddau y gellir priodoli unrhyw newidion targed (megis cyfraddau cyflogaeth neu ddefnydd TGCh) i'r Rhaglen;
- defnyddio'r data sydd ar gael i asesu gwerth am arian y Rhaglen;
- archwilio cynaliadwyedd y prosiectau a'r gweithgareddau a ddatblygwyd fel rhan o'r Rhaglen;
- dynodi enghreifftiau o arfer da o fewn y Rhaglen;
- cynnal adolygiad eang o newid yng nghyd-destun gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y Rhaglen ers ei sefydlu ac adolygu sut mae Cymunedau 2.0 wedi addasu i'r newid yma neu ddylanwadu arno;
- gwneud argymhellion am yr angen am ac unrhyw nodweddion fyddai eu hangen mewn unrhyw raglen cynhwysiant digidol lwyddiannus yn y dyfodol.

Mae angen cydnabod, fodd bynnag, bod y Rhaglen wedi newid yn sylweddol yn ystod ei hoes a'i bod yn anochel bod hyn yn effeithio ar i ba raddau y mae'r amcanion hyn yn briodol erbyn hyn. Yn neilltuol, tra bod y Rhaglen wreiddiol wedi'i thargedu'n gul ar unigolion yn byw yng nghymunedau mwyaf amddifadus rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a fyddai (ar bapur o leiaf) wedi'i gwneud yn bosibl cymharu tueddiadau mewn defnydd y rhyngrwyd o fewn yr ardaloedd hyn gyda rhannau eraill o Gymru, cafodd y cyfyngiadau hyn eu llacio'n gynyddol, gyda'r Rhaglen yn cael ei hystyngyn maes o law i bob rhan o Gymru.

1.2 Rhaglen Waith

Mae'r gwerthusiad crynodedol wedi ei seilio ar:

- Adolygiad o ddogfennau polisi a strategaeth a gyhoeddwyd ers cyhoeddi'r Adroddiad Proses a Chwmpasu Dechreuol, yn ogystal â data o Arolwg Cenedlaethol Cymru a chyhoeddiadau'n gysylltiedig â buddion economaidd-gymdeithasol cynhwysiant digidol;
- Data perfformiad a gafwyd gan swyddog monitro'r Rhaglen;
- Arolwg o fuddiolwyr unigol a dderbyniodd gefnogaeth gan y Rhaglen: fe wnaethom gyfnewid â thua 571 o unigolion dros oes y Rhaglen (180 yn 2011, 241 yn 2013 a 150 yn 2014), yn defnyddio holiadur arolwg a gynlluniwyd i adlewyrchu'r cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys elfen hydredol, gyda chyfweiliadau ail don gyda thua 304 o fuddiolwyr rhwng 12 a 18 mis ar ôl eu cyfweiliadau cyntaf;
- Cyfweiliadau astudiaeth achos ansoddol gyda mentrau cymdeithasol a chyrff gwirfoddol a chymunedol a gefnogwyd gan y Rhaglen, eto'n defnyddio elfen hydredol: cyfnewidwyd â chyfanswm o 49 sefydliad, gyda naw ohonynt wedi eu dethol fel rhai 'arfer da', gyda'r cyfan heblaw ond un ohonynt wedi'u cyfnewid unwaith yn unig yn 2014⁴. O'r 40 arall, roedd 14 yn fentrau cymdeithasol a 26 yn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol eraill a ddewiswyd ar hap, gyda 20 wedi eu cyfnewid am y tro cyntaf yn 2011 a 21 am y tro cyntaf yn 2013. Gallasom gynnal cyfweiliadau dilynol gyda thua 33 o'r sefydliadau hyn tua 18 mis ar ôl eu cyfweiliad cyntaf;
- Cyfweiliadau lled-strwythuredig wyneb-i-wyneb neu ar Skype gyda 20 o randdeiliaid allweddol⁵ rhwng Mehefin a Medi 2014. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu cyfnewid yng nghymdeithasau cynharach yr ymchwiliad: yn cynnwys staff allweddol o Lywodraeth Cymru, tîm rheoli'r rhaglen yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru, cynrychiolwyr pob un o'r partneriaid cyflenwi, a nifer o aelodau'r Bwrdd Rheoli a phartneriaid allanol.

⁴ Cyfnewidwyd ag un eisoes yn 2013 fel rhan o'r sampl ar hap.

⁵ Cynhaliwyd pedwar cyfweiliad dros y ffôn ac un ar Skype. Cynhwysir rhestr yn Atodiad 1.

Cafodd rhanddeiliaid hefyd gyfle i ddiweddarau'r wybodaeth a roddwyd ym Mehefin 2015;

- Grwpiau ffocws bach gyda 31 aelod o staff;
- Arolwg ar y we gyda rhanddeiliaid lleol a ddynodwyd gan staff Cymunedau 2.0: ymatebodd cyfanswm o tua 50 o unigolion (allan o gyfanswm posibl o 155) o amrywiaeth o sefydliadau yn cynnwys awdurdodau lleol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol, sefydliadau eraill yn y trydydd sector, cymdeithasau tai, Canolfan Byd Gwaith a Cymunedau yn Gyntaf;
- Pump astudiaeth achos o gynlluniau digidol (prosiectau sylweddol a gyflenwyd gan bartneriaid ar sail ddaearyddol neu thematig ac a ariannwyd gan Cymunedau 2.0): gyda'i gilydd, roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau wyneb-i-wyneb gyda 41 o rhanddeiliaid yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol gyda nifer fach o fuddiolwyr ac adolygu dogfennau a data perthnasol o'r arolygon ffôn.

Rhoddir manylion pellach yn yr Atodiad Technegol.

Paratowyd fersiwn dechreuol o'r adroddiad hwn ddiwedd 2014 a'i gyhoeddi ym Mawrth 2015. Er bod y fersiwn presennol yn cynnwys gwybodaeth am yr all-dro terfynol, mae angen darllen yr argymhellion, yn neilltuol, yn y golau hwn.

1.3 Strwythur yr adroddiad yma

Yng ngweddill yr adroddiad yma rydym yn gyntaf (Pennod 2), fel cefndir, yn rhoi trosolwg byr iawn o'r Rhaglen ei hun (Adran 2.1), y cyd-destun polisi y gweithredai'r Rhaglen ynddo (Adran 2.2), y dystiolaeth yng nghyswllt cynhwysiant digidol yn gyffredinol a defnydd o'r rhyngrwyd yn neilltuol (Adran 2.3) a'r dystiolaeth yng nghylch buddion economaidd-gymdeithasol cynhwysiant digidol (Adran 2.4).

Yna trown at ein canfyddiadau (Pennod 3 - 9), a seilir ar ein dadansoddiad o fonitro gwybodaeth, ein cyfweliadau gwaith maes a grwpiau ffocws gyda'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwi'r Rhaglen a gyda rhanddeiliaid eraill perthnasol, ein harolwg ar y we gyda rhanddeiliaid allanol lleol, ein hymweliadau i sefydliadau a gafodd gefnogaeth, a'n cyfweliadau ffôn gydag unigolion a gafodd gymorth.

Ystyriwn yn gyntaf i ba raddau y mae'r Rhaglen yn gydnaws gyda newid polisi (Pennod 3), cyn troi'n fyr i edrych ar brosesau a chysylltiadau mewnol (Pennod 4). Adroddwn wedyn ar berfformiad y Rhaglen hyd yma yn nhermau ei hallbynnau ffurfiol a chyllidebau (Pennod 5), cyn ystyried y dystiolaeth ar lwyddiant neu fel arall y Rhaglen wrth ysgogi ymwybyddiaeth o Cymunedau 2.0 ac adeiladu cysylltiadau ehangach (Pennod 6) a throi i edrych ar natur y gefnogaeth a roddwyd a'r bodlonrwydd gyda hynny (Pennod 7). Ym Mhennod 8 ystyriwn y dystiolaeth yng nghyswllt canlyniadau ac effeithiau, yn nhermau ymddygiad y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ar gyfer sefydliadau ac ar gyfer unigolion cyn (ym Mhennod 9) ystyried barn gwahanol rhanddeiliaid am yr angen am ymyriadau ar gynhwysiant digidol yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn olaf (Pennod 10) amlinellwn ein Casgliadau, yn cynnwys gwerth am arian y Rhaglen, a chyflwyno nifer o argymhellion ar gyfer y dyfodol.

2.0 Cefndir

2.1 Cymunedau 2.0: Dylunio a Chyflenwi

Cymunedau 2.0 oedd prif raglen Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant digidol. Disgwylid iddi redeg am chwe blynedd rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2015, gydag adolygiad canol tymor yn 2012⁶.

Wedi'i datblygu gan yr Uned Cynhwysiant Digidol o fewn Llywodraeth Cymru, derbyniodd ddyraniad o £8.9 miliwn o gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) tuag at gyfanswm costau prosiect o bron i £20 miliwn⁷. Roedd y Rhaglen yn cynnwys ffocws ar sefydliadau cymunedol a gwirfoddol fel ffordd i hyrwyddo cynhwysiant digidol (gyda phrif darged gwreiddiol o ennyn diddordeb tua 20,000 o unigolion mewn TGCh dros gyfnod y Rhaglen) a phwyslais hefyd ar weithio gyda mentrau cymdeithasol, ac wrth wneud hynny, sicrhau buddion economaidd i fentrau, cymunedau ac unigolion a gefnogwyd.

Yn nhermau gorchudd gofodol, roedd cefnogaeth ar gyfer mentrau cymdeithasol⁸ bob amser yn bosibl mewn unrhyw ran o ardal y rhaglen Cydgyfeirio, tra bod gwaith gyda sefydliadau cymunedol a gwirfoddol a gydag unigolion wedi'i gyfyngu'n wreiddiol i'r 30 y cant o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) mwyaf amddifadus a ddynodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008. Fodd bynnag cafodd y cyfyngiad hwn ei ddileu ar ddechrau ail gyfnod y Rhaglen yn Ebrill 2012, ac ar yr un pryd, gallodd Llywodraeth Cymru ddynodi cyllid i ymestyn y Rhaglen i ogledd-ddwyrain Cymru a Phowys (gyda'r gweithgaredd wedi'i ymestyn i weddill Cymru o Ionawr 2014).

⁶ Rhoddir esboniad llawnach o gefndir Cymunedau 2.0 a'i strwythur darpariaeth yn y cam cyntaf yn ein Hadroddiad Cwmpasu.

⁷ Llythyr cynnig grant diwygiedig WEFO, dyddiedig 25 Awst 2010.

⁸ Roedd y Cynllun Busnes yn caniatáu rhoi cefnogaeth i 'fentrau yn cynnwys mentrau cymdeithasol'. Yn ymarferol, cyfyngwyd cefnogaeth i fentrau gyda diben cymdeithasol, yn hytrach nag unrhyw strwythur llywodraethiant menter neilltuol, fodd bynnag, yn nhermau'r targed ar gyfer 'mentrau newydd a grëwyd', roedd unrhyw fusnes yn gymwys. Yng ngweddill yr adroddiad yma, defnyddiwn 'mentrau cymdeithasol' fel byrfodd ar gyfer y mentrau a gefnogwyd gan y Rhaglen.

Yn yr ail gam bu hefyd fwy o bwyslais ar waith gyda buddiolwyr unigol, yn neilltuoel drwy ddatblygu 'cynlluniau digidol', prosiectau graddfa fawr a ddarparwyd gan bartneriaid (awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol), sefydliadau eraill mawr yn y trydydd sector a chymdeithasau tai) ar sail ardal neu thema, a geisiodd gyflwyno gweithgareddau cynhwysiant digidol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unigolion perthnasol, yn neilltuoel o bedwar grŵp targed eang y Rhaglen - pobl hŷn, pobl anabl, y rhai'n byw mewn tai cymdeithasol a'r di-waith.

Yr Uned Cynhwysiant Digidol oedd yn dal y contract gyda WEFO ac yn gyfrifol am sicrhau cyflwyno'r Rhaglen, ond cafodd y ddarpariaeth ei rhoi ar gontract i gonsortium dan arweiniad Canolfan Cydweithredol Cymru ac a oedd i ddechrau'n cynnwys pedwar partner cyflenwi arall, Cyngor Sir Caerfyrddin, Novas Scarman (a elwid wedyn yn People Can), Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a Chanolfan Dweud Straeon George Ewart Evans (GEECS) ym Mhrifysgol Morgannwg. Fodd bynnag, aeth People Can i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Tachwedd 2012, a chafodd staff y sefydliad hwnnw oedd yn gweithio ar Cymunedau 2.0 eu trosglwyddo i Ganolfan Cydweithredol Cymru.

Roedd staff Cymunedau 2.0 yn cynnwys:

- Broceriaid oedd yn gyfrifol am ddynodi a rhoi cymorth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol drwy ddadansoddi eu hanghenion ac (yn achos mentrau cymdeithasol) drwy'r hyn a elwid yn 'pecynnau cefnogaeth' a roddai gymorth ariannol ar gyfer offer, dylunio gwefan ac ati yn ogystal â chefnogaeth a chynghor technegol uniongyrchol gan Circuit Riders;
- Circuit Riders oedd yn rhoi cefnogaeth dechnegol i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ac i fentrau;
- Gweithwyr allgymorth, yn defnyddio technegau datblygu cymunedol (yn cynnwys dulliau fel straeon digidol) i hyrwyddo cynhwysiant digidol;
- Staff rheoli a gweinyddol.

Yng nghyfnod cyntaf y Rhaglen, gweithredai'r partneriaid cyflenwi yn lled-annibynnol, gyda threfniadau neilltuol ar gyfer meysydd cynhwysiant digidol a menter gymdeithasol y Rhaglen. Fodd bynnag, o ddechrau'r ail gyfnod yn Ebrill 2012, gweithredwyd strwythur cyflenwi newydd yn seiliedig ar dimau ardal lleol integredig (yn cyflenwi cymorth ar gynhwysiant digidol a mentrau cymdeithasol), bob un dan arweiniad brocer ac yn defnyddio adnoddau gan y gwahanol bartneriaid cyflenwi. Fel rhan o'r newidiadau hyn, cafodd y broceriaid y dasg benodol o arwain ar waith cynlluniau digidol gyda rhanddeiliaid o fewn eu hardaloedd.

Ym mlwyddyn olaf y Rhaglen, yng nghyd-destun cyfle i ymestyn y rhaglen i Gymru gyfan a pheth tanwariant yng nghyllideb y rhaglen Cydgyfeirio, lansiwyd ymgyrch genedlaethol newydd gan weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr addysg, yn neilltuol golegau addysg bellach ac adrannau addysg oedolion/dysgu gydol oes awdurdodau lleol. Cefnogwyd hyn gan ymgyrch hysbysebu genedlaethol, gan gyfeirio darpar ddysgwyr at gyrsiau anffurfiol a gynhelid gan weithwyr sesiwn o addysg oedolion. Cafodd y gweithwyr sesiwn hyn eu hariannu a'u hyfforddi gan Cymunedau 2.0 gan ddefnyddio offer a deunyddiau hyfforddiant a ddatblygwyd gan y prosiect.

2.2 Cyd-destun Polisi

2.2.1 Cefndir Polisi

Defnyddiodd ein hadroddiad gwerthuso yn 2012 nifer o negeseuon clir o'r adolygiad polisi a helpodd i roi cyd-destun i'r ffordd yr esblygodd Cymunedau 2.0 yn ystod ei weithrediad. Roedd y themâu polisi allweddol a ddynodwyd bryd hynny yn cynnwys bod:

- Cynhwysiant digidol yn uchel ar agenda llywodraeth ar lefel Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Ymddengys nad oedd y dirwasgiad economaidd diweddar wedi effeithio ar yr agenda. Yn wir ymddangosai fod dadl gynyddol dros ddweud bod trafferthion economaidd diweddar a'r mesurau cynildeb a ddilynodd hynny wedi cryfhau'r achos dros yr agenda cynhwysiant digidol, gyda chynhwysiant digidol yn gynyddol yn cael ei

weld yn ganlyneb symud darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i lwyfannau digidol fel ffordd o sicrhau arbedion mewn gwariant cyhoeddus. Ymddangosai'r culhau tebygol hwn ar y ffocws i 'ras ar-lein', yn wahanol i bwyslais ehangach ar gynhwysiant digidol fel elfen bwysig o gynhwysiant cymdeithasol, yn neilltuoel o amlwg yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Nid oedd gwahaniaeth sylfaenol mewn allgáu digidol yng Nghymru i rannau eraill y Deyrnas Unedig ac roedd tystiolaeth o gynyddol o 'beth sy'n gweithio' y gallai gwneuthurwyr penderfyniadau ei ddefnyddio. Roedd hyn yn cynnwys profiadau, arferion da a thystiolaeth ehangach o'r nifer sylweddol erbyn hyn o ymyriadau cynhwysiant digidol ar draws y Deyrnas Unedig (ac yn ehangach);
- Roedd cynhwysiant digidol yn parhau'n her i wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau yng Nghymru: er y gwnaed cynnydd da ers 2008, roedd llawer o waith yn dal i fod i gyflawni targedau tymor canol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

2.2.2 Datblygiadau polisi diweddar a chynnydd yng Nghymru

Cyhoeddwyd *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni*⁹ gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2011. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bwriadai Llywodraeth Cymru gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn *Cyflawni Cymru Ddigidol*¹⁰, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010. Mae Blwch 1 yn cyflwyno'r prif themâu a'r nodau a ddisgrifiwyd gan y Cynllun.

Blwch 1: Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni - Themâu a Nodau¹¹

Thema 1: Cynhwysiant Digidol - Cymdeithas Gynhwysol, Gynaliadwy a Llewyrchus	
Nod 1:	Cydweithredu i sicrhau dealltwriaeth well o allgáu digidol
Nod 2:	Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 50 oed a hŷn
Nod 3:	Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg preswylwyr tai cymdeithasol
Nod 4:	Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg y diwaith a'r economaidd anweithgar
Nod 5:	Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl gydag anableddau
Nod 6:	Gostwng allgáu digidol ymysg pob oedolyn
Thema 2: eSgiliau - Pobl Fedrus a Chymwys	
Nod 7:	Gwellu sgiliau TGCh plant a phobl ifanc
Nod 8:	Gwellu sgiliau TGCh oedolion

⁹ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2011) *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni*

¹⁰ Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2011) *Cyflawni Cymru Ddigidol – Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu*

¹¹ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2011) *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni*, t3-4

Nod 9:	Gwneud y defnydd mwyaf addas o dechnolegau digidol wrth gyflenwi addysg, hyfforddiant a chefnogaeth i ddysgwyr.
Thema 3: Gallu cystadleuol - Economi Digidol Ffyniannus a Chystadleuol	
Nod 10:	Cefnogi a datblygu sector TGCh cystadleuol
Nod 11:	Cefnogi a datblygu sector creadigol egnïol
Nod 12:	Cefnogi buddsoddiad cyson mewn ymchwil a datblygu mewn cynnyrch a gwasanaethau gwerth ychwanegol uchel yn seiliedig ar TGCh
Nod 13:	Sicrhau fod pob busnes yn defnyddio ac yn manteisio i'r eithaf ar TGCh i sicrhau a chynnal mantais gystadleuol
Nod 14:	Cynyddu argaeledd a defnydd gwasanaethau cyhoeddus digidol defnyddiol a hylaw
Nod 15:	Cynllunio a gweithredu llwyfannau digidol priodol a diogel sy'n galluogi cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
Nod 16:	Gwella effeithiolrwydd gwasanaethau TGCh drwy ostwng costau caffael, prynu, ôl-troed carbon a pherchnogaeth/cefnogaeth offer a gwasanaethau TGCh ar draws y sector cyhoeddus
Nod 17:	Sicrhau gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus drwy ddefnydd blaengar o dechnolegau digidol
Thema 4: Seilwaith digidol o'r radd flaenaf	
Nod 18:	Sicrhau fod gan bawb fynediad i lefel sylfaenol o fand eang
Nod 19:	Sicrhau fod gan bawb fynediad i genhedlaeth nesaf band eang
Nod 20:	Gwella gorchudd ffônau symudol ar draws Cymru
Nod 21:	Gwella gorchudd radio digidol (DAB) ar draws Cymru

Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 2014 y *Diweddariad ar y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol*¹² yn diweddarau ei dull gweithredu i ymdrin â chynhwysiant digidol ac yn gosod ei nodau i ostwng lefelau allgáu digidol ymhellach i oedolion yng Nghymru.

Mae'r *Diweddariad* yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhwysiant digidol fel rhan hanfodol o'r nod gyffredinol o drechu tlodi, gan nodi yn y cyswllt yma fod y *Cynllun Gweithredu ar Drechu Tlodi* a gyhoeddwyd yn 2013 hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gyfres o dargedau cynhwysiant digidol¹³.

Mae'r *Diweddariad* hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar y dull aml-ffurf o weithredu ar gynhwysiant digidol a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru ers 2011 mewn partneriaeth gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r adroddiad a nodwyd yn cynnwys:

- Cynlluniau/ymyriadau allweddol - yn neilltuoel Cymunedau 2.0, a nodir i'r rhaglen gael ei hymestyn ar draws Cymru;

¹² Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*

¹³ Ibid., t. 9

- Gwella mynediad i'r rhyngwrdd drwy lyfrgelloedd (e.e. cefnogi mynediad i'r rhyngwrdd mewn ymateb i agenda Llywodraeth y Deyrnas Unedig) ar ddiwygio lles;
- Ymgysylltu â'r trydydd sector fel partneriaid allweddol wrth gyflenwi ein hamcanion cynhwysiant digidol;
- Cefnogi gwelliannau mewn seilwaith TGCh (yn neilltuoel drwy weithio mewn partneriaeth â BT i ddarparu band eang ffibr cyflym iawn yng Nghymru drwy Raglen Cyflymu Cymru);
- Cefnogi cynlluniau - megis 'Taliadau Gwledig ar-lein' - i gynyddu'r gwasanaethau cyhoeddus a gwybodaeth sydd ar gael ar-lein (gan gyflawni ymrwymadau *Strategaeth TGCh ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru*¹⁴ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru);
- Annog cynhwysiant digidol drwy systemau addysg (rhaglenni dysgu ar-lein Hwb a Hwb+ yn cefnogi athrawon a disgyblion);
- e-Ddiogelwch (e.e. rhaglen addysg a chodi ymwybyddiaeth 2014-15);
- Integreiddio cynhwysiant digidol i agenda trechu tlodi a chynhwysiant digidol Cymru.

Er yn derbyn y cafeatau anochel am briodoliad, mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn nogfen diweddar 2014 yn seiliedig ar ddata arolwg allweddol (e.e. *Arolwg Cenedlaethol Cymru*¹⁵) yn rhoi awgrym o lwyddiant sylweddol yr ymyriadau hyn (gweler Adran 2.3).

Yn ogystal â gosod targedau diwygiedig ar gyfer gostwng allgáu digidol ar gyfer gwahanol adrannau o'r boblogaeth (gweler Adran 2.3), mae'r diweddariad hefyd yn gosod nifer o dargedau ansoddol ehangach, sef :

- Darparu mynediad cynhwysol rhad ac am ddim i TGCh a'r rhyngwrdd ar gyfer pob un o'r pedwar grŵp blaenoriaeth¹⁶.

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2011) *Strategaeth TGCh ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru*

¹⁵ Arolwg peilot *Arolwg Cenedlaethol Cymru* 2010 ac arolygon pellach a gwblhawyd ar gyfer Ionawr-Mawrth 2012, 2012/13 a 2013/14

¹⁶ h.y. pobl hŷn, rhai'n byw mewn tai cymdeithasol, rhai gydag anableddau a'r diwaith a'r economaidd anweithgar

- Datblygu sgiliau TGCh drwy ddysgu anffurfiol a ffurfiol yn cynnwys llythrennedd gwybodaeth (y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunyddiau ar-lein) i bob un o'r pedwar grŵp blaenoriaeth.
- Adeiladu cynghreiriau o randdeiliaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Alinio meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Adeiladu perthynas gyda sefydliadau sector preifat i gefnogi'r agenda cynhwysiant digidol.
- Adeiladu cynghreiriau gyda'r trydydd sector i gefnogi'r agenda cynhwysiant digidol.
- Adeiladu sylfaen gwirfoddoli i gefnogi gweithgareddau cynhwysiant digidol.
- Datblygu sgiliau TGCh y gweithlu amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i'w galluogi i gefnogi dysgwyr.
- Hyrwyddo a threfnu cynlluniau cynhwysiant digidol i weithredu tu allan i'r ardaloedd daearyddol sy'n derbyn cyllid cymorth ar hyn o bryd.
- Datblygu cynnwys dwyieithog i hyrwyddo diddordeb mewn TGCh.
- Cadw perthynas agos a chydweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chynlluniau ar draws y Deyrnas Unedig i gefnogi cyflenwi'r agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru.
- Cael data ac ymchwil cadarn ar allgáu digidol yng Nghymru ar gyfer ffurfio polisi, meincnodi a gwerthuso.

2.2.3 Datblygiadau polisi'r Deyrnas Unedig

Roedd Diweddariad 2014¹⁷ hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynyddu i'r eithaf y gwerth a gaiff Cymru o weithgareddau a chynlluniau cynhwysiant digidol y Deyrnas Unedig/cenedlaethol. Roedd y cynlluniau hynny'n ymwneud â pholisi presennol (a drafodwyd mewn adroddiadau blaenorol) a datblygiadau polisi mwy diweddar a drafodir islaw.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*

Ym mis Medi 202 cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS)¹⁸ strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n amlinellu gweledigaeth yr Adran ar gyfer dyfodol yr economi ac yn ymrwymo'r Llywodraeth i bartneriaeth strategol hirdymor gyda diwydiant.

O fewn y weledigaeth hon, dynodwyd yr 'Economi Gwybodaeth' fel un o 11 sector a dargedwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sefydlu partneriaeth twf rhwng llywodraeth a diwydiant.

Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddwyd y Strategaeth Economi Gwybodaeth ym Mehefin 2013. Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth am economi gwybodaeth lewyrchus yn y Deyrnas Unedig fyddai'n cynyddu gallu cystadleuol drwy er enghraifft:

- Dinasyddion gyda'r gallu a'r hyder i fanteisio i'r eithaf ar yr oes ddigidol ac yn manteisio o wasanaethau digidol ardderchog (roedd y cynigion yn cynnwys tîm newydd yn seiliedig yng Ngwasanaeth Digidol y Llywodraeth i arwain a chydlyn cynlluniau cynhwysiant digidol yn cynnwys rhai cydnaws â gwaith cynghrair sgiliau digidol Go ON UK¹⁹);
- Y seilwaith digidol (ffisegol a rheoleiddiol) a'r fframwaith ar gyfer seibr-ddiogelwch a phreifatrwydd sydd ei angen i gefnogi twf, arloesedd a rhagoriaeth (e.e. opsiynau ar gyfer sut y gall rhai mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd gael mynediad i fand eang cyflym iawn)²⁰;
- Sector economi gwybodaeth cryf ac arloesol yn allforio rhagoriaeth y Deyrnas Unedig i'r byd.

Er bod strategaeth economaidd a diwydiannol ehangach yn un sbardun o syniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gynhwysiant digidol, mae'r pwysau ariannol ar gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus yn un arall.

¹⁸ Y Gwir Anrhydeddus Vince Cable AS

¹⁹ Mae cynghrair sgiliau digidol Go ON UK yn olynu Programme to Race Online 2012 ac yn anelu i gynyddu sgiliau digidol a gostwng allgáu digidol ar draws y Deyrnas Unedig. Eto dan arweiniad y Farwnes Lane Fox, mae Go ON UK yn gweithredu dan statws elusenol fel partneriaeth o sefydliadau cyllid preifat a chyhoeddus allweddol.

²⁰ Llywodraeth Ei Mawrhydi (Mehefin 2013) *Information Economy Strategy*, t7

Yn y cyd-destun yma ym mis Tachwedd 2012 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig *Government Digital Strategy* ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan adrannau llywodraeth ganolog ac asiantaethau a chyrrff hyd braich cysylltiedig²¹. Cyflwynodd hyn 14 cam gweithredu y dylai'r gwasanaethau hyn eu cymryd i ddod yn 'ddigidol yn ddiofyn', yn golygu gwasanaethau digidol sydd mor syml a chyfleus y bydd pawb a all ddefnyddio gwasanaethau digidol yn dewis gwneud hynny, tra nad yw'r rhai na all wneud hynny yn cael eu heithrio²².

Ychwanegwyd dau gam gweithredu pellach at strategaeth ddigidol ddiwygiedig y Llywodraeth (2013)²³. Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bapur polisi manylach **Action 15: Collaborate with partners across public, private and voluntary sectors to help people go online**. Roedd hyn yn amlinellu nifer o gamau gweithredu, yn cynnwys yr angen i adrannau llywodraeth ac asiantaethau i:

- benodi uwch swyddog ar gynhwysiant digidol yn atebol i arweinydd digidol yr adran lle cytunodd Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) bod hyn yn berthnasol i'w busnes;
- cytuno ar yr adnoddau y byddant yn ei roi i'r tîm cynhwysiant digidol traws-lywodraeth yn GDS, fydd yn cydweithredu gyda phartneriaid ar draws sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol;
- cynnwys cynhwysiant digidol mewn gwneud polisi a defnyddio gwasanaethau digidol a chymorth digidol y llywodraeth i helpu pobl i fynd ar-lein;
- gwerthuso, monitro a rhannu'r hyn sy'n gweithio;
- gweithio gydag adrannau a phartneriaid i gytuno ar ddull ar gyfer cynhwysiant digidol a chyhoeddi strategaeth ar gynhwysiant digidol yng ngwanwyn 2014²⁴

²¹ Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig (Tachwedd 2012) *Government Digital Strategy*

²² *ibid*, t5

²³ Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig (10 Rhagfyr 2013) Papur polisi - *Government Digital Strategy: Updated*

²⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/government-digital-strategy-action-15/action-15-collaborate-with-partners-across-public-private-and-voluntary-sectors-to-help-people-go-online>

Cyhoeddwyd *UK Digital Inclusion Strategy* wedyn ym mis Gorffennaf 2014²⁵. Roedd y strategaeth yn cyflwyno dull cynhwysfawr i gyflawni cynhwysiant digidol, yn cynnwys ffocws ar ddinasyddion a sefydliadau. Yn wir dynododd y strategaeth bod llawer o'r heriau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig a chyrff trydydd sector yn fras debyg i'r rhai a wynebir gan unigolion, yn cynnwys cymhelliant, peidio bod â'r sgiliau a'r galluedd iawn ac - fel y canfu Banc Lloyds yn eu hymchwil ar fusnesau a'r rhyngwyd²⁶ - angen brys am ddealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sy'n bosibl yn y parth digidol.

Gwnaeth yr adroddiad hi'n glir y cyflawnwyd llawer drwy lu o ymyriadau, prosiectau a gweithgareddau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector (ac yn aml drwy bartneriaethau traws-sector), yn cynnwys ymyriadau gyda ffocws ar wella:

- *Mynediad*: e.e. rhaglen *Broadband Delivery UK (BDUK)*²⁷ a noddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a *Digital Deal*, cynllun arian cyfatebol sy'n anelu i annog ac ysgogi darparwyr tai cymdeithasol i wneud gwaith datblygu digidol gyda'u preswylwyr er mwyn sicrhau arbedion yn y dyfodol²⁸;
- *Ymgysylltu*: e.e. yn y sector preifat, ymgyrch *Get IT Together* BT a *Citizens Online*, elusen genedlaethol a sefydlwyd i fynd i'r afael ag allgáu digidol ymysg unigolion a chymunedau;
- *Sgiliau*: e.e. Rhaglen Go ON UK,²⁹ Cynghrair Sgiliau Digidol y Deyrnas Unedig a'r rhaglen sy'n olynu *Raceonline 2012*.

Yn nhermau camau gweithredu yn edrych i'r dyfodol, ymrwymodd y Strategaeth Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ostwng allgáu digidol i naw y cant o'r oedolion ymhlith y boblogaeth erbyn 2020 (a hyd at 16 y cant a 12 y cant gan 2016 a 2018 yn yr un drefn), tra'n cydnabod gan na fyddai rhai pobl byth

²⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/government-digital-inclusion-strategy/government-digital-inclusion-strategy>

²⁶ Banc Lloyds *UK Business Digital Index 2014*

²⁷ <https://www.gov.uk/broadband-delivery-uk>

²⁸ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/181659/DigitalDealProspectus.pdf

²⁹ <http://www.go-on.co.uk/>

eisiau defnyddio'r rhyngwrwyd, y byddai'n dod yn anos sicrhau cyfraddau cynhwysiant digidol gwell.

Cyfeiriodd y strategaeth hefyd at yr egwyddorion (neu restr wirio) a fyddai'n sylfaen i ddull gweithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig at gynhwysiant digidol (cyflwynir ym Mlwch 2).

Blwch 2: Rhestr wirio cynhwysiant digidol³⁰

1. Dechrau gydag anghenion defnyddwyr - ac nid ein hanghenion ein hunain. Teilwra cefnogaeth o amgylch y rhwystrau unigryw sy'n atal pobl rhag mynd ar-lein ac addasu i anghenion pobl, sy'n newid dros gyfnod.
2. Gwella mynediad - peidio gwneud pethau'n anodd. Rhoi opsiynau syml a chost isel ar gyfer rhai sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol ac economaidd i fynd ar-lein.
3. Cymell pobl - canfod rhywbeth sy'n bwysig iddynt. Dod â digidol i fywydau pobl mewn ffordd sydd o fudd iddynt: eu helpu i wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac mai dim ond ar-lein y gallant eu gwneud.
4. Ei gadw'n ddiogel - adeiladu ymddiriedaeth: Ei gwneud yn haws aros yn ddiogel ar-lein drwy roi cyngor ac offer syml.
5. Gweithio gydag eraill - peidio'i wneud ar ben eich hun. Cydweithio i gynyddu arbenigedd, profiad ac adnoddau i ateb anghenion defnyddwyr yn well.
6. Canolbwyntio ar ganlyniadau ehangach - mesur perfformiad: Dynodi canlyniadau ehangach y gellir eu sicrhau drwy helpu pobl i ddod yn hyderus yn annibynnol ar-lein a defnyddio data i ddeall yr hyn sy'n gweithio.

2.3 Mynediad i'r rhyngwrwyd a defnydd y rhyngwrwyd yng Nghymru: Targedau a chynnydd

2.3.1 Penawdau data

Mae *Arolwg Cenedlaethol Cymru* yn olrhain data ar fynediad i'r rhyngwrwyd, defnydd a chynhwysiant digidol³¹. Mae Tabl 1 yn cyflwyno gwybodaeth ar fynediad aelwydydd i'r rhyngwrwyd a dengys y bu mynediad yn gwella'n gyson ers dechrau 2012. Mae hyn yn parhau'r tueddiad a gafodd ei olrhain gan arolwg Byw yng Nghymru hyd at 2008, er enghraifft, amcangyfrifodd arolwg

³⁰ <https://gds.blog.gov.uk/2014/01/13/a-checklist-for-digital-inclusion-if-we-do-these-things-were-doing-digital-inclusion/>

³¹ Er wedi'i dreialu yn 2009/10, mae newidiadau mewn categorïau o ddata a gasglwyd yn golygu nad yw bob amser yn bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y data diweddaraf (2014/15) a chanfyddiadau'r cyfnod peilot 2009/10

Byw yng Nghymru yn 2008 fod gan 60 y cant o aelwydydd fynediad i'r rhyngwrwyd yn eu cartrefi, gan awgrymu cynnydd sylweddol dros y chwe blynedd ddiwethaf³².

Tabl 1: Mynediad aelwydydd i'r rhyngwrwyd

	Canran (%)		
	2011/12	2012/13	2013/14
Aelwydydd gyda mynediad i'r rhyngwrwyd yn eu cartrefi (Cymru):			
Arolwg Cenedlaethol Cymru ³³ (18+ oed)	70	73	75
Arolwg Ofcom ³⁴ (16+ oed)	68	75	80
Aelwydydd gyda mynediad i'r rhyngwrwyd yn eu cartrefi (DU):			
Arolwg Ofcom (16+ oed) ³⁵	79	80	82
Arolwg Omnibus ONS ³⁶	80	83	84

Ffynonellau: Amrywiol

Mae Tabl 1 hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar fynediad aelwydydd i'r rhyngwrwyd ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Er fod gwahaniaethau mewn diffiniadau'n cyfyngu cymariaethau uniongyrchol rhwng data Arolwg Cenedlaethol Cymru ac arolwg ar draws y Deyrnas Unedig, dylid nodi tra bod y gwelliant ym mherfformiad Cymru'n adlewyrchu mynediad cynyddol i'r rhyngwrwyd ar draws y Deyrnas Unedig, ymddengys fod y bwlch rhwng Lloegr a Chymru wedi gostwng yn sylweddol mewn blynyddoedd diweddar.

Yn ei adroddiadau rheolaidd *The Communications Market* mae Ofcom yn cyflwyno canfyddiadau o'u harolwg ystadegol blynyddol yn cyfeirio at ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu. Dengys yr adroddiadau hyn fod gan 80 y cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwyd yn chwarterer cyntaf 2014 (Ionawr - Mawrth), cynnydd o bum pwynt canran ers yr un cyfnod yn 2013.

³² Arolwg Byw yng Nghymru, 2008 (cyhoeddwyd yn 2009), t36

³³ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2010 (peilot) (data a gyflwynwyd yn *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012*; *Ionawr - Mawrth 2012*; *2012-13 a 2013-14*)

³⁴ Ofcom *Communication Market reports 2012*; *2013*; *2014*

³⁵ http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cmr/cmr14/2014_UK_CM.R.pdf f

³⁶ Arolwg Omnibus ONS 2011 Bwletin Ystadegol: <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/rdit2/internet-access--households-and-individuals/2011/stb-internet-access-2011.html>. Mae Arolwg Rhyngwrwyd Rhydychen (OxIS) 2011 wedi nodi fod gan gyfrannau tebyg o aelwydydd y Deyrnas Unedig fynediad rhyngwrwyd (e.e. 79 y cant yn 2011).

Mae data Ofcom am y tair blynedd ddiwethaf (sy'n seiliedig ar bobl 16 oed a throsodd) hefyd yn dangos cynnydd yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan wrth sicrhau mynediad i'r rhyngwrwd. Amcangyfrifodd arolwg Ofcom fod gan 3 y cant yn fwy o aelwydydd y Deyrnas Unedig fynediad i'r rhyngwrwd yn 2014 nag yn 2012. Roedd y cynnydd yng Nghymru a fesurwyd gan Ofcom am y cyfnod hwn yn 12 y cant, gan ddangos bod y bwlch rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan wedi cau'n sylweddol.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dangos y cynyddodd oedolion sydd â mynediad i'r rhyngwrwd yn eu cartrefi gan 13 y cant o'r boblogaeth rhwng 2009/10 (69 y cant) a 2013/14 (82 y cant)³⁷. O gymharu nododd Arolwg Byw yng Nghymru mai dim ond 61 y cant o oedolion oedd â mynediad i'r rhyngwrwd yn eu cartrefi yn 2007 (gan awgrymu cynnydd o 21 y cant yn y gyfran o'r oedolion ymhlith y boblogaeth oedd â mynediad i'r rhyngwrwd rhwng 2007 a 2013/14)³⁸.

Fodd bynnag, yn yr arolygon cenedlaethol ar gyfer Cymru yn 2012/13 a 2013/14 ni fu newid ym mynediad aelwydydd i'r rhyngwrwd yn y '20 y cant o ardaloedd mwyaf amddifadus' yng Nghymru ar 67 y cant. Fodd bynnag roedd mynediad i'r rhyngwrwd mewn aelwydydd yn y '20 y cant o ardaloedd lleiaf amddifadus' wedi cynyddu o 81 y cant i 85 y cant.

Roedd defnydd o'r rhyngwrwd hefyd wedi cynyddu ymysg oedolion yng Nghymru ers 2011/12. Mae Tabl 2 yn rhoi manylion defnydd o'r rhyngwrwd fel canran o'r oedolion ymhlith y boblogaeth. Dengys y tabl o gymharu â 2011/12 bod tua 8 y cant yn fwy o'r oedolion ymhlith y boblogaeth yn awr yn defnyddio'r rhyngwrwd (gyda chynnydd yn y ganran o ddynion a hefyd y ganran o fenywod sy'n defnyddio'r rhyngwrwd). Dylid nodi fod arolwg Byw yng Nghymru 2007 yn amcangyfrif fod nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd bryd hynny yn 61 y cant o'r oedolion ymhlith y boblogaeth³⁹.

³⁷ 77 y cant o oedolion ymhlith y boblogaeth yn Ionawr i Fawrth 2012; 79 y cant yn 2012/13

³⁸ Arolwg Byw yng Nghymru 2007

³⁹ ibid

Mae 'gartref' yn parhau'r man mwyaf poblogaidd ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwyd, er y bu hefyd gynnydd amlwg mewn defnydd mewn 'lleoedd cyhoeddus', yn cynnwys llyfrgelloedd: dywedodd un ym mhob pump o ymatebwyr a ddefnyddiai'r rhyngwrwyd yn 2013/14 eu bod yn gwneud hynny mewn lleoedd o'r fath, o gymharu â dim ond 6 y cant yn 2009/10.

Tabl 2: Canran oedolion yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar hyn o bryd

	Canran (%)				
	2009/10 ⁴⁰	2011/12 ⁴¹	2012/13 ⁴²	2013/14 ⁴³	2014/15 ⁴⁴
Cyfan	66	73	76	79	81%
Rhyw:					
Gwryw	d/g	76	79	82	83
Benyw	d/g	71	73	76	79
Lleoliad (defnyddiwyd 3 mis diwethaf):					
Gartref	92	92	93	96	d/g
Gwaith (heblaw gartref)	23	38	37	39	d/g
Cartref person arall	10	25	26	26	d/g
Man cyhoeddus (e.e. llyfrgell, caffe rhyngwrwyd)	6	14	18	20	d/g
Man addysg	5	9	10	9	d/g

Ffynonellau (Amrywiol)

Yn nhermau dyfeisiau i gyrchu'r rhyngwrwyd, bu gostyngiad yn y defnydd o gyfrifiaduron desg (57 y cant o oedolion yng Nghymru yn 2012 i 38 y cant yn 2014/15); gostyngiad bychan yn y defnydd o liniaduron (74 y cant i 66 y cant) a chynnydd sylweddol yn y defnydd o ffonau symudol (34 y cant yn 2012 i 60 y cant yn 2014/15) ac - i raddau hyd yn oed fwy - ddyfeisiau llechen a

⁴⁰ Arolwg Cenedlaethol Cymru peilot 2009/10

⁴¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012

⁴² Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant Digidol

⁴³ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14, Cynhwysiant Digidol

⁴⁴ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 Canlyniadau Pennawd: Cyhoeddwyd y rhain ym Mehefin 2015. Ni chynhwyswyd cwestiwn ar leoliad defnydd yn arolwg 2014-15.

dyfeisiau eraill a ddelir yn y llaw (17% yn 2012 i 33% yn 2013/14, tueddiadau nad yn annisgwyl sydd i'w gweld ar draws y Deyrnas Unedig^{45 46}.

Yn nhermau defnydd o'r rhyngwrwyd, canfu arolwg Ofcom (2014) fod 91 y cant o ddefnyddwyr rhyngwrwyd Cymru (16+ oed) yn gwneud hynny ar gyfer pori a syrffio cyffredinol. Anfon a derbyn e-bost (84 y cant) yw'r math mwyaf poblogaidd o ddefnydd penodol o'r rhyngwrwyd. Prynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein yw'r defnydd penodol ail fwyaf poblogaidd o'r rhyngwrwyd (71 y cant), a gynyddodd gan naw pwynt canran yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf.

Dengys y data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14 fod gan 16 o 22 sir yng Nghymru ddefnydd rhyngwrwyd rhwng 77 y cant a 82 y cant cynhwysol. Mae nifer anghymesur o siroedd yng Nghymoedd De Cymru islaw'r ystod hon. Blaenau Gwent sydd â'r defnydd isaf (69 y cant - yn is gan 7 y cant na Merthyr Tudful, sydd â'r gyfran ail isaf) a Chaerdydd yr uchaf (85 y cant - 3 y cant yn uwch na Bro Morgannwg, yr ail uchaf).

Yn nhermau rhesymau pam nad yw pobl yn defnyddio'r rhyngwrwyd, 'diddordeb' (e.e. 'dim diddordeb yn y rhyngwrwyd', 'dim ei angen', 'ni fyddwn yn ei defnyddio' a nodwyd amlaf)⁴⁷, gyda 91% o rai nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwrwyd a gymerodd ran mewn arolwg dilynol manylach diweddar o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol 2013/15 yn nodi diffyg diddordeb neu angen fel rheswm am beidio defnyddio'r rhyngwrwyd: yn wir dywedodd 56% o'r rhai hyn nad oedd yn defnyddio'r rhyngwrwyd na fyddai dim yn eu hannog na'u helpu i fynd ar-lein yn y dyfodol.⁴⁸ Dengys data o'r arolwg hwn ac o'r Arolwg Cenedlaethol ei hunan fod diffyg sgiliau hefyd yn ffactor allweddol, gyda 55 y cant o'r rhai nad oedd yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn awgrymu fod hyn yn

⁴⁵ Nid yw'r data'n cefnogi dadansoddiad dros yr un amserlenni ar gyfer dulliau eraill o ddefnyddio'r rhyngwrwyd (e.e. dyfeisiau llechen, teledu digidol, consolau gemau) gan i Arolwg Cenedlaethol Cymru ddiwygio ei gategorïau yn 2012/13.

⁴⁶ Ofcom *Communication Market reports 2012; 2013; 2014*

⁴⁷ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14, adroddiad Cyfathrebu Ofcom, t278

⁴⁸ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14 Arolwg Ail-gyswllt Cynhwysiant Digidol, Llywodaeth Cymru 2015

rhwystr. Ar y llaw arall, canfu Ofcom ar lefel y Deyrnas Unedig fod cost a pherchnogaeth yn bwysicach na 'gwybodaeth'.

Drwyddi draw, nod cynllun cyflenwi Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru oedd gostwng allgáu digidol ymysg pob oedolyn yng Nghymru 18 a throsodd yng Nghymru i 30 y cant erbyn 2012 a 25 y cant erbyn 2015⁴⁹. O gofio y cafodd targed 2015 ei gyrraedd eisoes (24 y cant wedi eu hallgáu yn ôl Arolwg 2012/13), mae *Diweddariad y Cynllun Cyflawni (2014)*⁵⁰ wedi cynnwys targedau diwygiedig i ostwng lefelau allgáu digidol ymysg oedolion yng Nghymru i 18 y cant erbyn 2015 a 13 y cant erbyn 2017.

Cadarnhaodd diweddariad 2014⁵¹ fod grwpiau cymdeithasol penodol - yn arbennig pobl hŷn ac anabl, rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol, rhai ar incwm is, y diwaith a'r economaidd anweithgar - yn parhau'n neilltuol o agored i allgáu digidol. Dynododd adroddiad Cynhwysiant Digidol 2012-13⁵² ddau grŵp sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol i'w targedu: rhai dros 65, yn neilltuol y rhai sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol, a'r rhai sy'n ddiwaith neu gyda salwch cyfyngol. Byddwn yn awr yn ystyried data'r arolwg yn gysylltiedig gydag allgáu digidol yn y grwpiau hyn.

2.3.2 Pobl hŷn

Dywedodd adroddiad Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14 mai oedran oedd y dangosydd allweddol ar gyfer allgáu digidol, gyda mynediad i'r rhyngrwyd a'r defnydd o'r rhyngrwyd yn gostwng yn sylweddol gydag oedran.

Roedd targed Llywodraeth Cymru⁵³ eisoes wedi ymrwymo i ostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 50 oed a throsodd, o 49 y cant (515,000) yn 2010 i

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2011) *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni*

⁵⁰ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*

⁵¹ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*

⁵² Llywodraeth Cymru (Mai 2014) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13 Cynhwysiant digidol* paratowyd gan Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Ddaearyddiaeth, Prifysgol Sheffield

⁵³ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2011) *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni*, t7

45 y cant (473,000) erbyn 2012 a 40 y cant (421,000) erbyn 2015. Nododd diweddariad 2014⁵⁴ y cyflawnwyd targed gwreiddiol 2015 eisoes (38% erbyn Mai 2014). Gosodwyd targed mwy heriol i ostwng lefelau i 35% erbyn 2015, sydd eto wedi ei gyflawni.

Mae Tabl 3 yn cyflwyno data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar bobl gyda mynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi yn ôl oedran. Mae'r data'n cadarnhau'r berthynas wrthdro rhwng oedran a mynediad i'r rhyngrwyd, Er hyn, mae Tabl 3 yn awgrymu twf cymharol gryf mewn blynyddoedd diweddar yn y canran o bobl hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd gyda chyfradd dwf gyflymach nag ymysg pobl ifanc.

Adlewyrchir y canfyddiadau hyn ar draws y Deyrnas Unedig. Er enghraifft canfu Ofcom (2014) fod gan 94 y cant o rai rhwng 16 a 24 oed fynediad i'r rhyngrwyd, tra mai dim ond 32 y cant rhai 75 oed a throsodd oedd â mynediad. Fodd bynnag, cynyddodd defnydd o'r rhyngrwyd ymysg y grŵp oedran olaf hwn gan bum pwynt canran ar draws y Deyrnas Unedig rhwng 2012 a 2014, y cynnydd mwyaf ymhlith unrhyw grŵp oedran⁵⁵.

Tabl 3: Aelwydydd gyda mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl oedran

	Canran (%)		
	2011/12 ⁵⁶	2012/13 ⁵⁷	2013/14 ⁵⁸
Pob grŵp oedran (18+) gyda'r mynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi (Cymru)	70	73	75
Mynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi yn ôl oedran (Cymru):			
18-24	91	90	91
25-44	90	91	93

⁵⁴ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*, t12

⁵⁵ Nodyn: mae angen gofal wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Ofcom (neu arolygon eraill) oherwydd gwahaniaethau yn y cwestiynau a ofynnwyd.

⁵⁶ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012*. Mae'r adroddiad yn cyflwyno data ar rai 65 oed a throsodd. Cafodd y categori hwn ei newid yn 2012/13 i rai 65-74 oed a rhai 75 oed a throsodd.

⁵⁷ Llywodraeth Cymru (Mai 2014) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13*

⁵⁸ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14*

45-64	84	86	88
65 a throsodd	49		
65 – 74		66	69
Dros 75		31	38

Ffynonellau: Amrywiol

Gan droi at ddefnydd, cyflwynir data arolwg Byw yng Nghymru (2007) ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (cynllun peilot 2009/10 i 2013/14) ar ddefnydd o'r rhyngrwyd yn ôl oedran yn Nhabl 4. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'n fras y ffigurau'n ymwneud â mynediad i'r rhyngrwyd, gyda lefelau da o dwf yn y defnydd o'r rhyngrwyd ymhlith pob grŵp oedran yn cynnwys rhai dros 65 oed, er fod lefel twf ar gyfer rhai o oedran ymddeol yn fras debyg i'r twf cyfartalog ar gyfer pob grŵp oedran. Mae Tabl 4 hefyd yn cadarnhau fod targed Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd o'r rhyngrwyd ar gyfer 2015 eisoes wedi'i basio erbyn 2014.

Tabl 4: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl oedran a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd

	Canran (%)					
	2007 ⁵⁹	2009/10 ⁶⁰	2011/12 ⁶¹	2012/13 ⁶²	2013/14 ⁶³	2014/15 ⁶⁴
<i>Pob grŵp oedran (18+)</i>	61	D/G	73	76	79	81
<i>Oedran:</i>						
18-24	88	87	95	96	97	99
25-44	80	87	92	95	95	96
45-64	65	75	76	79	83	85
65 a throsodd	24	37	37	39	44	-
65-74	-	-	-	-	-	63
75 a throsodd	-	-	-	-	-	29

Ffynonellau: Amrywiol

Canfu Adroddiad Cynhwysiant Digidol 2013/14, er bod allgáu digidol wedi'i gysylltu gyda chost yn achos grwpiau iau, ar gyfer grwpiau hŷn roedd yn

⁵⁹ Arolwg Byw yng Nghymru 2007

⁶⁰ Arolwg Cenedlaethol Cymru, peilot 2009/10

⁶¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012

⁶² Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant Digidol Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Daeyrddiaeth, Prifysgol Sheffield

⁶³ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14

⁶⁴ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 Canlyniadau Pennawd

ymwneud yn llawer mwy â dewis personol, hynny yw, dywedodd 66 y cant o rai 65 oed a throsodd nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwrwyd am nad oeddent eisiau gwneud hynny a dywedodd 43 y cant yn yr un grŵp oedran nad oedd angen iddynt (roedd y cyfraddau cymharol ar gyfer grwpiau oedran 18-24 oed yn 40 y cant a 32 y cant yn yr un drefn).

Mae data Ofcom hefyd yn cadarnhau fod pobl hŷn yn arafach wrth addasu i dechnolegau digidol newydd ar gyfer cael mynediad i'r rhyngwrwyd. Er enghraifft, mae 74 y cant o ddefnyddwyr rhyngwrwyd 55 oed a throsodd yn defnyddio cyfrifiadur desg neu liniadur i gyrchu'r rhyngwrwyd o gymharu â dim ond 60 y cant o rai 35-54 oed a dim ond 41 y cant o rai 16 i 34 oed⁶⁵.

Mae Tabl 5 yn cyflwyno data ar y canran o bobl yn y gwahanol grwpiau oedran a gyrchodd wefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn y 12 mis diwethaf. Mae'r tabl eto'n dangos gwelliannau ar draws y grwpiau oedran mewn blynyddoedd diweddar, efallai'n fwy felly mewn termau cymharol ar gyfer rhai o oedran ymddeol, er yn gyffredinol, mae'r gyfran o bobl hŷn (65-74 oed ac yn arbennig bobl 75 oed a throsodd) sy'n cyrchu gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn dal yn amlwg is nag ar gyfer y grwpiau oedran iau.

Tabl 5: Canran yn ymweld â gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (ymwelwyd yn y 12 mis diwethaf) yn ôl oedran

	Canran (%)		
	2011/12 ⁶⁶	2012/13 ⁶⁷	2013/14 ⁶⁸
<i>Pob grŵp oedran (18+)</i>	79	81	83
<i>Oedran:</i>			
18-24	76	86	85
25-44	87	86	88
45-64	78	81	83
65-74	63	67	73
75 a throsodd		53	57

Ffynonellau: Amrywiol

⁶⁵ http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cmr/cmr14/Wales_4.pdf (tud. 78)

⁶⁶ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012*

⁶⁷ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant Digidol*, Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Daeyddiaeth, Prifysgol Sheffield

⁶⁸ *Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14*

Yn y sefyllfa gadarnhaol yma, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau newydd ar gyfer cynhwysiant digidol (h.y. defnydd o'r rhyngwrdd) ymysg pobl hŷn, yn neilltuol er mwyn:

- Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 50 oed a throsodd, o 38 y cant ym Mai 2014 i 35 y cant erbyn 2015 a 30 y cant erbyn 2017;
- Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 50-64 oed o 20 y cant ym Mai 2014 i 16 y cant erbyn 2015 a 12 y cant erbyn 2017;
- Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 65-74 oed o 40 y cant ym Mai 2014 i 36 y cant erbyn 2015 a 32 y cant erbyn 2017;
- Gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl 75+ oed o 78 y cant ym Mai 2014 i 70 y cant erbyn 2015 a 60 y cant erbyn 2017.

2.3.3 Tai cymdeithasol

Gosododd cynllun cyflenwi Cymru Ddigidol darged o ostwng allgáu digidol ymysg preswylwyr tai cymdeithasol o 41 y cant (155,000) yn 2010 i 35 y cant (132,000) erbyn 2012 ac i 30 y cant (113,000) erbyn 2015⁶⁹.

Mae Tabl 6 yn cyflwyno data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ddefnydd o'r rhyngwrdd ar draws tri math o ddaliadaeth. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu fod bwlch sylweddol yn parhau yn nhermau defnydd o'r rhyngwrdd rhwng aelwydydd mewn tai cymdeithasol a mathau eraill o ddaliadaeth, er bod pob grŵp daliadaeth wedi cynyddu mynediad i'r rhyngwrdd ers 2011/12. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dangos bod mynediad i'r rhyngwrdd o dai awdurdodau lleol yn is nag o ddaliadaeth cymdeithasau tai.

Ymhellach, canfu arolwg peilot Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2010 fod gan 50 y cant o aelwydydd cymdeithasol fynediad i'r rhyngwrdd yn 2009/10, gan awgrymu cynnydd yn y rhai oedd â mynediad i'r rhyngwrdd o dai cymdeithasol i chwech pwynt canran dros y pedair blynedd ddiwethaf⁷⁰

⁶⁹ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2011) *Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni, t7*

⁷⁰ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2010 (peilot)* (data a gyflwynwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012)

Tabl 6: Aelwydydd gyda mynediad i'r rhynggrwyd, yn ôl daliadaeth

Canran (%)

Mynediad i'r rhynggrwyd yn ôl Cymru yn ôl daliadaeth:	2011/12⁷¹	2012/13⁷²	2013/14⁷³
Rhent preifat	77	75	81
Perchen-breswyliaeth	73	76	79
Tai cymdeithasol	52	54	56
<i>Grwpiau mynediad adref (pob grŵp, Cymru)</i>	70	73	75

Ffynonellau: Amrywiol

Dim ond ar gyfer 2012-13 a 2013-14 mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ddefnyddio'r rhynggrwyd wedi'i ddadansoddi yn ôl daliadaeth. Mae'r data'n dangos cynnydd bychan ar gyfer aelwydydd rhent preifat (87 y cant i 89 y cant) a pherchen-breswylwyr (77 y cant i 80 y cant), gyda chynnydd mwy (61 y cant i 66 y cant) ar gyfer tai cymdeithasol.⁷⁴ Mae data dechreuol o Arolwg Cenedlaethol 2014-15 yn awgrymu fod hyn wedi cynyddu ymhellach i 69%.⁷⁵ Ar draws pob aelwyd yng Nghymru, cynyddodd defnydd gan dri phwynt canran (76 y cant i 79 y cant) yn y ddwy flynedd hyd 2013-14.

Yn yr un modd mae tystiolaeth betrus o gynnydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n ymweld â gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu cynnydd rhwng 2011/12⁷⁶ a 2012/13⁷⁷ o chwech pwynt canran (68 y cant i 74 y cant) o gymharu gyda'r cynnydd cyfartalog ar gyfer pob grŵp daliadaeth o ddau pwynt canran (79 y cant i 81 y cant).

Mae diweddariad 2014 yn cydnabod y bu'r cynnydd ar darged 2011, er yn gadarnhaol, yn arafach na'r disgwyl. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy osod targedau newydd, yn benodol i ostwng lefelau allgáu digidol ymysg

⁷¹ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012*

⁷² *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cynhwysiant Digidol, 2012-13, 2013-14*

⁷³ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14*

⁷⁴ Nid oes unrhyw ddata ar ddefnydd yn ôl daliadaeth ar gael o arolwg 2012 neu arolwg cynharach Byw yng Nghymru.

⁷⁵ Nid oes unrhyw ddata ar ddefnydd yn ôl daliadaeth ar gael o arolwg 2012 neu arolwg cynharach Byw yng Nghymru.

⁷⁶ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr - Mawrth 2012*

⁷⁷ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant digidol*, Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Daeyddiaeth, Prifysgol Sheffield

preswylwyr tai cymdeithasol o 34 y cant ym Mai 2014 i 28 y cant erbyn 2015 a 22 y cant erbyn 2017.

2.3.4 Di-waith ac economaidd weithgar

Mae'r Cynllun Cyflawni Digidol (2011) yn nodi targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer gostwng allgáu digidol ymysg y cyflogedig, di-waith ac economaidd anweithgar, sef:

- Gostwng allgáu digidol ymysg y cyflogedig o 12 y cant (120,000⁷⁸) yn 2010 i 10 y cant (100,000) erbyn 2012 ac i 8 y cant (80,000) erbyn 2015;
- Gostwng allgáu digidol ymysg y di-waith o 27 y cant (45,000) yn 2010 i 24 y cant (40,000) erbyn 2012 ac i 20 y cant (33,000) erbyn 2015;
- Gostwng allgáu digidol ymysg yr economaidd anweithgar o 49 y cant (500,000) yn 2010 i 45 y cant (460,000) erbyn 2012 ac i 40 y cant (408,000) erbyn 2015.

Nid oes data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gael ar fynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer rhai mewn cyflogaeth/heb fod mewn cyflogaeth.

Fodd bynnag, bu cynnydd ar y targed defnydd yn dda, gyda thargedau 2015 eisoes wedi eu cyrraedd, y rhan fwyaf gryn dipyn yn uwch na'r targed. Dengys diweddariad 2014⁷⁹ ym Mai 2014:

- Dim ond 7 y cant o bobl mewn cyflogaeth (18+) oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol;
- Dim ond 10 y cant o bobl ddi-waith (18+ oed) oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol;
- Dim ond 20 y cant o bobl economaidd anweithgar o oedran gwaith (18+) oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol.

⁷⁸ *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant Digidol*, Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Daearyddiaeth, Prifysgol Sheffield

⁷⁹ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) *Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol – Diweddariad 2014 Y dull gweithredol strategol at gynhwysiant digidol*, t12

Ni fedrir cymharu data ar ddefnydd o'r rhyngrwyd gan bobl yng Nghymru 'mewn cyflogaeth' a 'dim mewn cyflogaeth' yn yr Arolwg Cenedlaethol - a gyflwynir yn Nhabl 7 - gyda'r ffigurau hyn oherwydd bod 'dim mewn cyflogaeth' yn cynnwys rhai nad ydynt mwyach o oedran gwaith. Fodd bynnag, mae'r data yma hefyd yn dangos gwelliant rhwng 2012/13 a 2013/2014 ar gyfer rhai heb fod mewn cyflogaeth. Mae Tabl 7 hefyd yn awgrymu rhai gwelliannau diweddar yn y canrannau o bobl mewn cyflogaeth a rhai heb fod mewn cyflogaeth sy'n defnyddio gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Tabl 7: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl statws cyflogaeth a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd

	Canran (%)	
	2012/13	2013/14
Statws cyflogaeth (18+):		
Mewn cyflogaeth	91	93
Dim mewn cyflogaeth	58	62
Wedi ymweld â gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (wedi ymweld yn y 12 mis diwethaf, yn ôl cyflogaeth, 18+):		
<i>Pawb</i>	81	83
Mewn cyflogaeth	85	88
Dim mewn cyflogaeth	74	76

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012/13 a 2013/14

Gyda thargedau 2015 wedi'u cyflawni eisoes, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau mwy heriol hyd 2017, yn benodol i ostwng allgáu digidol ymysg:

- Pobl gyflogedig (18+ oed) o saith y cant ym Mai 2014 i bump y cant yn 2015 a dau y cant yn 2017;
- Pobl ddi-waith (18+ oed) o 10 y cant ym Mai 2014 i saith y cant erbyn 2015 a phedwar y cant erbyn 2017;
- Pobl economaidd anweithgar o oedran gwaith (18 i 64 oed) o 20 y cant ym Mai 2014 i 16 y cant yn 2015 a 12 y cant erbyn 2017.

Mae data dechreuol o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yn awgrymu fod cynifer â 95% o'r diwaith a 82% o'r bobl economaidd anweithgar o oedran

gwaith yn defnyddio'r rhyngwrwd, gan awgrymu fod y targedau diwygiedig yn rhwydd o fewn cyrraedd.⁸⁰

2.3.5 Anabl/Salwch hirdymor

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn 2011 i ostwng allgáu digidol ymysg rhai gydag anableddau.

Dengys Tabl 8 mai dim ond cynnydd bach iawn a fu yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn y canran o bobl gydag anableddau/salwch hirdymor oedd yn defnyddio'r rhyngwrwd, gyda'r bwlch yn cynyddu rhwng y grŵp yma a rhai heb anableddau. Fodd bynnag, mae data arall (nas dangosir) yn awgrymu y bu cynnydd yn y ddau grŵp yn nhermau'r rhai'n ymweld â gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus⁸¹.

Tabl 8: Canran oedolion yng Nghymru yn ôl statws anabledd a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd ar hyn o bryd

	Canran (%)	
	2012/13 ⁸²	2013/14
<i>Pawb (18+)</i>	76	79
Anabledd ac iechyd:		
Pobl gydag anableddau neu salwch hirdymor	58	60
Pobl heb anableddau neu salwch hirdymor	83	86

Ffynhonnell: Amrywiol

Y targed diwygiedig a gyflwynwyd yng Nghynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol - Diweddariad 2014 yw gostwng lefelau allgáu digidol ymysg pobl gydag anableddau/salwch cyfyngol hirdymor o 40 y cant ym Mai 2014 i 35 y cant erbyn 2015 a 30 y cant erbyn 2017. Mae'r data dechreuol o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015 yn awgrymu nad oedd 38% o bobl anabl (salwch hirsefydlog cyfyngol, anabledd neu lesgedd) 18 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngwrwd.

⁸⁰ Data gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata Arolwg Cenedlaethol nas cyhoeddwyd hyd yma

⁸¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru, data 2012/13 a 2013/14.

⁸² Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13, Cynhwysiant digidol, Dr Adam Whitworth, Luke Temple a Dr Bethan Thomas, Adran Daearyddiaeth, Prifysgol Sheffield

2.3.6 Casgliadau ar fynediad a defnydd

Yn gyffredinol felly, mae'r data ar fynediad i'r rhyngwrwyd a'r defnydd o'r rhyngwrwyd yng Nghymru yn awgrymu cynnydd sylweddol a gostwng y bwlch rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan, a rhai llwyddiannau nodedig yn nhermau grwpiau targed penodol o fewn y boblogaeth, er gyda llai o gynnydd yn nhermau rhai gydag anableddau a rhai'n byw mewn tai cymdeithasol.

Wrth gwrs ni fedrir priodoli'r holl newidiadau cadarnhaol hyn i ymyriadau (yn bennaf Cymunedau 2.0) Llywodraeth Cymru. Bu rôl gan newidiadau mewn cymdeithas a bydd hynny'n parhau mewn defnyddio defnydd rhyngwrwyd fel norm yn y prif ffrwd. Ymhellach - fel y dynodir yn y *Diweddariad ar y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol* - bydd grymoedd y farchnad e.e. effeithiolrwydd a'r angen am swyddogaethau ar-lein a thechnoleg rhatach a rhwyddach ei defnyddio hefyd yn sbardun i gynhwysiant digidol.

Fodd bynnag, mae cymhelliant, sgiliau a fforddiadwyedd yn parhau'n rhwystrau allweddol. Fel y mae'r diweddariad yn ei ddynodi'n gywir, mae cynnydd technolegol ei hunan yn bygwth cynyddu'r bwlch digidol rhwng defnyddwyr cyson a all yn gynyddol ymelwa ar dechnolegau sy'n gwella drwy'r amser, a'r rhai sy'n parhau i'w chael yn anodd goresgyn rhwystrau mynd ar-lein. Mewn geiriau eraill, mae'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol mewn perygl o gael eu gadael ar ôl, ac yn wir gyda'r symudiad i roi mwy o wasanaethau cyhoeddus, gwybodaeth a swyddogaethau ar-lein, mae'r risg yn parhau y bydd llawer iawn o'r bobl sydd angen iddynt ddefnyddio'r rhyngwrwyd yr union bobl nad ydynt wedi ymgysylltu'n ddigidol ar hyn o bryd.

2.4 Manteision economaidd cynhwysiant digidol

Mae edrych ar y brif ymchwili yn dangos natur ddarniog y dystiolaeth sydd ar gael ar fanteision economaidd cynhwysiant digidol.

Gan ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil sydd ar gael, daeth

PricewaterhouseCoopers (2009) i'r casgliad:

- Bod aelwydydd nad ydynt ar-lein yn colli arbedion o £560 y flwyddyn o siopa a thalu biliau ar-lein. Ar gyfer 3.6 miliwn o aelwydydd incwm isel, mae hyn yn gyfwerth â cholli arbedion o dros £1 biliwn o siopa a thalu biliau ar-lein⁸³;
- Gellir gwella perfformiad addysgol plant drwy fynediad yn y cartref i gyfrifiadur a'r rhyngwrdd. Gallai galluogi 1.6 miliwn o blant mewn teuluoedd nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrdd i fynd ar-lein yn eu cartrefi hybu cyfanswm eu henillion oes gan £10 biliwn;
- Mae pobl gyda sgiliau TGCh da yn ennill rhwng 3-10 y cant yn fwy na phobl heb sgiliau o'r fath⁸⁴;
- Gallai pob cyswllt a wnaiff y cyhoedd gyda darparwydd gwasanaeth a phob gweithrediad a wnânt ar-lein nad oedd yn cael ei wneud ar-lein yn flaenorol arbed rhwng £3 a £12 fesul gweithrediad i'r darparwydd gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae Bradshaw (2011) yn herio'r canfyddiadau hyn ac yn bwrw amheuan ar gadernid yr honiadau sy'n deillio o'r ymchwil wreiddiol.⁸⁵ Mae Bradshaw hefyd yn cyflwyno set o egwyddorion methodolegol y gellid eu defnyddio i gynhyrchu cyfrifiad cynhwysfawr ar gost-budd. Er enghraifft, defnyddio dull mewn segment i ddeall costau a buddion cynhwysiant digidol i wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, hynny yw, rhannu i wahanol grwpiau o gymdeithas, ac oddi yno gymharu costau mynediad a defnydd digidol gyda:

- Y buddion a gollir gan ddinasyddion. Y swm o arian y mae pob aelod o'r grŵp yn ei golli fel canlyniad i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein;

⁸³ Seiliedig ar adroddiad yn 2008 gan SQW Consulting ar gyfer Swyddfa'r Post, *Broadband in the Home: An Analysis of the Financial Costs and Benefits*.

⁸⁴ Er ei bod yn bwysig cadw mewn cof y gall y premiwm am sgiliau TGCh fod yn rhwydd fod wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd ers paratoi'r adroddiad hwn, oherwydd newidiadau yn y farchnad lafur a chyflwyno gofyniad drwy Universal Job Match ar geiswyr swydd i ddefnyddio'r rhyngwrdd fel rhan o'r system budd-daliadau.

⁸⁵ Bradshaw (2011) *Digital Inclusion: Economic and social benefits for individuals and wider society*, Papur GSR Llywodraeth Cymru 26/2011

- Y buddion a gollir i'r llywodraeth. Y swm o arian y gallai sefydliadau llywodraeth yn delio gyda dinasyddion ym mhob grŵp ei arbed fel canlyniad i gyrraedd aelodau pob grŵp ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb;
- Y buddion a gollir i'r economi. Cyfeirio at golledion mewn allbwn cenedlaethol oherwydd nad yw pob un o'r grwpiau hyn yn gwella eu cyflwr cyffredinol fel canlyniad i beidio defnyddio gwasanaethau ar-lein.

Mae *UK Online Centres (2008)* yn dweud fod ei bod yn her fawr i gyfrif buddion posibl cynhwysiant digidol mewn termau ariannol⁸⁶, er y gallodd eu hastudiaeth baratoi nifer o amcangyfrifon ariannol (a heb fod yn ariannol), yn cynnwys:

- Mae unigolion heb eu hallgáu'n ddigidol yn debygol o wneud yn well yn academiaidd (cynnydd o ¼ gradd TGAU fesul pwnc);
- Mae sgiliau cyfrifiadur/defnydd o'r rhynggrwyd yn ennill cyflog uwch (3-10 y cant);
- Gall gwasanaethau llywodraeth wneud arbedion sylweddol drwy ryngweithio gyda chyfryngwr. Er enghraifft, rhagwelid y byddai un o gynlluniau ar-lein NHS Direct yn arbed £68 miliwn yn 2008;
- Gall cwmnïau gynyddu sylfaen cwsmeriaid a nifer gwerthiannau (ar gyfartaledd mae gwariant ar-lein 20 y cant yn uwch na heb fod ar lein);
- Mae effaith gadarnhaol ar Gynnyrch Mewnwladol Crynswth i'r economi (mwy na 1.54 y cant dros dair blynedd);
- Yn ôl gwefan cymharu prisiau uSwitch.com, mae'r arbediad cyfartalog a geir yn defnyddio gwefannau cymharu prisiau yn 13 y cant ar gyfer nwyddau groser, 15 y cant am deithio a 21 y cant am wasanaethau⁸⁷. A thybio arbediad o 13 y cant ar gyfartaledd ar fasged siopa ar y rhynggrwyd (£606, Verdict 2007), gallai hyn arbed £90.55 y flwyddyn i ddefnyddwyr mewn termau ariannol yn unig. Gan gyfrif y buddion a geir drwy fwy o ddewis a gostwng mewn amser chwilio a chost, soniodd yr adroddiad am

⁸⁶ UK Online Centres (2008) *Economic benefits of Digital Inclusion: building the evidence*

⁸⁷ Yn ôl safle cymharu prisiauSwitch.com

arolwg gan Demos/Swyddfa'r Post Cyf a ganfu fod cyfanswm fesul defnyddwyr ar gyfer budd siopa ar-lein tua £283 y flwyddyn.

Yn nhermau seilwaith, awgrymodd Swyddfa Cymru (Mehefin 2014)⁸⁸ y bydd pob £1 a fuddsoddir mewn gwell seilwaith band eang yn sicrhau gwerth £20 o fuddion i'r economi yn y dyfodol.

Yn olaf, mae *UK Digital Inclusion Strategy July 2014*⁸⁹ yn rhoi rhai canfyddiadau cyffredinol am fuddion ariannol (ac ariannol bosibl) cynhwysiant digidol ac yn cyflwyno canfyddiadau gan Booz & Company, cwmni ymgynghori rheolaeth, sy'n amcangyfrif yr ychwanegid £63 biliwn i'r economi (cyfwerth â hwb o £2 biliwn i economi Cymru) pe gallai pawb yn y Deyrnas Unedig fynd ar-lein)⁹⁰.

I grynhoi, er y bu datblygiadau yn y dulliau o fesur costau a buddion cynhwysiant digidol, mae angen clir yn parhau am fwy o ddata (a data cadarnach) ar y costau a'r buddion hyn. Er hyn, ac er bod nifer o heriau allweddol ar ôl - yn fwyaf arbennig yng nghyswllt y grwpiau oedran hŷn, rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol, rhai heb fod mewn cyflogaeth a rhai'n byw gydag anabledau/salwch hirdymor - dengys y data a gyflwynir yn yr adran yma y bu cynnydd sylweddol wrth sicrhau cynhwysiant digidol yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r neges gyffredinol o'r data felly yn un gadarnhaol.

⁸⁸ Swyddfa Cymru (Mehefin 2014) *Adeiladu Cymru fwy lewyrchus: Seilwaith ar gyfer economi modern*. Telathrebu

⁸⁹ *UK Digital Inclusion Strategy* Gorffennaf 2014

⁹⁰ Seiliedig ar GDP Cymru (2012) £47.3 biliwn a GDP y Deyrnas Unedig (2012) £1,570 biliwn (en.wikipedia.org/wiki/Economy_of_Wales a <https://www.statista.com/>)

3.0 Canfyddiadau: Rhesymeg a 'ffit' polisi yng nghyd-destun newid mewn polisi

Canfyddiadau allweddol

Credai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod Cymunedau 2.0 yn parhau i fod yn berthnasol iawn i'r agenda polisi ehangach. Yn neilltuol, roedd pwyslais cryf Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddarparu budd-daliadau lles ar-lein wedi cyfrannu at gynyddu'r galw am gefnogaeth gan unigolion ac wedi bod yn sbardun wrth ennyn diddordeb yn yr agenda cynhwysiant digidol ar ran sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill.

Ystyriwyd bod hyn wedi cyfrannu hefyd at gynyddu ffocws ar waith gydag unigolion yn hytrach nag ar sefydliadau a llai o ffocws ar gael mynediad i'r rhwyngwyllydd a defnyddio'r rhwyngwyllydd.

Ffactorau cyd-destunol allweddol eraill y soniodd rhanddeiliaid eu bod wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Rhaglen oedd y twf cyflym mewn mynediad i'r rhwyngwyllydd o ddyfeisiau cludadwy (yn arbennig llechi a ffonau clyfar) a'r pwysau cryf ar wariant cyhoeddus yn gyrru mwy o wasanaethau cyhoeddus Cymru ar-lein.

Fel y gwelsom ym Mhennod 2, mae cynhwysiant digidol wedi parhau ers adeg ein Gwerthusiad Interim i fod yn ffocws sylweddol i bolisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a hefyd Lywodraeth Cymru. Caiff hyn ei yrru'n bennaf gan ddwy ystyriaeth - y gyntaf yw'r gydnabyddiaeth o'r cysylltiad agos rhwng allgáu digidol ac allgáu cymdeithasol (gydag, yn achos Llywodraeth Cymru, cynhwysiant digidol yn cael ei weld yn gynyddol fel rhan allweddol o strategaeth canolog bwysig trechu tlodi) a'r ail y ffocws cynyddol ar yr angen i sicrhau arbedion wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy ddefnyddio dulliau ar-lein yn hytrach na rhai mwy llafurddwys fel canolfannau gwasanaeth lleol a chanolfannau galw. Fel y nodwyd yn ein Gwerthusiad Interim, daeth yr ail ffactor yma'n gynyddol bwysig pan soniodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig

am ei bwriad i ddilyn strategaeth 'digidol yn ddiofyn' yn neilltuol yng nghyswllt taliadau budd-dal, yn arbennig Credyd Cynhwysol.

Er y cafodd ymestyn Credyd Cynhwysol ei ohirio sawl gwaith, cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r staff a rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld at newidiadau yn y system lles - yn cynnwys y targedau anodd a osodwyd ar gyfer y rhwydwaith Canolfannau Gwaith a'r gyfran ar-lein o hawliadau Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) a'r gofyniad i'r rhai sy'n chwilio am waith ddangos eu bod wedi cofrestru ar wefan Universal Job Match (UJM) ac yn ei defnyddio'n rheolaidd - yn ogystal â chynyddu perthnasedd a phwysigrwydd y Rhaglen. Ystyrid bod y newidiadau hyn i'r amgylchedd allanol wedi dylanwadau ar y Rhaglen drwy:

- Cynyddu'r galw gan unigolion, yn neilltuol geiswyr gwaith, oedd angen sgiliau TGCh sylfaenol neu fod mewn risg o golli eu budd-daliadau: gwelid hyn yn eang fel 'ffon' yn nhermau ennyn diddordeb mewn cynhwysiant digidol ynghyd â'r 'moryn' ar wedd ymdrechion staff y Rhaglen i ganfod ffyrdd o ennyn diddordeb pobl mewn manteision llythrennedd TGCh;
- Cynyddu diddordeb sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn yr agenda cynhwysiant digidol. Yn neilltuol, dywedwyd fod effaith posibl ehangach diwygio lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y tlotaf mewn cymdeithas wedi arwain at ffocws newydd ar ran awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn arbennig ar gynyddu budd-daliadau (a oedd yn ei dro yn cael ei weld fel bod un ai eisoes angen neu ar fin angen llythrennedd ddigidol) er mwyn sicrhau lles a hefyd ddiogelu refeniw.

Ar yr un pryd, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod pwysau ar gyllid sector cyhoeddus yn annog Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac eraill i dderbyn fod dull mwy rhagweithiol i symud eu gwasanaethau eu hunain i fod ar-lein yn anochel, gan felly ychwanegu at y pwysau i ymwneud â'r agenda cynhwysiant digidol⁹¹. Yn fwy cul, efallai, credai nifer fach o gyfweleion fod rhai gwasanaethau, llyfrgelloedd yn arbennig, wedi dod yn gynyddol frwdfrydig i weithio gyda Cymunedau 2.0 ar y sail y gallai hyn helpu i ddangos eu

⁹¹ Mae'r ffocws cynyddol ar ddarpariaeth ddigidol - a phwysigrwydd cynhwysiant digidol yn y cyd-destun yma - wedi ei gydnabod yn ddilynol yn strategaeth *Digidol yn Gyntaf* Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

perthnasedd a'u pwysigrwydd yn y gymuned mewn ffyrdd newydd ar adeg pan oedd eu swyddogaeth graidd yn cael ei herio gan argaeledd gwybodaeth ar-lein a bygythiad toriadau cyllid.

'Mae'n gwneud y llyfrgell yn fwy hyfyw a gallai ei arbed rhag cael ei gau' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Wrth gwrs, mae'n bwysig cydnabod nad oedd y newidiadau allanol hyn yn hollol annibynnol o'r Rhaglen: awgrymodd llawer o randdeiliaid y bu staff Cymunedau 2.0 yn effeithlon wrth gyfleu'r dadleuon am bwysigrwydd cynhwysiant digidol yn y cyd-destun newydd hwn i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, llyfrgelloedd ac eraill.

Fodd bynnag, credai llawer o randdeiliaid hefyd fod toriadau mewn gwasanaethau lleol yn cael effaith negyddol ar y Rhaglen, yn arbennig yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf wrth i doriadau sylweddol i gyllidebau awdurdodau lleol ddechrau brathu a staff yn ffocysu'n gynyddol ar p'un ai a fyddent yn cadw eu swyddi ai peidio, gyda nifer o randdeiliaid yn sôn am enghraifft cau llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf:

'Mae toriadau yn y sector cyhoeddus wedi ein dal yn ôl mewn modd mawr' (rhanddeiliad cenedlaethol).

Ystyrid bod effaith y newidiadau hyn nid yn unig yn nhermau perthnasedd ac amlygrwydd y Rhaglen yn gyffredinol ond hefyd yn nhermau newid ffocws y Rhaglen. Roedd yr holl randdeiliaid bron yn cydnabod y bu ffocws llawer cryfach yn ystod ail gam y Rhaglen ar gyrraedd a chefnogi unigolion, un ai'n uniongyrchol neu'n fwy pwysig wedi'i drefnu drwy gynlluniau daearyddol a digidol oedd yn ymarferol wedi dod yn ffocws hollol ganolog i'r Rhaglen, yn ogystal ag - ym misoedd diwethaf y Rhaglen - ymgyrch genedlaethol newydd. Credid yn gyffredinol bod hyn wedi arwain at i'r gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, os nad wedi ei ymylu, yna'n cael llai o bwyslais yn nhermau cyflenwi'r Rhaglen. Roedd hyn er gwaethaf ad-drefnu'n dimau ardal a mwy o bwysau ar sicrhau bod gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn mynd i'r afael o ddifrif gyda'r graddau y gallent weithredu fel dull i hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Eto, soniodd mwyafrif y staff a rhanddeiliaid a gyfwelwyd am ail effaith y newidiadau polisi allanol ar y Rhaglen, sef ffocws cynyddol ar gael pobl ar-lein fel arwydd o gynhwysiant digidol. Cafodd y ffocws culach yma ei feirniadu gan ychydig o gyfweleion a deimlai nad oedd yn rhoi sylw digonol i gyfoeth yr hyn y dylai cynhwysiant digidol fod amdano, a bod hefyd angen ailbwrpasu rôl ac ymgyfraniad rhai o bartneriaid Cymunedau 2.0, gyda llai o ddiddordeb er enghraifft mewn straeon digidol fel ffordd o ennyn diddordeb pobl. Fodd bynnag, roedd nifer fwy yn croesawu'r eglurder cynyddol a roddai'r ffocws ar gael pobl ar-lein i 'genhadaeth' gyffredinol y Rhaglen.

Ystyriai rhai rhanddeiliaid fod y ffocws cynyddol yma ar gael unigolion ar-lein yn dangos pwysigrwydd cynyddol strategaeth trechu tlodi i Lywodraeth Cymru a oedd, er yn canolbwyntio ar y cymunedau tlotaf, yn cydnabod nad oedd allgáu cymdeithasol - a digidol - wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd mwyaf amddifadus ac felly'n ei gysylltu gyda llacio graddol yn ffocws gofodol y Rhaglen i alluogi gweithgaredd tu allan i'r 30% o LSOA mwyaf amddifadus. Croesewid hyn yn eang - yn wir, ni soniodd neb am unrhyw feirniadaeth o'r newid yma. Ar drywydd tebyg, roedd pawb yn croesawu ymestyn y Rhaglen i bob rhan o Ddwyrain Cymru, er bod nifer fechan o randdeiliaid yn pryderu y bu hynny mor hir yn digwydd.

Ar wahân i'r newidiadau sylweddol hyn yn yr amgylchedd polisi, y prif newid cyd-destunol y soniodd mwyafrif y rhanddeiliaid amdano oedd datblygiadau cyflym mewn technoleg dros oes y Rhaglen, yn neilltuol gyflwyno a defnydd sydyn ar ffonau clyfar a llechi. Ystyriai pawb fod hyn yn ei gwneud yn haws cysylltu gydag ystod ehangach o unigolion - yn neilltuol yr henoed yr ystyriwyd eu bod yn fwy tebygol o ganfod llechi yn rhwyddach i'w defnyddio na gliniaduron neu gyfrifiaduron personol. Fodd bynnag, credai rhai rhanddeiliaid hefyd fod hyn yn achosi heriau ychwanegol i'r rhai'n darparu'r cefnogaeth i fod yn hyblyg yn eu dull gweithredu.

4.0 Canfyddiadau: Prosesau a threfniadau cyflenwi'r Rhaglen

4.1 Cyflwyniad

Fel gwerthusiad terfynol, dim ond triniaeth fer sydd yn yr adroddiad yma o faterion mewnol i'r Rhaglen (ystyriwn gysylltiadau ehangach gyda rhanddeiliaid allanol ym Mhennod 6 a materion proses yn gysylltiedig gyda'r gefnogaeth ym Mhennod 7). Yn yr adran yma, a seiliwyd yn bennaf ar farn staff a rhanddeiliaid, ystyriwn effeithonrwydd prosesau rheoli'r rhaglen.

Canfyddiadau allweddol

Yn gyffredinol, roedd adborth gan rhanddeiliaid a staff yn awgrymu y bu perthynas dda rhwng WEFO, yr Adran Cynhwysiant Digidol a'r partneriaid cyflenwi, ac ystyrid bod tîm rheoli'r Rhaglen wedi bod yn ymatebol iawn i'r newid ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru, tra'n ceisio ymdopi gyda gwahanol elfennau'r Rhaglen (cymorth i fentrau cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac unigolion). Bu hyn yn broblem i rai staff, ond yn gyffredinol bu'r berthynas rhwng y partneriaid cyflenwi yn dda, gyda phob un yn gwneud cyfraniad neilltuol (er nid o reidrwydd yn y ffordd a ragwelwyd ar y dechrau).

Ystyriwyd yn gyffredinol fod cyflwyno timau ardal yng nghanam 2 wedi bod yn welliant sylweddol, er y credid bod perfformiad yn amrywio o ardal i ardal.

4.2 Y berthynas rhwng WEFO, Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen

Yn gyffredinol, cytunai pawb a gyfwelwyd y bu perthynas dda iawn yn ystod yr ail gam rhwng WEFO, yr Uned Cynhwysiant Digidol a'r Rhaglen, yn arbennig Ganolfan Cydweithredol Cymru fel y prif gontractwyr, gydag unrhyw broblemau wedi'u trafod yn effeithlon wrth iddynt ddigwydd. Er y bu cynnydd ar rai targedau - yn neilltuol y rhai a gytunwyd gyda WEFO yn ymwneud â chreu mentrau cymdeithasol a swyddi newydd - yn bryder i rai o'r cyfweleion,

derbyniwyd yn gyffredinol fod y Rhaglen wedi gwneud ymdrechion difrifol i gyrraedd y targedau a osodwyd gan yr ERDF mewn amgylchiadau economaidd anodd.

Roedd consensws cyffredinol y bu rheolwyr y Rhaglen yn barod iawn i ddangos hyblygrwydd yn y ffordd yr oeddent yn ymateb i'r newidiadau yn yr amgylchedd polisi, er enghraifft, integreiddio cynhwysiant digidol yn agosach gyda gwaith gwrth-dlodi a'r ffocws cynyddol ar gefnogi unigolion i fynd ar-lein er mwyn sicrhau fod ganddynt fynediad i fudd-daliadau lles.

I rai, efallai yn neilltuol o fewn y staff, roedd teimlad y bu gormod o hyblygrwydd ac y gallai'r partneriaid fod wedi bod yn gadarnach wrth amddiffyn natur wreiddiol y contract a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, credai'r rhan fwyaf o rhanddeiliaid y bu angen yr hyblygrwydd yma mewn Rhaglen chwe mlynedd oedd yn cyflenwi yng nghyd-destun newid technolegol, economaidd a gwleidyddol cyflym ac y bu hynny yn y pen draw yn nerth gwirioneddol.

4.3 Rheoli'r Rhaglen a'r berthynas rhwng y partneriaid cyflenwi

Yma eto, yn gyffredinol teimlai'r rhanddeiliaid fod y Rhaglen wedi llwyddo i drin y bartneriaeth cyflenwi greiddiol drwy newidiadau allanol a mewnol sylweddol, er fod peth gwahaniaeth barn ymysg rhanddeiliaid am effeithlonrwydd cyfathrebu mewnol, tra teimlai rhai staff eu bod wedi gorfod wynebu llif gweddol gyson o newidiadau mewn ceisiadau a gofynion gan reolwyr am eu blaenoriaethau. Mewn ymateb, cydnabu rheolwyr y Rhaglen y bu'n rhaid i bartneriaid a staff addasu'n sylweddol i ddiwallu'r newid yn ffocws y Rhaglen a sicrhau cyrraedd targedau, a theimlent y cafodd hyn ei dderbyn yn eang er lles pawb. Dywedwyd i'r bartneriaeth gael ei thrin mewn ffordd gydsyniol gyffredinol yn hytrach na ffordd hierarchaidd, er mai Canolfan Cydweithredol Cymru oedd yn bennaf gyfrifol am gontractau.

Cydnabu nifer o gyfweleion fod Cyngor Sir Caerfyrddin a PAVS ill dau wedi gwneud cyfraniadau sylweddol iawn at gyflenwi'r Rhaglen (yn achos Cyngor Sir Caerfyrddin drwy roi enghraifft glir o'r hyn y gellid ei gyflawni gan ddefnydd helaeth o wirfoddolwyr wrth gyflenwi cynhwysiant digidol yn uniongyrchol i'r grwpiau targed ac yn achos PAVS drwy ddatblygu carfan o Circuit Riders ar draws Cymru gyda ffocws ar weithio gyda sefydliadau trydydd sector mewn ffordd strategol ac yn ymestyn hyfforddiant ymarferwyr digidol). Fodd bynnag, teimlai'r cyfweleion hyn nad oedd Cyngor Sir Caerfyrddin a PAVS o reidrwydd wedi llwyddo wrth sicrhau'r bwriad gwreiddiol o greu 'ffordd i mewn' i rwydweithiau cenedlaethol ehangach llywodraeth leol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru. Yn achos PAVS a hefyd y trydydd partner, GEECS, ystyrid y bu Cymunedau 2.0 yn faes pwysig iawn o weithgaredd ond nid yn un oedd wedi'i alinio'n gryf iawn gyda busnes craidd y sefydliadau dan sylw.

Yn nhermau symud i dimau ardal (a ddigwyddodd ar ddechrau cam 2), ystyrid yn gyffredinol fod hyn yn welliant gwirioneddol, nid yn lleiaf o ran sicrhau gwasanaeth llyfnach i sefydliadau a gefnogwyd, gyda gwell cyfathrebu rhwng staff gwahanol bartneriaid (er y gellid dadlau y cafodd tranc Novas Sarman a throsglwyddo ei staff i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol effaith yma). Fodd bynnag, awgrymodd grwpiau ffocws gyda'r staff fod peth tensiwn yn parhau, nid yn lleiaf rhwng broceriaid a Circuit Riders⁹², gyda rhai o'r Circuit Riders yn dweud - yn nhermau gwaith gyda sefydliadau o leiaf - bod broceriaid yn 'ganolwyr' diangen rhwng sefydliadau a gysylltai â'r Rhaglen a'r Circuit Riders oedd yn darparu'r rhan fwyaf o gefnogaeth. Awgrymai'r broceriaid fod dulliau gweithredu staff yn rhy anhyblyg.

Efallai ei bod yn anochel yr ymddangosai'n glir fod y cysyniad tîm ardal wedi gweithio'n well mewn rhai ardaloedd nag mewn eraill, yn arbennig lle'r oedd arweinyddiaeth gref gan frocer deinamig. Ar yr un pryd, soniodd nifer o gyfweleion am ddiffyg cysondeb yn nhermau lefel y gefnogaeth oedd ar gael i wahanol ardaloedd, gyda'r ardaloedd yn Nwyrain Cymru y tu allan i'r rhaglen Cydgyfeirio yn cael eu hystyried fel 'y perthynas tlawd'.

⁹² Mae esboniad o'r rolau hyn yn 2.1, t.12

Dywedodd nifer o randdeiliaid fod y Rhaglen mewn gwirionedd wedi cynnwys o leiaf dair elfen hollol ar wahân - cefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cymorth i fentrau cymdeithasol a gweithgareddau cynhwysiant digidol a gyfeiriwyd at unigolion - ac fel y dywedodd un cyfwelai, bu'n her sicrhau'r cydbwysedd rhwng cyflenwi rhaglen cynhwysiant digidol i gyflawni agenda Llywodraeth Cymru a chyflenwi prosiect a ariannwyd gan ERDF gyda ffocws ar allbynnau yn ymwneud â mentrau cymdeithaso; ni fu'n rhwydd bob amser i gael y cydbwysedd iawn yn nhermau adnoddau i'r ddwy elfen.

5.0 Canfyddiadau: Perfformiad

5.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma, ystyriwn berfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer y Rhaglen - gan WEFO a hefyd yn 'fewnol' gan yr Uned Cynhwysiant Digidol - ac yn nhermau'r alldro ariannol. Ystyriwn yn gyntaf yr hyn a ddywed y data monitro wrthym (Adran 5.2) cyn troi at gynnydd ariannol (Adran 5.3) ac adrodd ar ganfyddiadau staff a rhanddeiliaid cenedlaethol am berfformiad (Adran 5.4).

Canfyddiadau allweddol

Rhagorodd y Rhaglen a y rhan fwyaf o'r targedau a osodwyd gyda chyflawniad neilltuol o gryf yn nhermau buddiolwyr unigol a gefnogwyd. Nid oedd y cynnydd o ran mentrau a gafodd eu creu a swyddi newydd gystal, er yn dal i fod yn gyflawniad rhesymol o gofio am yr hinsawdd economaidd a'r ffocws cryf yn ystod cam 2 ar gefnogaeth i unigolion, tra bod cymorth i fentrau ar themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn dangos canlyniadau rhesymol dda ar ôl dechrau araf. Roedd tanwariant bach o tua 4% ar y Rhaglen ym Medi 2014.

5.2 Cynnydd o gymharu â'r targedau

Cafodd y targedau a gytunwyd rhwng WEFO, yr Uned Cynhwysiant Ariannol a Chanolfan Cydweithredol Cymru fel y partner arweiniol eu hail-broffilio nifer o weithiau yn ystod oes y Rhaglen, yn fwyaf diweddar ar ddechrau cam 2 yn Ebrill 2012. Yn Nhabl 9 (islaw) cyflwynwn y targedau gwreiddiol ar gyfer y Rhaglen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y targedau fel y'u hail-broffiliwyd ym mis Ebrill 2012 a'r alldro terfynol: dangosir y ffigurau ar gyfer Cymru gyfan mewn cromfachau⁹³.

⁹³ Caiff y diffiniad o'r targedau a'r dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi allbynnau eu trafod yn ein Hadroddiad Cwmpasu

Tabl 9: Yr hyn a gyflawnodd Cymunedau 2.0 o gymharu a'r targedau

Amcan	Disgrifiad	Targed Gwreiddiol	Targed ail-broffilio	Cyflawni
Amcan 1	Cynorthwyo grwpiau cymunedol a sefydliadau sector gwirfoddol i ddefnyddio a/neu ymelw ar TGCh	360	360 (380)	380 (418)
Amcan 2	Cynorthwyo mentrau presennol i ddefnyddio a/neu ymelwa ar TGCh	120	265 (275)	338 (386)
Amcan 3	Rhoi cymorth ariannol i fentrau presennol i ddefnyddio a/neu ymelwa ar TGCh	120	125 (130)	127 (134)
Amcan 4	Cynorthwyo wrth sefydlu mentrau newydd o amgylch ymwela ar TGCh i wella eu perfformiad yn fewnol ac allanol	50	50 (50)	33 (33)
Amcan 5	Cyflenwi cynlluniau i fynd i'r afael â'r rhwystrau i TGCh	6	5 (5)	5 (5)
Amcan 6	Cynorthwyo unigolion i sicrhau cynnydd yn y farchnad swyddi	200	345 (345)	361 (385)
Amcan 7	Cefnogi mentrau, a gynorthwywyd gan y prosiect yma, i fabwysiadu neu wella eu strategaethau cydraddoldeb (yn cynnwys systemau monitro cydraddoldeb)	120	120 (120)	70 (70)
Amcan 8	Dangos y ffordd i fentrau sy'n defnyddio neu'n gwella systemau rheolaeth amgylcheddol.	48	48 ⁹⁴ (48)	67 (67)
Amcan 9	Rhoi budd i unigolion dros oes y prosiect.	20,000	20,000 (25,600)	54,563 (61,250)
Amcan 10	Creu swyddi newydd crynswth	100	100 (100)	73.8 FTE (73.8)

Fel y gwelir, mae'r Rhaglen wedi cyflawni neu ragori ar ei thargedau gwreiddiol a hefyd y targedau diwygiedig ar gyfer chwech o'r deg Amcan, yn cynnwys cyflawni bron dair gwaith y targed gwreiddiol ar gyfer buddiolwyr unigol a chyflawni'r targed a ail-broffiliwyd ar gyfer seithfed.

Yn nhermau'r targedau ar gyfer themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol (Amcanion 7 ac 8), roedd y Rhaglen wedi gwneud cynnydd cymharol dda ar ôl dechrau gwael, diolch i ddatblygu dull dadansoddi seiliedig ar iPad i'w ddefnyddio gan fentrau a gafodd gymorth gan y Rhaglen. Hyd yn oed wedyn, ni chafodd y targedau mwy uchelgeisiol a osodwyd ar gyfer cyfle cyfartal ei gyrraedd, er y cafodd cyfanswm o tua 20%

⁹⁴ Ni chafodd y targed gwreiddiol o 48 a gytunwyd gyda WEFO ei ddiwygio ar i fyny, er y cytunodd Canolfan Cydweithredol Cymru a'r partneriaid cyflenwi yn anffurfiol ar ddechrau Cam 2 i anelu i roi cymorth i 120 menter, yn unol gyda'r targed ar gyfer strategaethau cydraddoldeb.

o'r holl fentrau a gynorthwywyd hefyd eu cefnogi yn nhermau polisïau cydraddoldeb a rheolaeth amgylcheddol.

Ni chafodd y ddu darged arall ar gyfer swyddi newydd gros a mentrau newydd eu cyrraedd, er bod WEFO wedi llacio'r diffiniadau o swyddi newydd crynswth mewn ymateb i'r dirwasgiad economaidd i gynnwys swyddi prosiect.

Mae Tabl 10 (trosodd) yn rhoi mwy o fanylion am ddosbarthiad yr allbynnau ar draws Cymru (gan ddangos y rhaglen Cydgyfeirio a'r ardal tu allan i'r rhaglen honno).

Yn gyffredinol, ac yn wahanol i'r sefyllfa adeg ein Hadroddiad Interim, ymddengys fod dosbarthiad gweithgaredd ar draws yr ardal Cydgyfeirio yn fras yn cynrychioli poblogaeth gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, er:

- Yn nhermau sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, roedd cynrychiolaeth gref iawn o Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot a chynrychiolaeth lai o Ogledd Cymru a Phen-y-bont ar Ogwr;
- Cymharol ychydig o fentrau cymdeithasol oedd a gefnogwyd yn Sir Gaerfyrddin, tra'r oedd (o gymharu â'r boblogaeth) y nifer a gefnogwyd yn Ynys Môn a Sir Benfro yn anghymesur o uchel;
- Roedd y crynhoad uchaf o unigolion a gefnogwyd yn ardal Blaenau'r Cymoedd o Flaenau Gwent a Merthyr Tudful, lle cofnodwyd bod dros 4% o'r boblogaeth yn fuddiolwyr, sy'n ymddangos yn briodol iawn;
- Yng Ngogledd Cymru, cymharol ychydig o unigolion a gefnogwyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych, tra roedd cynrychiolaeth dda yn Ynys Môn a Gwynedd.

Yn gyffredinol roedd y nifer a gefnogwyd tu allan i'r ardal Cydgyfeirio yn llawer llai, gan adlewyrchu'r cyfnod gweithredu byrrach y Rhaglen ac wedyn yr adnoddau mwy cyfyngedig a ddefnyddiwyd.

Tabl 10: Dosbarthiad allbynnau yn ôl Ardal Awdurdod Lleol

Sir	Amcan 1 Sefydliadau a gynorthwywyd	Amcan 2 Sefydliadau a gynorthwywyd	Amcan 9 Sefydliadau a gynorthwywyd
Abertawe	38	40	5650
Blaenau Gwent	14	17	3122
Bro Morgannwg	0	0	5650
Caerdydd	0	0	870
Caerfyrddin	30	20	5374
Caerffili	38	32	5128
Casnewydd	0	0	948
Castell-nedd Port Talbot	45	22	5653
Ceredigion	25	16	2163
Conwy	7	19	1984
Gwynedd	13	24	3897
Merthyr Tudful	17	13	2681
Pen-y-bont ar Ogwr	15	22	3797
Powys	9	12	1386
Rhondda Cynon Taf	35	51	5236
Sir Benfro	70	26	2484
Sir Ddinbych	14	13	2081
Sir Fynwy	0	0	551
Sir y Fflint	11	7	1429
Torfaen	14	23	2354
Wrecsam	10	6	1612
Ynys Môn	13	23	2197
Tu allan i Gymru	0	0	88
Cyfansymiau	418	386	61250

Yn nhermau cyfansoddiad demograffig y boblogaeth fuddiolwyr, dangosodd data monitro:

- Roedd mwyafrif (59% neu 36,094) y buddiolwyr yn fenywod, gyda dim ond 41% yn ddynion;
- O'r rhai a roddodd eu hoedran, roedd mwy na hanner yn 55 oed a throsodd ac ychydig dan ddau ym mhob pump dros 65 (gweler Tabl 11);
- O'r rhai a ddywedodd os oedd ganddynt anabledd ai peidio, dywedodd mwy nag un ym mhob pump fod ganddynt anabledd, yn unol â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, er oherwydd lefel uchel y rhai na ymatebodd, roedd hyn yn gyfran cymharol fach o'r holl boblogaeth o fuddiolwyr (3,399 neu 6%);

Tabl 11: Oedran Buddiolwyr Prosiect Cymunedau 2.0 (hyd at fis Medi 2014)

	Nifer	Cyfran (canran)
11 i 14	211	0%
15 i 24	4,072	7%
25 i 54	17,507	29
55 i 64	7,736	13%
65 +	20,664	34%
Heb nodi	11,060	18%
Cyfanswm	61,250	100⁹⁵

Ffynhonnell: Data Monitro

- Yn nhermau ethnigrwydd, eto dim ond tua chwarter yr holl fuddiolwyr a roddodd ddata ar hyn: dywedodd 658 o fuddiolwyr eu bod yn Ddu neu Leiafrif Ethnig, gan ffurfio 5.0% o'r rhai a ymatebodd (yn unol â phoblogaeth Cymru'n gyffredinol) neu 1.1% o'r holl fuddiolwyr;
- Dywedodd 3,673 o fuddiolwyr eu bod yn siarad Cymraeg, gan ffurfio 21.5% o'r rhai a roddodd wybodaeth am hyn (yn unol â phoblogaeth Cymru gyfan) a 6% o'r holl fuddiolwyr.

O'r dystiolaeth yma, byddai'n ymddangos i'r Rhaglen berfformio'n gymharol dda yn nhermau sicrhau ei bod yn cyrraedd pob rhan o'r boblogaeth, er gyda thueddiad trwm (y mae cyfiawnhad amdano, o gofio am broffil allgáu digidol) tuag at bobl hŷn.

5.3 Perfformiad ariannol

Mae Tabl 12 (islaw) yn dangos perfformiad ariannol o gymharu â'r gyllideb wreiddiol a gytunwyd. Fel y gwelir, yng nghyswllt yr ardal Cydgyfeirio, roedd tanwariant o tua 4% o gymharu â'r gyllideb wreiddiol a gytunwyd yn awgrymu rheolaeth ariannol cymharol dda. Ym maes cystadleurwydd roedd

⁹⁵ Nid yw'r canrannau yn rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu

gwahaniaeth rhwng y tanwariant cymesur rywfaint yn fwy yn Ne Ddwyrain Cymru - yr ardal olaf i ymuno - a'r gorwariant ymylol ym Mhowys a Gogledd Ddwyrain Cymru.

Tabl 12: Gwariant ariannol hyd yma

£

	Cydggyfeirio	Cystadleurwydd (Gogledd Ddwyrain a Phowys)	Cystadleurwydd (De Ddwyrain)	Costau Uned Cynhwysiant Digidol	Cyfanswm
Gwariant	17,940,927	1,005,026	913,714	1,200,000	21,059,667
Cyllideb	18,704,430	1,000,000	1,000,000	1,220,000	21,924,430
Amrywiad	-763,503	+5,026	-86,286	-20,000	-864,763
All-dro fel canran o'r gyllideb	95.9%	100.5%	91.4%	98.3%	96.1%

5.4 Barn rhanddeiliaid

Yn gyffredinol roedd gan randdeiliaid cenedlaethol lefel dda o ymwybyddiaeth o berfformiad y Rhaglen a hefyd roeddent yn gyffredinol gadarnhaol am yr hyn a gyflawnwyd, yn arbennig yn nhermau unigolion. Er y credai ychydig o gyfweleion bod y targed gwreiddiol o 20,000 yn ddi-uchelgais ac er y soniodd rhai hefyd nad oedd y rhifau eu hunain yn rhoi fawr o ymdeimlad o faint (neu ddiffyg hynny) y gefnogaeth (gweler hefyd Adran 7.3), teimlai'r rhan fwyaf fod rheswm da dros fod yn fodlon iawn gyda'r hyn a gyflawnwyd.

Yn yr un modd, credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid fod y Rhaglen wedi gwneud yn dda i gyrraedd y targed ar gyfer sefydliadau a gynorthwywyd, er y teimlai nifer fach nad oedd hyn yn neilltuol o anodd neu'n awgrymu, er yn rhesymol, bod y targed serch hynny wedi amlygu'r ffaith nad oedd y Rhaglen yn gwneud fawr mwy na chrafu'r wyneb, o gofio am faint y trydydd sector yng Nghymru.

Yn nhermau'r targedau hynny nad oedd y Rhaglen wedi'u cyrraedd yn llawn, derbyniwyd yn eang y cafodd unrhyw obaith o gyrraedd y targed ar gyfer y nifer o swyddi a grëwyd ei danseilio gan faint a dyfnder y dirwasgiad oedd wedi taro Cymru a'r Deyrnas Unedig yn fwy cyffredinol (gyda nifer o gyfweleion yn dweud y bu diffygion tebyg mewn prosiectau eraill a ariannwyd gan yr ERDF). Yn nhermau mentrau cymdeithasol a grëwyd, soniodd nifer o gyfweleion fod WEFO hyd yma o leiaf wedi dweud na allai creu menter gael ei gyfrif gan fwy nag un prosiect ERDF a'r hyn a dybiai rhai oedd yn nifer fawr o brosiectau cyffredinol cymorth busnes i fentrau cymdeithasol. Er bod y rhain yn aml yn atgyfeirio cleientiaid at y gefnogaeth fwy arbenigol a gynigiwyd gan Cymunedau 2.0, fel arfer roedd y prosiect a atgyfeiriwyd eisoes wedi hawlio allbynnau perthnasol. Yn fwy penodol, dywedwyd yn ymarferol fod o leiaf 55 o fentrau cymdeithasol newydd wedi cael cymorth Cymunedau 2.0 yn dilyn atgyfeiriadau gan brosiect Cymorth Mentrau Cymdeithasol Canolfan Cydweithredol Cymru ei hun na fedrid ei gyfrif am y rheswm yma.

Dywedwyd bod hyn yn rhannol yn esbonio'r ffaith, er y byddid yn colli'r targed o greu mentrau cymdeithasol, y rhagorwyd yn sylweddol ar y targed ar gyfer

mentrau presennol a gynorthwywyd. Yn y cyd-destun hwn dywedwyd hefyd fod y prosiect wedi gwrthsefyll y temtasiwn i 'redeg ar ôl targedau' drwy gytuno i roi cymorth ariannol i fentrau, heblaw lle'r oedd yn glir y byddai'r cyllid o help wrth sicrhau newid diwylliant yn nhermau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy, gan felly ostwng nifer y mentrau oedd yn cael cymorth ariannol ond cynyddu'r nifer o fentrau a gafodd gefnogaeth.

Yn nhermau themâu trawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal, dywedodd un cyfwelai fod yn rhaid i'r Rhaglen fynd i'r afael gyda hyn ar ôl dechrau araf, pan oedd staff yn ansicr sut i roi'r rhain ar waith yn effeithlon a soniwyd am ddatblygu ap i froceriaid ei ddefnyddio gyda sefydliadau a gefnogwyd oedd yn cynhyrchu adroddiad ar eu polisïau cydraddoldeb ac amgylcheddol, gan ddynodi camau gweithredu a gwelliannau posibl.

6.0 Canlyniadau: Ymwybyddiaeth ac amgyffred

6.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma ystyriwn i ba raddau mae Cymunedau 2.0 wedi ysgogi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen a'r ffordd yr ymgysylltodd gyda rhanddeiliaid allanol.

Canfyddiadau allweddol

Yn gyffredinol, ymddengys y bu'r Rhaglen yn effeithlon iawn wrth godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol ymysg rhanddeiliaid allweddol ac wrth weithio gyda phartneriaid, yn arbennig drwy'r cynlluniau digidol, er bod lefel yr arweiniad a roddwyd gan staff y Rhaglen yn amrywio.

Bu cynyddu ymwybyddiaeth fwy cyffredinol o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol am Cymunedau 2.0 a chynhwysiant digidol yn anos, er yr awgrymodd yr arolwg ar y we fod rhanddeiliaid lleol yn gyffredinol yn gadarnhaol am y dulliau a'r technegau a ddefnyddiai'r Rhaglen.

6.2 Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen

Teimlai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod y rhai'n ymwneud â rheoli a chyflwyno Cymunedau 2.0 wedi gweithio'n galed i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Rhaglen ei hun a chynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol ond teimlai nifer i'r gwaith yma gael ei lesteirio hyd yn ddiweddar iawn gan y ffaith nad oedd yn Rhaglen Cymru-gyfan ac na allai felly gynnal ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau hyd yn oed os byddai adnoddau wedi caniatau hynny.

'Roedd cyflawni'r ehangu hwnnw [i Ddwyrain Cymru] yn hollbwysig nid yn unig i gyflawni angen ond hefyd i roi'r hygyrdd yr oedd y prosiect ei angen ... Roedd yn anodd iawn ei farchnata oherwydd dyma'r peth cyntaf y byddai'r Western Mail a'i debyg yn rhoi sylwadau arno.'

(Rhanddeiliad cenedlaethol)

Nodwyd, fodd bynnag, bod hyn yn cael ei wneud fel rhan o weithgareddau'r flwyddyn derfynol, gyda Gweinidog yn lansio'r ymgyrch genedlaethol ym mis Gorffennaf 2014. Roedd staff Cymunedau 2.0 yn neilltuol yn pwysleisio na fwriedid i'r wefan fod yn ddull sylweddol o ysgogi ymwybyddiaeth ond ei bod yn fwy o fodd o gyfathrebu gyda a darparu adnoddau ar gyfer partneriaid a chanolwyr. Dywedwyd fod y Rhaglen wedi gwneud ymdrechion sylweddol o ran presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, a theimlai staff yn neilltuol y bu hyn yn ddull effeithlon o gyfathrebu.

Ar yr un pryd, soniodd nifer o gyfweleion bod y sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru yn enfawr ac amrywiol ac na fedrid bod wedi disgwyl i'r Rhaglen wneud mwy na chrafu'r wyneb yn nhermau cyrraedd - ac yn sicr gefnogi - sefydliadau trydydd sector.

Adlewyrchwyd hyn yn yr adborth gan sefydliadau a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes. Dywedodd mwyafrif helaeth y sefydliadau hynny a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2013 a 2014 eu bod wedi un ai dod ar draws y Rhaglen ar siawns neu iddynt gael eu cyflwyno iddi drwy gysylltiadau cynharach gydag unigolion neu sefydliadau allweddol (mewn dau achos roeddent wedi eu hatgyfeirio o'r Gronfa Datblygu Economaidd Cymunedol yn Ne Ddwyrain Cymru, tra'i bod yn amlwg fod PAVS a hefyd Menter Môn yn dda am groes-gyfeirio cleientiaid a gafodd gymorth ar faterion eraill yn wreiddiol). Ychydig iawn oedd wedi dod ar draws digwyddiadau, llenyddiaeth hyrwyddo neu weithgareddau penodol Cymunedau 2.0, ac roedd y rhan fwyaf yn anghyfarwydd gyda'r wefan, er y dywedodd un o'r sefydliadau arfer da iddynt ddod i wybod am y Rhaglen drwy dderbyn 'taflen neu neges e-bost' ac roedd un arall wedi dod i wybod am y Rhaglen drwy bapurau newydd lleol.

Teimlai llawer o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld fod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o Cymunedau 2.0 yn y trydydd sector yn parhau'n gyfyngedig - er bod diddordeb ac ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol fel pwnc wedi cynyddu, i raddau helaeth oherwydd dull 'digidol yn ddiofyn' Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer hawlio budd-daliadau. Felly teimlai un cynrychiolydd

menter gymdeithasol fwy (oedd yn werthfawrogol iawn o'r gefnogaeth a gafwyd gan y Rhaglen) mai ychydig o'u cymheiriaid oedd yn gwybod am y cynllun, er y teimlai astudiaeth achos arfer da arall fod gwybodaeth o Cymunedau 2.0 yn ddarniog.

Yn y cyd-destun yma, credai dau sefydliad y gallai'r iaith a ddefnyddiwyd gan y Rhaglen fod yn ddyrys:

'Beth yn union ydi 'Circuit Riders'? Beth mae Cymunedau 2.0 yn ei olygu? Nid yw'r person cyffredin yn deall yr eirfa ac mae hynny'n broblem fawr pan ydych yn ceisio hyrwyddo Rhaglen.'

Adleisiwyd hyn gan nifer fach o randdeiliaid gydag un yn dweud, er enghraifft, bod 'dryswch brand' rhwng Cymunedau 2.0 a'r gwahanol gynlluniau digidol a bod Cymunedau 2.0 yn hunaniaeth llai deniadol na 'Cael RCT Ar-lein' neu 'Cael NPT Ar-lein'.

Ar y llaw arall, rhoddodd yr arolwg ar y wefan dystiolaeth eithaf cryf fod Cymunedau 2.0 yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol, hyd yn oed ar ôl caniatáu am y ffaith fod y 50 o randdeiliaid lleol a ymatebodd yn anghymesur o debyg o fod yn unigolion a oedd eu hunain wedi gweithio'n agos gyda'r Rhaglen.

Credai mwy na thri chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg ar y wefan fod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn debygol o fod wedi clywed am gynhwysiant digidol yn uniongyrchol gan Cymunedau 2.0, cyfran uwch nag unrhyw ffynhonnell arall o wybodaeth⁹⁶ (gweler Tabl 13). Yn ddiddorol, dim ond traean a ddynododd fod Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn ffynhonnell gwybodaeth.

⁹⁶ Gallai ymatebwyr ddewis nifer o ymatebion.

Tabl 13: Sut mae sefydliadau trydydd sector yn clywed am gynhwysiant digidol fel arfer

Ffynhonnell Gwybodaeth	Nifer ymatebwyr
Yn uniongyrchol gan raglen Cymunedau 2.0	38
Gan sefydliadau eraill yn eu sector	32
Gan brosiectau eraill cynhwysiant digidol	24
Gan sefydliadau sector cyhoeddus	23
Ffynonellau cyfryngau (e.e. teledu, papurau newydd)	20
Gan ddefnyddwyr eu gwasanaethau	18
Gan gymdeithasau cysylltiedig â'r sector	18
Gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol	16
Gan eu cyllidwyr	10
Gan gynghorwyr arbenigol/ymgyngorwyr	9
Dim yn gwybod	4
Arall	1

Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (Sylfaen 50)

Yn yr un modd credai mwy na hanner yr ymatebwyr fod sefydliadau sector cyhoeddus fel arfer yn clywed am gynhwysiant digidol gan Cymunedau 2.0, yn ail yn unig i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus⁹⁷ (gweler Tabl 14).

Tabl 14: Sut mae sefydliadau sector cyhoeddus yn clywed am gynhwysiant digidol fel arfer?

Ffynhonnell gwybodaeth	Nifer ymatebwyr
Gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus	34
Yn uniongyrchol gan Raglen Cymunedau 2.0	28
Gan gymdeithasau cysylltiedig â'r sector	24
Gan gynlluniau eraill cynhwysiant digidol (e.e. BT)	22
Ffynonellau cyfryngau (e.e. teledu, papurau newydd)	17
Gan ddefnyddwyr eu gwasanaethau	17
Gan eu cyllidwyr	13
Gan gynghorwyr arbenigol/ymgyngorwyr	9
Dim yn gwybod	6
Arall	1


Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (Sylfaen 50)

⁹⁷ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb.

Roedd ymatebwyr i'r arolwg ar y we yn gyffredinol yn gadarnhaol am y dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd gan Cymunedau 2.0 (gweler Ffigur 1, 2 a 3), ac er bod hyn yn fwy gwir am y wefan a'r astudiaethau achos a gynhyrchwyd gan staff y Rhaglen nag am yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, lle teimlai mwy na thraean yr ymatebwyr na fedrent roi sylwadau (gan awgrymu na wyddent am yr agwedd yma o bresenoldeb y Rhaglen ar y cyfryngau neu nad oedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy cyffredinol) a chredai un ym mhob pump arall nad oedd yr ymgyrch yn effeithlon.


Ffigur 1: Effeithlonrwydd presenoldeb Cymunedau 2.0 ar y we

Nifer



Ffigur 2: Effeithlonrwydd presenoldeb Cymunedau 2.0 ar y cyfryngau cymdeithasol


Nifer



Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (Sylfaen 50)

Ffigur 3: Pa mor ddefnyddiol oedd deunyddiau astudiaeth achos a gynhyrchwyd gan Raglen Cymunedau 2.0

Nifer



Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (Sylfaen 50)


Dywedodd 11 ymatebydd eu bod wedi defnyddio astudiaethau achos unigol o fewn eu sefydliadau eu hunain, er enghraifft fel ffordd o roi tystiolaeth i ddylanwadu ar syniadau cydweithwyr.

6.3 Perthynas gyda, ac amgyffred, rhanddeiliaid allanol

Awgrymodd y rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y we hefyd fod gan Cymunedau 2.0 hanes da o weithio gyda chyrff allanol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Credai bron bawb a ymatebodd y bu Cymunedau 2.0 un ai'n llwyddiannus iawn neu'n weddol llwyddiannus wrth ddefnyddio sefydliadau cyfryngol, megis awdurdodau lleol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol neu glystyrau Cymunedau'n Gyntaf i gyrraedd grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol, er enghraifft (Ffigur 4). Pan ofynnwyd iddynt roi mwy o sylwadau, soniodd pedwar ymatebydd yn neilltuoel am weithio cadarnhaol gyda llyfrgelloedd, tra soniodd wyth am gydweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol, er yn yr achos hwnnw roedd y farn rywfaint yn fwy cymysg, gyda dau'n awgrymu y gellid bod wedi cydweithio'n agosach gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn eu hardal.

Ffigur 4: Llwyddiant Cymunedau 2.0 wrth ddefnyddio sefydliadau cyfryngol i gyrraedd grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol

Nifer



Cafodd barn rhanddeiliaid lleol ei hadleisio gan y cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol oedd â phrofiad o weithio gyda'r Rhaglen. Gyda dim ond un eithriad (cyfwelai a deimlai na fu rheolwyr y rhaglen yn ddigon rhagweithiol wrth geisio llunio polisi), roedd y rhain yn gadarnhaol iawn am y ffordd yr oedd rheolwyr a staff rhaglen Cymunedau 2.0 wedi ceisio gweithio gyda a thrwy eu sefydliadau eu hunain neu rai a gynrychiolent.

'Byddwn yn dweud fod C2.0 yn un o'r goreuon neu efallai'r gorau oll o'r cynlluniau Cymru-gyfan a welais' (Rhanddeiliad cenedlaethol).

Yn neilltuol, soniodd rhanddeiliaid cenedlaethol a chyfweleion o'r astudiaethau achos cynlluniau digidol am frwdfrydedd a dychymyg staff Cymunedau 2.0 wrth geisio cysylltu cynhwysiant digidol ag anghenion eu sefydliadau eu hunain, er enghraifft drwy roi cefnogaeth yn uniongyrchol a hefyd drwy gynlluniau digidol i lyfrgelloedd fel y gallent ymateb yn well i atgyfeiriadau ceiswyr swydd a wnaed iddynt gan Ganolfannau Gwaith (ac felly'n helpu'r Canolfannau Gwaith i gyrraedd targedau a llyfrgelloedd i ymateb i anghenion cymunedau). Soniodd cyfweleion hefyd am hyblygrwydd y Rhaglen wrth ymateb i newid mewn amgylchiadau, er enghraifft, ailgyfeirio cymorth i bobl

anabl i fod â mwy o ffocws ar ddarpariaeth uniongyrchol pan ddaeth yn glir ei bod yn anodd dynodi 'hyrwyddwyr digidol' o fewn sefydliadau anabledd.

Soniodd cyfweleion hefyd am berthynas waith gyffredinol gref gyda chlystyrau newydd Cymunedau yn Gyntaf (er ei bod yn anochel fod y rhain yn amrywio rhwng ardaloedd); mewn ardaloedd dwy astudiaeth achos cynlluniau digidol (C a D), er enghraifft, roedd integreiddiad agos rhwng y clybiau gwaith a gâi eu rhedeg gan glystyrau Cymunedau yn Gyntaf â sesiynau cynhwysiant digidol a gaiff ei rhedeg gan y cynllun digidol dan sylw.

Yn fwy cyffredinol, ystyriwyd yn eang y bu cynlluniau digidol yn seiliedig ar ddod â phartneriaid perthnasol ynghyd i gyflenwi cynhwysiant digidol yn lleol yn llwyddiannus iawn, gyda broceriaid â rôl hollbwysig wrth hwyluso gweithio partneriaeth, yn aml mewn amgylchedd lle'r oedd diffyg ymddiriedaeth neu berthynas waith wael rhwng sefydliadau allweddol.

Ym mhob un o'r pump astudiaeth achos o gynlluniau digidol, roedd gan Cymunedau 2.0 rôl ganolog wrth sefydlu yn ogystal ag ariannu'r cynlluniau ac wrth ddod â phartneriaid perthnasol ynghyd i gydweithio ac yn o leiaf tair ohonynt (A, C, E) staff Cymunedau 2.0 a wnaeth lawer o'r gwaith o baratoi'r cais i'w ystyried gan y Panel. Fel canlyniad credai mwyafrif llethol y partneriaid fod y broses o gael cymeradwyaeth i'r prosiect yn 'gymharol syml' er mewn un achos (B), teimlid fod y Panel wedi cymryd llawer o amser i drin y cais.

Mewn dwy o'r astudiaethau achos cynllun digidol (B, E), ni chredid fod rhai partneriaid oedd yn cymryd rhan ar y dechrau wedi bod yn neilltuol o weithgar (mewn un achos, roedd hyn yn bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf lle'r oedd newidiadau strwythurol wedi effeithio ar gapasiti) ond yn gyffredinol roedd cyfweleion astudiaethau achos yn gryf o'r farn y sicrhawyd y partneriaid cywir. Mewn un achos (E), roedd Cymunedau 2.0 wedi parhau i drefnu cysylltiadau newydd ar ôl i'r cynllun fynd rhagddo ac wedi dod â dau bartner arbenigol gwerthfawr a gyfrannodd yn sylweddol at gyflenwi'r prosiect.

Yn fwy cyffredinol, yn nhermau gweithredu'r cynlluniau digidol, ymddengys fod cryn amrywiaeth ym maint ymgysylltiad staff Cymunedau 2.0. Mewn dau gynllun (C, E), roedd Cymunedau 2.0 wedi gwneud cyfraniad pwysig i reolaeth prosiect yn y camau cynnar - gyda'r brocer yn un (C) yn cael ei ystyried gan lawer o gyfweleion yn rhan o'r tîm - ac roedd hefyd wedi helpu i gyflwyno sesiynau i'r cyhoedd, gyda Cymunedau 2.0 wedi cyflwyno sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' i wirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio mewn un ohonynt (C) a chynlluniau digidol eraill.

Er bod cyfweleion ar draws pob prosiect astudiaeth achos yn gyffredinol gadarnhaol am fewnbwn staff Cymunedau 2.0, roedd maint y brwdfrydedd yma'n amrywio gyda lefel yr ymgysylltiad, a dywedodd un cyfwelai a wyddai am nifer o brosiectau astudiaeth achos fod ansawdd a brwdfrydedd staff mewn gwahanol ardaloedd braidd yn amrywiol.

Felly mewn tair astudiaeth achos (A, C ac E), roedd mewnbwn tîm Cymunedau 2.0 wedi gwneud argraff fawr ar bron bawb a gyfwelwyd, gyda'r argraff gyffredinol fod staff Cymunedau 2.0 yn rhagweithiol, brwdfrydig ac yn cefnogi partneriaid allanol:

'Alla i ddim canmol digon ar y gefnogaeth a gawsom gan [enw'r brocer] yn arbennig a'r Ganolfan Cydweithredol yn gyffredinol' (cyfwelai astudiaeth achos C).

'Allwn i ddim gofyn am ddim byd mwy ganddyn nhw [C2.0]' (cyfwelai astudiaeth achos E)

'Roedd popeth roeddem ei angen yno o'r dechrau cyntaf' [cyfwelai astudiaeth achos A)

Ond mewn ardaloedd eraill roedd y farn rywfaint yn fwy cymysg: felly yn astudiaeth achos D, credai staff prosiect 'na fu llawer iawn o gefnogaeth a bod yn onest' gan staff Cymunedau 2.0, heblaw i gyfarfodydd monitro rheolaidd, gyda'r ffaith y dywedwyd nad oedd neb o dîm Cymunedau 2.0 wedi dod i'r digwyddiad lansio yn ffynhonnell neilltuol o gwynion, er bod staff uwch o fewn

y sefydliad arweiniol a chyfweleion o sefydliadau partner yn fwy cadarnhaol. Yn yr astudiaeth achos olaf (B), ni chredai cyfweleion partner arweiniol fod y brocer wedi rhoi llawer o gefnogaeth iddynt ac roeddent yn weddol feirniadol o (ddiffyg) gallu'r brocer i wneud penderfyniadau, tra soniodd y brocer am y rôl yn bennaf yn nhermau monitro ac adrodd yn hytrach na chefnogi darpariaeth.

Casglodd y gwerthusiad lai o dystiolaeth ar bartneriaeth gyda'r sector preifat, er y dywedodd rhanddeiliaid y bu staff y Rhaglen yn weithgar mewn nifer o gynlluniau, er enghraifft gyda Asda (awgrymwyd y bu hynny'n anodd oherwydd nad oedd rheolwyr lleol o reidrwydd wedi rhoi cymaint o flaenoriaeth i hyn ag a ymrwymwyd gan reolwyr corfforaethol ar lefel y Deyrnas Unedig, gan arwain at ddigwyddiadau gyda nifer fach iawn yn bresennol mewn rhai achosion) ac yn fwy diweddar gyda rhaglenni 'Digital Eagle' Banc Barclays, lle'r oedd Cymunedau 2.0 yn darparu hyfforddiant i staff y banc a gwirfoddolwyr.

7.0 Canlyniadau: Cefnogaeth a bodlonrwydd

7.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma ystyriwn y dystiolaeth o'n harolygon, ein gwaith maes gyda chyrff a gafodd gymorth a rhanddeiliaid a'n hastudiaethau achos cynlluniau digidol i roi gwybodaeth ar natur y gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau a hefyd i unigolion, ac i farn y rhai a gafodd gefnogaeth am ansawdd a phriodolder hynny. Trown yn gyntaf at gefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol.

Canfyddiadau allweddol

Cafodd y gefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol groeso cynnes gan y sefydliadau a'i derbyniodd, a mynegwyd lefelau uchel o fodlonrwydd. Roedd amodau ar hyn mewn rhai achosion gyda barn fod y systemau am wneud cais am 'becynnau cefnogaeth' yn or-feichus a rhwystredigaeth ar ran rhai staff fod yr hyn a ystyrient yn wahaniad mympwyol rhwng mentrau cymdeithasol (oedd yn gymwys am gymorth ariannol) a chyrff gwirfoddol a chymunedol (nad oedd yn gymwys) wedi llesteirio effeithlonrwydd cefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymyriadau gyda sefydliadau yn canolbwyntio ar gefnogaeth weddol swyddogaethol, er yng nghanam 2 roedd llawer mwy o bwyslais ar gymryd barn fwy holistig yn hytrach na dim ond delio gyda'r anghenion a fynegwyd gan y sefydliad. Yn neilltuol, ymddangosai fod pwyslais cryfach yng nghanam 2 ar geisio defnyddio cefnogaeth i sefydliadau fel ffordd o sicrhau cynhwysiant digidol unigolion, er bod hyn yn llai gwir am gefnogaeth i fentrau cymdeithasol, ac roedd yn gyffredinol llai llwyddiannus nag y gobeithid ar ddechrau'r Rhaglen.

Yn nhermau cefnogaeth i unigolion, roedd y dystiolaeth yn sylweddol fwy cadarnhaol. Roedd llawer o'r cynlluniau digidol wedi datblygu ymdeimlad go iawn o fomentwm ac ystyrid bod y math o ddysgu anffurfiol a gynigiwyd wedi llwyddo i gyrraedd ystod eang o unigolion oedd wedi eu hallgáu. Ar yr un pryd, cydnabuwyd y bu'n anos cyrraedd rhai o'r grwpiau targed - yn arbennig yr anabl - nag eraill.

Mae tystiolaeth ein harolwg yn awgrymu'n gryf y cafodd y Rhaglen yn gyffredinol ei thargedu'n briodol yn nhermau buddiolwyr unigol, yn arbennig yng ngham 2, gyda mwyafrif helaeth buddiolwyr yn dweud y bu'r gefnogaeth ar ffurf cyrsiau sylfaenol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ond gydag elfen sylweddol o gefnogaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â mynediad i fudd-daliadau.

7.2 Natur y gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau a boddhad gyda'r gefnogaeth

Drwyddi draw, fel y nodwyd ym Mhennod 1, fe wnaethom siarad yn ystod cyfnod y gwerthusiad gyda thua 49 o sefydliadau a mentrau cymdeithasol a gefnogwyd gan Cymunedau 2.0: roedd 20 ohonynt yn fentrau cymdeithasol a 29 yn sefydliadau gwirfoddol a chymdeithasol. Rhoddwyd adroddiad ar ganfyddiadau ein ton gyntaf o gyfweiliadau gyda 20 o sefydliadau a gyfwelwyd yn 2011 yn ein Gwerthusiad Interim.

Mae'n werth nodi mewn llawer achos y bu'r gefnogaeth a gafwyd gan Cymunedau 2.0 yn gymharol gyfyngedig, ac mae'n debygol fod y dull cymharol gyffyrddiad ysgafn yma i gyfrif am rai anawsterau a gawsom wrth sicrhau cyfweiliadau gyda'r grwpiau y gwnaethom gysylltu â nhw, gyda thua hanner y rhai y gwnaethom ofyn iddynt gymryd rhan yn 2013 a 2014 un ai'n gwrthod neu'n methu ein gweld⁹⁸.

Mae'n debyg fod y gyfradd anarferol o uchel yma o anawsterau (o gymharu â gwerthusiadau eraill yr ydym wedi eu cynnal) yn adlewyrchu nifer o faterion a

⁹⁸ Gweler yr Atodiad Technegol

welwyd hefyd yng ngwaith maes 2011 ac yr adroddwyd arnynt yn ein Gwerthusiad Interim, sef maint bychan a bregusrwydd llawer o'r sefydliadau a gynorthwywyd, y ddibyniaeth ar nifer fechan o staff gwirfoddol neu wirfoddolwyr, a natur cyffyrddiad ysgafn yn aml ymyriad Cymunedau 2.0.

7.2.1 Natur y sefydliadau a gafodd gefnogaeth a'r gefnogaeth a roddwyd

Yn nhermau'r 21 sefydliad y gwnaethom eu cyfweld am y tro cyntaf yn 2013, roedd efallai wahaniad cliriach rhwng y rhai ar y gronfa ddata menter cymdeithasol a'r rhai ar y gronfa ddata wirfoddol/cymunedol nag yn 2011. O'r saith menter gymdeithasol, roedd yn amlwg fod pedair yn elusennau neu gwmnïau dim-er-elw oedd yn sicrhau cyfran sylweddol o'u hincwm o weithgareddau masnachu/masnachol; roedd un yn dibynnu i raddau helaeth ar grant (ac roedd yn yr un 'teulu' o sefydliadau ag un a gafodd gefnogaeth fel grŵp gwirfoddol/cymunedol) ac roedd dau yn fusnesau er-elw. Er ein bod yn cydnabod fod y Rhaglen yn cefnogi mentrau mewn unrhyw ffurf gyfreithiol cyn belled â bod ganddynt ddiben cymdeithasol, ac yn y ddau achos roedd peth budd cymdeithasol ehangach (roedd un mewn ailgylchu ac un mewn ffitrwydd personol), nid oedd y perchnogion yn y naill achos na'r llall yn ystyried eu hunain fel dim heblaw masnachwyr bach 'normal'.

Dim ond un o'r sefydliadau gwirfoddol/cymunedol oedd yn sicrhau incwm sylweddol o fasnachu - cymdeithas tai - ond yn yr achos yma roedd cyfranogiad wedi'i gysylltu'n gadarn gyda chynhwysiant digidol i'w phreswylwyr, yn hytrach na bod yn bennaf gysylltiedig â'i busnes craidd - ac roedd un arall yn ceisio gwneud hynny. Yn yr achos hwnnw, y rheolwr oedd yr unig gyfwelai oedd yn anfodlon iawn gyda'r gefnogaeth a gynigiwyd gan Cymunedau 2.0 gan y dywedwyd wrthynt na allai'r Rhaglen gynnig unrhyw gefnogaeth na chyllid ar gyfer gwella gwefan y sefydliad i'w alluogi i fasnachu ar-lein (er bod y math yma o gefnogaeth ar gael i fentrau cymdeithasol) - efallai'n adlewyrchu'r ffaith fod y grŵp yma wedi ei roi mewn categori amhriodol. Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau gwirfoddol/cymunedol eraill yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr, er bod gan bedwar nifer o staff cyflogedig, i raddau helaeth wedi'u hariannu gan grantiau a dau yn Gynghorau Cymuned.

Yn nhermau'r astudiaethau achos arfer da a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2014, roedd y cyfan heblaw tair yn fentrau cymdeithasol gyda staff cyflogedig, yn gyffredinol gydag incwm sylweddol o fasnachu.

Roedd yn rhesymol glir o'r gwaith maes fod Cymunedau 2.0 wedi gwneud newidiadau i'w ddull o roi cymorth i sefydliadau yn ystod cam 2 y Rhaglen (acers y Gwerthusiad Interim yn 2011), gydag ymyriadau yn gyffredinol yn ymddangos yn llai cul a 'swyddogaethol' nag a welsom yn 2011. Dangosir hyn yn Ffigur 15 islaw sy'n cymharu'r mathau o gefnogaeth a roddwyd i wahanol sefydliadau yng nghohort 2011 (fel y cawsant eu categorio yn yr Adroddiad Interim) yng nghohort 2013 ac yn y sampl arfer da⁹⁹.

Er yn ymarferol mai gydag un mater yn unig y derbyniodd bron hanner (naw) y sefydliadau gefnogaeth yn 2011 (mewn chwe achos, diweddarau gwefannau), dim ond am bedwar yr oedd hyn yn wir yn 2013 ac un mewn wyth yn 2014. Yn gysylltiedig â hyn, roedd yn glir yn y rhan fwyaf o achosion bod y sefydliadau wedi derbyn adolygiad TGCh a diagnostig cymharol lawn (hyd yn oed mewn rhai achosion lle ymddangosai hyn yn ddiangen i'r grŵp ei hunan - e.e. 'doedden ni ddim wirioneddol ei angen oherwydd ein bod newydd sefydlu gydag offer newydd'): cyfeiriodd 15 o'r 29 sefydliad a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2013 a 2014 yn benodol at adolygiad o'r fath a chanfu llawer eu bod yn werthfawr - hyd yn oed lle nad oeddent wedi gweithredu'r argymhellion yn llawn.

Hyd yn oed wedyn roedd help gyda materion ymarferol megis sefydlu gwefannau newydd neu ddiweddarau gwefannau a/neu bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a datrys problemau gydag offer TGCh yn parhau i fod y prif fath o gefnogaeth y gofynnwyd amdani ac a roddwyd yn achos sefydliadau o fewn y sampl ar hap yn 2013, lle mewn sefydliadau arfer da (a oedd, wrth gwrs, yn tueddu'n llawer mwy tuag at fentrau cymdeithasol), cyngor ar brynu caledwedd a meddalwedd newydd oedd y brif thema.

⁹⁹ Dylid pwysleisio ei bod yn anochel mai dim ond bras yw'r categorioedd.

Tabl 15: Mathau o gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau

Math o gefnogaeth	2011 (20 i gyd)		2013 (21 i gyd)		2014 (8 i gyd ¹⁰⁰)	
	Nifer sefydliadau a gafodd gefnogaeth	Nifer sefydliadau a gafodd un math yn unig o gefnogaeth	Nifer sefydliadau a gafodd gefnogaeth	Nifer sefydliadau a gafodd un math yn unig o gefnogaeth	Nifer sefydliadau a gafodd gefnogaeth	Nifer sefydliadau a gafodd un math yn unig o gefnogaeth
Datblygu gwefan a hyfforddiant cysylltiedig	9	6	11	3	3	-
Datrys problemau cyfrifiaduron personol/gliniaduron/rhwydweithiau neu rwydweithio cyfrifiaduron	7	1	6	-	1	-
Pecynnau cyllid	7	-	6	-	1	-
Sesiynau hyfforddi neu flasu gyda'r cyhoedd	5	-	2	-	-	-
Sesiynau hyfforddi neu flasu gydag aelodau neu gleientiaid	4	-	5	-	1	-
Hyfforddi staff allweddol	2	1	4	-	5	-
Cyngor ar brynu offer TGCh	2	-	4	-	8	1
Hyfforddiant straeon digidol	2	1	3	-	1	-
Cyllid ar gyfer gweithwyr cynhwysiant digidol/cynlluniau digidol	2	-	4	-	-	-
Datblygu gwirfoddolwyr i hyrwyddo cynhwysiant digidol	2	-	1	-	-	-
Sesiynau hyfforddi neu flasu gyda gwirfoddolwyr	1	-	D/G	-	1	-
Datblygu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol	1	-	4	1	1	-
EPOS a thiliau electronig	1	-	D/G	-	-	-
Recriwtio staff TG	D/G	-	1	-	-	-
Rheoli gwybodaeth - diogelwch	D/G	-	1	-	1	-
Cyflwyniad i ddulliau eraill o gymorth	-	-	-	-	3	-
Ni roddwyd cefnogaeth bendant hyd yma - yn cael ei ddatblygu	3	-	1	-	-	-

Ffynhonnell: Cyfweiliadau gyda sefydliadau a gafodd gymorth yn 2011, 2013 a 2014

¹⁰⁰ Rydym wedi eithrio yma yr un sefydliad arfer da a gyfwelwyd yn wreiddiol fel rhan o'r sampl ar hap a luniwyd yn 2013

Roedd yn drawiadol, hyd yn oed mewn sefydliadau arfer da, fod yr ymyriadau yn aml yn rhai eithaf cyffyrddiad ysgafn ac weithiau heb ganlyniad pendant:

- Mewn un sefydliad, roedd ymgyfraniad Cymunedau 2.0 wedi cynnwys un cyfarfod, lle rhoddwyd cyngor defnyddiol am wefannau a chyfryngau cymdeithasol ac y credai'r cyfwelai mai dyna 'yn union beth oeddem ei eisiau';
- Mewn sefydliad arall, roedd y cymorth wedi cynnwys cynghori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ar brynu dyfais llechen a rhoi hyfforddiant i'r ysgrifennydd a'u partner ar sut i'w defnyddio;
- Mewn trydydd sefydliad, er y cynhaliwyd adolygiad trwyadl o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu oedd wedi cynnwys llawer o syniadau defnyddiol, credid bod rhai o'r awgrymiadau yn afrealistig yn nhermau'r gyllideb oedd ar gael, tra (er gwaith i ddatblygu cais am becyn cyllid) roedd cynnydd wedi aros yn ei unfan mewn cyfnod mamolaeth: 'Fe fyddwn wedi hoffi iddyn nhw fod wedi bod mewn mwy o gysylltiad gyda staff ar sut rydyn ni'n datblygu';
- Yn yr un modd, mewn pedwerydd, er i'r sefydliad gael y cyngor yn yr adolygiad TGCh yn ddiddorol iawn, credid na fedrid fforddio llawer o'r opsiynau ac yn ymarferol ychydig o'r argymhellion a ddatblygwyd ymhellach ('nid oes dim wedi dod ohono mewn gwirionedd');
- Mewn pumed, roedd y sefydliad wedi cael dau ymweliad a manyleb templed gwerthfawr iawn i gomisiynu cynllun gwefan newydd, ond roedd wedi penderfynu peidio symud ymlaen â'r opsiwn ar gyfer pecyn cyllid oherwydd ystyriwyd y byddai'n golygu gormod o waith.

Yn gyson gyda'r canfyddiadau yn 2011, soniodd y sefydliadau a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2013, yn ogystal â'r sefydliadau arfer da, fod cryn dipyn o ychwanegedd yn nhermau'r gefnogaeth a roddwyd, gan y credai tua chwech (o gyfanswm o 29) y byddent wedi ei chael yn anodd ariannu neu wneud y gwaith o gwbl, tra mai dim ond rhan ohono y byddai 16 arall wedi medru ei wneud, oni bai am y mewnbynnau (un ai drwy becynnau cyllid neu drwy'r staff eu hunain) gan Cymunedau 2.0. Mewn pedwar achos, fodd bynnag, ni fu

unrhyw newidiadau fel canlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen, roedd un cyfwelai yn ansicr beth fyddai wedi digwydd a chredai dau sefydliad y byddai wedi talu am yr un gefnogaeth ond y byddai'r ansawdd wedi bod yr un fath neu'n waeth.

Soniodd cyfweleion o leiaf chwech o sefydliadau 2013 a thri o'r sefydliadau arfer da hefyd yn benodol y bu ffocws cryfach gan Cymunedau 2.0 na gan ddarparwyr masnachol ar feithrin gallu fel y gallai'r sefydliadau eu hunain gynnal a diweddarau systemau (yn neilltuol wefannau), heb gael costau ychwanegol neu barhaus - er mewn rhai achosion, teimlai cyfweleion yn ymarferol ei bod neu y gallai fod yn anodd cynnal y sgiliau a'r hyder a gafwyd. Felly dywedodd un grŵp eu bod wedi cael rhai trafodaethau gydag ymgynghorwyr sector preifat am wefan cyn dod i gysylltiad â'r Rhaglen, ond nad oeddent wedi ystyried cyn hynny y medrent lunio a chynnal eu gwefan eu hunain gyda chymorth hyfforddiant - 'ni sy'n ei rheoli'n awr, gallwn ei newid fel y dymunwn' - tra dywedodd cyfwelai o fenter gymdeithasol:

'Pan ydych chi'n talu i gwmni preifat, rydych chi bob amser yn teimlo eu bod yn eich arwain ar lwybr sy'n gweddu iddyn nhw ac nid i chi. Chi'n gwybod, mae ganddyn nhw ddeliau gyda chwmnïau eraill i ddefnyddio eu cynnyrch. Yn y gorffennol rydym wedi teimlo ein bod wedi talu drwy'n trwynau oherwydd hynny. Ond gyda Cymunedau 2.0, dydych chi ddim yn cael hynny oherwydd eu bod nhw'n cynnig cyngor annibynnol. Felly fe wnaeth hynny roi llawer o hyder i ni.'

Roedd grwpiau eraill wedi gwerthfawrogi annibyniaeth y cyngor gan Cymunedau 2.0 fel ffordd o wirio'r hyn y gallai contractwyr sector preifat ei gynnig iddynt. Felly, dywedodd contractwr wrth un o'r sefydliadau arfer da fod y fanyleb ar gyfer y serfiwr newydd yn uwch nag oeddent ei angen ond pan aethant yn ôl at y brocer i wirio hyn, roedd wedi'u hatgoffa y cynlluniwyd y serfiwr newydd i ddiwallu eu hanghenion hirdymor yn cynnwys nifer sylweddol uwch o aelodau ac amcanion mynediad ar-lein a'i fod felly'n briodol. Dywedodd y cyfwelai fod y cyngor yma wedi rhoi'r hyder iddi fynd yn ôl at y contractwr a dweud 'daliwch ati gyda'r fanyleb a nodwyd', gan gyfaddef na fyddai wedi gallu gwneud hynny heb gyngor a chefnogaeth Cymunedau 2.0.

Hyd yn oed wedyn, roedd peth awgrym o ddadleoli darparwyr sector preifat: yn neilltuol, roedd un o'r mentrau cymdeithasol mwy wedi gadael contract hirsefydlog gydag ymgynghoriaeth TG preifat ar ôl recriwtio aelod o staff gyda chefnogaeth y Rhaglen, a dywedodd o leiaf un o'r sefydliadau arfer da hefyd y byddent wedi gorfod sicrhau cymorth o'r sector preifat onibai am fodolaeth y Rhaglen:

'Roedd angen gwefan well - roedd angen iddi fod yn haws ei defnyddio o'n safbwynt ni (rheoli data) ac i ddefnyddwyr allanol yn edrych ar y wefan.'

7.2.2 Cymorth i sefydliadau a chynhwysiant digidol

Yn nhermau'r prif reswm arall am gefnogi sefydliadau gwirfoddol a chymuneddol, ac i raddfa lai, mentrau cymdeithasol - hynny yw, eu defnyddio fel ffordd o gael mynediad i bobl oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol - awgrymodd ton gyntaf ein cyfweiliadau gyda'r cohort cyntaf o sefydliadau yn 2011 mai ychydig iawn o rôl fu gan hyn yn nhermau cynhwysiant digidol ehangach, a chadarnhawyd hyn yn ail don ein cyfweiliadau yn 2013 (gyda 17 o'r sefydliadau).

Yn y ddau achos lle'r oedd y sefydliadau a gyfwelwyd gyntaf yn 2011 yn cyflwyno cynlluniau digidol (h.y. lle'r oedd ffocws diben y cymorth ar ddarparu sgiliau a hyder yn defnyddio TGCh), roedd yn glir y bu'r prosiectau y gwnaethom ymweld â nhw yn llwyddiannus wrth gyflawni eu targedau gan fwyaf (ym mhob achos yn cefnogi mwy na 300 o fuddiolwyr) ac yn y ddau achos, roedd eu gwaith wedi datblygu'n gymharol llyfn i fod yn gynlluniau digidol newydd sir-gyfan oedd yn adeiladu ar y cysylltiadau a'r arfer da a ddatblygwyd yn y cam cynharach.

Yn ychwanegol, roedd un corff a dderbyniodd becyn cefnogaeth rhwng ein hymweliad cyntaf a'n hail ymweliad, wedi derbyn llinyn o weithgareddau cynhwysiant digidol ac yn y sefydliad hwn, roedd gwirfoddolwyr wedi cyflwyno

sesiynau hyfforddiant i tua 80 o fuddiolwyr heb unrhyw brofiad blaenorol o dechnoleg gwybodaeth.

Fodd bynnag, mewn mannau eraill, ychydig o dystiolaeth oedd y defnyddiwyd sefydliadau fel dull o gael mynediad i fuddiolwyr newydd posibl. Mewn un achos, gyda sylfaen mawr o wirfoddolwyr oedrannus yn bennaf, lle bu cynlluniau ar y gweill yn 2011 i gynnal cyfres o sesiynau blasu, roedd y rhain wedi dechrau ond daethant i ben yn gyflym oherwydd diffyg galw, er bod y rheolwr yn fawr ei glod am y ffordd yr oedd Cymunedau 2.0 wedi strwythuro'r sesiwn:

'Aeth un neu ddwy o'r sesiynau yn eu blaen ... daeth tua pump neu chwech o wirfoddolwyr i'r sesiwn cyntaf ... gwnaeth hyfforddydd Cymunedau 2.0 hi'n sesiwn wirioneddol hwyliog ond fe gawson ni drafferth yn llenwi'r sesiynau felly fe wnaethon ni benderfynu rhoi'r gorau iddi. Ers hynny, dydyn ni ddim mewn gwirionedd wedi symud ymlaen gydag unrhyw beth i'w wneud â chynhwysiant digidol - er ei fod yn rhan o'r brîff.'

Mewn sefydliad arall, trefnwyd hyfforddiant TGCh sylfaenol ar gyfer aelodau grŵp ond dim ond tri o bobl oedd wedi cymryd rhan. Mewn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol eraill, gydag un neu ddau aelod allweddol o staff y bu'r unig gyswllt ers y cyfweiliad yn 2011.

Yn ymarferol felly, byddai'n ymddangos ar gyfer y rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn o leiaf mai ychydig o 'ddilyn lan' fu o'r cymorth i ddiwallu anghenion trefniadol y grŵp ei hunan i'r agenda cynhwysiant digidol - er y rhoddwyd cynnig ar hyn.

Ar y llaw arall, roedd yn amlwg ffocws cryfach yng nghohort 2013 nag yn 2011 ar ddefnyddio'r gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol fel ffordd o ddatblygu gweithgareddau cynhwysiant digidol newydd oedd wedi eu targedu at unigolion - p'un ai'n staff, gwirfoddolwyr, cleientiaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol - oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol. Drwyddi draw, roedd ymgyfraniad Cymunedau 2.0 wedi arwain at weithgareddau cynhwysiant

digidol yn targedu rhai heb fawr neu ddim profiad o TG mewn tua deg o'r 14 grŵp gwirfoddol/cymunedol yn sampl 2013. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at ymgysylltu gyda nifer sylweddol o bobl er enghraifft:

- Cafodd un sefydliad gwirfoddol gymorth i sicrhau cyllid y Loteri am brosiect cynhwysiant digidol oedd wedi rhagori ar ei dargedau;
- Roedd cymdeithas tai wedi cyflwyno prosiect 'cynllun digidol' llwyddiannus iawn, yn targedu preswylwyr hŷn ar un o'i stadau mawr, oedd wedi ei ddatblygu ymhellach gan gynllun ar draws y sir a gefnogwyd gan Cymunedau 2.0;
- Roedd trydydd sefydliad wedi ymwneud â chyflwyno dau 'glwb cyfrifiadur' ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr, lle gallai pobl hŷn a rhai di-waith ddod draw i ddysgu sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol iawn a gynlluniwyd i'w galluogi i wirfoddoli a chwblhau tasgau sylfaenol e.e. siopa ar-lein neu anfon negeseuon e-bost;
- Roedd pedwerydd sefydliad wedi gweld rhwng 20 a 30 o staff a gwirfoddolwyr allweddol gyda sgiliau cymysg iawn mewn TGCh yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a gyflwynwyd fel rhan o'r Rhaglen ac roedd Cymunedau 2.0 hefyd wedi rhoi sesiynau blasu mewn diwrnod hyfforddiant a fynychwyd gan fwy na 70 unigolyn: credai'r sefydliad ei fod wedi cysylltu tua 150 o unigolion yn hyn i gyd.

Fodd bynnag, awgrymodd ail gylch y cyfweiliadau gyda'r sefydliadau hyn mai dim ond mewn ychydig o'r sefydliadau hyn y cafodd gweithgareddau cynhwysiant digidol eu cynnal dros gyfnod.

Ymhellach, roedd yr ymgais i 'ddarllen ar draws' o gefnogaeth drefniadol i weithgareddau cynhwysiant digidol yn llai gwir (yn ddealladwy efallai) am y mentrau cymdeithasol yn sampl 2013, lle (gydag un eithriad), roedd y gefnogaeth wedi ei chanolbwyntio'n llwyr ar ddatrys problemau a darparu offer, adnoddau neu hyfforddiant yn gysylltiedig â gweithgareddau craidd y sefydliad - er mewn dau achos, lle gweithiai'r sefydliadau gyda nifer sylweddol o bobl y credid fod ganddynt sgiliau TGCh isel, gallai cyfle fod wedi bod i

ddefnyddio'r gefnogaeth i ysgogi gweithgareddau cynhwysiant digidol ehangach.

Yn ddiddorol, nid oedd dim o'r wyth astudiaeth achos ychwanegol o arfer da yn ymwneud â datblygu strategaethau 'cynhwysiant digidol' fel hyn, ac mae'n debyg bod hyn yn dangos lle amlwg mentrau cymdeithasol yn y sampl yma. Fodd bynnag, yn un o'r achosion hyn - cymdeithas preswylwyr mewn safle tai gwarchod - roedd ffocws yr ymyriad ar alluogi preswylwyr i ddefnyddio offer TGCh a gyfrannwyd ac i gael mynediad i'r rhyngrwyd drwy gymysgedd o gefnogaeth dechnegol a gweithgareddau hyfforddi (gan ddefnyddio tîm ardal Cymunedau 2.0 a rhai o'r cynlluniau digidol). Mewn achos arall, dywedodd ymddiriedolaeth gyda nifer fawr o aelodau fod ei defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn arwain at i'w aelodau fod yn ymwneud mwy â TGCh, ac mewn dau sefydliad arall, roedd gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant wrth ddefnyddio'r caledwedd a meddalwedd newydd a sicrhawyd gyda chefnogaeth neu anogaeth y Rhaglen.

7.2.3 Bodlonrwydd gyda chefnogaeth i sefydliadau

Yn nhermau'r gwasanaeth a roddwyd, dangosodd ein gwaith maes yn 2013 a 2014 dystiolaeth gref iawn o'r farn uchel iawn am y gefnogaeth a roddwyd gan Cymunedau 2.0, gyda phob un heblaw o'r 29 sefydliad a gyfwelwyd am y tro cyntaf o'r farn fod y gefnogaeth yn ardderchog neu'n dda iawn.

Yn ddiddorol, roedd hyn yn cynnwys nifer o fentrau cymdeithasol oedd yn y pen draw wedi penderfynu peidio symud ymlaen gydag argymhellion yr Adolygiad TGCh, gan gredu eu bod yn 'llawer rhy uchelgeisiol' a (hyd yn oed gyda phecyn cyllid) yn anfforddiadwy. Roedd y canlynol yn sylwadau nodweddiadol yma:

(gan grŵp a gafodd help i gael fynediad i gyllid i redeg cynllun cynhwysiant digidol) 'Fe wnaethon nhw arwain wrth baratoi'r cais ac yn gyffredinol byddwn yn dweud mai'r hyn oedd yn sefyll allan oedd iddynt

fynd ati o ddifrif, yn arbennig gyda phethau fel hwyluso cyfarfodydd partneriaeth, gan roi adborth.'

(am adolygiad TGCh) 'Roedd yr adroddiad yn ardderchog. Roedd y cyngor a gawsom, yr argymhellion yn yr adroddiad yn rhagorol, yn union yr hyn roeddem yn edrych amdano.'

(am wneud cais am gyllid drwy'r Rhaglen) 'Roedd mor rhwydd, mor syml', a 'roedd ein profiad yn hwylus iawn'.

(am gefnogaeth barhaus) 'Gallwch anfon neges destun, e-bostio neu ei ffonio [y brocer] unrhyw amser ... heb ei help, wn i ddim beth fyddwn i wedi wneud.'

(am wneud cais am becyn cefnogaeth) 'Roeddem yn fodlon iawn ac roedd yn broses rwydd.'

(yn gyffredinol) 'Rydym yn fodlon ac yn ddiolchgar fod y gefnogaeth ar gael.'

Canmolodd cyfwelai arall staff Cymunedau 2.0 am ddarparu hyfforddiant ar y lefel gywir ar gyfer pob unigolyn mewn grŵp hyd yn oed pan oedd gan bobl o fewn y grŵp wahanol alluoedd.

Dim ond un sefydliad oedd yn anfodlon iawn: fel y nodwyd uchod, yn yr achos hwn, yn ôl sefydliad gwirfoddol bach a dderbyniodd gyllid Datblygu Menter Gymunedol am flwyddyn i'w alluogi i ddatblygu ei wasanaethau masnachu, dywedwyd wrtho na fedrid rhoi unrhyw gefnogaeth iddynt i wella eu gwefan i alluogi e-fasnachu. Er yn gyffredinol fodlon, roedd gan nifer o sefydliadau eraill rai amheuon:

- roedd y ffaith iddynt gael cyngor anghywir ar atebolrwydd TAW yn poeni un;

- dywedodd un arall fod y ffaith fod y wefan a gafodd y sefydliad drwy'r rhaglen yn defnyddio llwyfan Joomla yn hytrach na WordPress, a bod hynny wedi ei wneud yn llai hyblyg;
- dywedodd pedwar (dau ohonynt yn sefydliadau arfer da) y bu oedi wrth dderbyn cefnogaeth;
- teimlai dau fod y gwaith papur yn gysylltiedig gyda'r pecyn cefnogaeth yn ormodol a phenderfynodd un arall beidio symud ymlaen gan yr ystyrient fod gormod o faich gweinyddol: 'Daeth yn amlwg yn fuan y byddem yn edrych ar wefan na fyddai'n costio mwy na £7,000 ac felly, ar y mwyaf, efallai y byddem wedi cael grant o £3,500 - byddai nifer tebyg o gyfarfodydd am grant llawer mwy ... Byddai'r budd net wedi bod tua £300.'

Wrth droi at ganfyddiadau'r cyfweiliadau dilynol, gyda 33 o'r sefydliadau, a gynhaliwyd tua 18 mis ar ôl ton gyntaf y cyfweiliadau, awgrymodd y rhain mai yn anaml y cynhelid yr ymgysylltu o Cymunedau 2.0.

Yn nhermau cyswllt neu gefnogaeth barhaus gan y Rhaglen, nid oedd dros hanner (18) wedi cael dim neu fawr iawn o gyswllt gyda'r Rhaglen dros y cyfnod cydrhwng, er bod llawer yn dal i fod yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gawsant ar y pryd¹⁰¹. Fodd bynnag, teimlai rhai y gallai cyswllt parhaus fod wedi bod yn werthfawr gydag un, menter gymdeithasol, yn dweud 'mae'n edrych fel ein bod wedi colli cysylltiad' ac y byddai wedi bod yn dda 'os byddai yno am ychydig yn fwy ... galwad bob tua chwe mis' ac un arall, a gafodd gefnogaeth i sefydlu caffe rhyngrwyd mewn safle cymunedol, a bryderai nad oedd cefnogaeth barhaus gan y Rhaglen ar sut i ddarparu prosiect tra'n defnyddio'r offer newydd.

Mewn pump, roedd gweithgareddau'n mynd rhagddynt pan wnaethom gynnal y gwaith maes blaenorol bellach wedi eu cwblhau neu eu datblygu ymhellach (yn achos un fenter gymdeithasol ac un corff gwirfoddol, drwy wneud cais am

¹⁰¹ Dywedodd staff y Rhaglen er mai'r bwriad oedd cadw mewn cysylltiad gyda'r sefydliadau a gafodd gymorth, roedd y nifer uchel o gyrff a gafodd gymorth uniongyrchol (cyfanswm o 1,558) yn golygu y penderfynwyd mai dim ond lle'r oedd y sefydliad ei hun yn gofyn am gymorth y penderfynwyd rhoi cymorth parhaus, er i'r rhai a dderbyniodd gymorth ariannol gael eu cynorthwyo drwy gydol y cyfnod y tynnwyd cyllid i lawr.

a chyrchu pecynnau cefnogaeth) ac mewn dau ohonynt bu hefyd beth cefnogaeth barhaus. Mewn tri achos arall, lle'r oedd y sefydliadau gwreiddiol un ai wedi dod neu wedi ei olynu gan gynlluniau cynhwysiant digidol sir-gyfan, bu llawer o gyswllt gyda Cymunedau 2.0, oedd wedi helpu i hybu'r rhain, tra yn yr achosion eraill roedd y cysylltiad parhaus yn gyfyngedig. Yn ddiddorol, yn yr un sefydliad a gyfwelwyd i ddechrau yn 2013 a fu'n feirniadol iawn o'r Rhaglen, roedd unigolyn arall wedi cymryd rhan fel gwirfoddolydd ac wedi dod yn gyfrifol am wefan y sefydliad, ac wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol y Rhaglen a groesewid yn fawr.

Ar gyfer y rhai lle bu'r cyswllt ers yr ymyriad dechreuol yn gyfyngedig iawn, mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd y teimlent nad oedd ganddynt angen mwy o gefnogaeth, un ai oherwydd bod ganddynt bellach fynediad i ffynonellau eraill o arbenigedd (er enghraifft, cynllun cymunedol oedd nawr â chysylltiadau gyda choleg Addysg Bellach oedd nid yn unig yn cynnal dosbarthiadau yn ei ganolfan ond hefyd yn cynnal a chadw'r offer, cwmni hyfforddiant elusennol oedd bellach wedi arallgyfeirio i ddarparu hyfforddiant TGCh ac oedd â chapasiti mewnol ei hunan i ddatrys materion a chymdeithas tai oedd yn awr yn cynnal ei gweithgareddau cynhwysiant digidol ei hunan, gyda chefnogaeth cynllun digidol drwy'r sir) neu, yn fwy cyffredin, oherwydd bod materion TGCh ar hyn o bryd yn flaenoriaeth is oherwydd i'r sefydliad gael yr hyn roedd ei angen (yn fwyaf aml, yn wefan) fel canlyniad cyswllt cynharach. Felly, mewn un sefydliad cymunedol, a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr, roedd y Rhaglen wedi creu gwefan sylfaenol a ddiweddarwyd (er yn anaml) gan y Cadeirydd ac a ystyrid fel ffordd o gyfathrebu gyda grŵp ehangach na'r aelodau rheolaidd.

Yn gyffredinol, hyd yn oed lle na fu dim neu fawr iawn o gyswllt, roedd y darlun o fodlonrwydd cyffredinol (ond nid gan bawb) gyda'r Rhaglen wedi'i wneud i helpu'r sefydliadau hyn yn parhau adeg yr ail gyfweliad.

Ymhellach, roedd y sefydliadau hynny a gafodd gefnogaeth barhaus yn gyffredinol yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Er enghraifft, pwysleisiodd un grŵp cymunedol fod y gefnogaeth wrth drefnu trafodaethau gyda'r dylunydd gwefan

a gynigiodd ddiweddarau'r wefan fel gwirfoddolydd ond nad 'oeddent yn gwybod dim amdano' yn hollbwysig wrth sicrhau canlyniad llwyddiannus. Yn yr un modd, roedd grŵp a gafodd broblem gyda diweddarau gwefan a ddyluniwyd yn wreiddiol gyda chefnogaeth y Rhaglen yn uchel ei chlod am y ffordd y daeth Cymunedau 2.0 i'w hachub, yn ogystal â dweud bod serfiwr oedd yn rhan bwysig o'r pecyn cefnogaeth a ddatblygwyd ar ôl gwneud gwaith maes 2011 wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r corff:

'Mae gennym fwy o sicrwydd, rydym yn fwy trefnus ac yn gyffredinol ar sail gryfach'.

7.2.4 Barn rhanddeiliaid am y gefnogaeth i sefydliadau

Gan droi at ganfyddiadau rhanddeiliaid am y gefnogaeth a ddarparwyd i sefydliadau, tueddai rhanddeiliaid cenedlaethol i ddweud fod yr adborth gan y sefydliadau trydydd sector eu hunain bron i gyd yn gadarnhaol.

Tueddai staff a rhanddeiliaid o fewn Cymunedau 2.0 i danlinellu y bu llawer mwy o bwyslais yn ystod Cam 2 ar ddiwallu anghenion a fynegwyd gan sefydliadau a gafodd gefnogaeth (a oedd yn aml yn rhai tymor byr ac yn cyfeirio at bethau penodol oedd angen eu hunioni) a hefyd ar ddynodi anghenion tymor hwy yn nhermau TGCh ac opsiynau i'w diwallu drwy'r adolygiad TGCh; b) hwyluso datblygu sgiliau i drin TGCh o fewn sefydliadau a gafodd gefnogaeth a c) lle'n bosibl ddynodi ffyrdd y gallai'r sefydliad gyfrannu at weithgareddau cynhwysiant digidol ehangach. Yn wir, awgrymodd rhai cyfweleion fod staff Cymunedau 2.0 yn aml yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle'r oedd ganddynt olwg gliriach o anghenion sefydliad na rheolwyr y sefydliad ei hunan.

Ar yr un pryd, bu mwy o ffocws ar hyfforddiant (gyda'r pwyslais gwreiddiol ar fynediad i adnoddau ar-lein wedi ei ddisodli gan hyfforddiant preswyl mwy ffurfiol) sicrwydd ansawdd ac adolygiad cymheiriaid o waith Circuit Riders ar Adolygiadau TGCh:

'Cyn hynny y demtasiwn bob amser oedd gwneud awgrymiadau yn seiliedig ar eich cryfderau a diddordebau personol eich hun. Nawr

rydych yn edrych ar y broblem o safbwynt cyffredinol y sefydliad, beth sydd er y budd gorau iddynt. Fel arfer mae hynny'n golygu cynnig mwy o syniadau ac opsiynau hyd yn oed os yw'n rhaid i chi fynd yn ôl at y Circuit Riders eraill i gael mwy o wybodaeth neu gael eu barn ar opsiwn'. (Cyfrannydd grŵp ffocws staff)

Ymddengys y caiff hyn ei gadarnhau gan y ffocws llawer cryfach ar yr Adolygiad TGCh mewn sefydliadau a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn ystod yr ail gam (gweler uchod) a hefyd efallai'r ffaith nad oedd cryn nifer o'r sefydliadau astudiaethau achos wedi gweithredu'r argymhellion o'r Adolygiad yn llawn.

Soniodd staff a rhai rhanddeiliaid eraill am rwystredigaeth am yr hyn a ystyrir yn aml yn wahaniaeth mympwyol yng Nghynllun Busnes y Rhaglen (ac a briodolwyd i Lywodraeth Cymru a WEFO) rhwng sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (oedd â hawl i gefnogaeth gan y prosiect, yn cynnwys drwy'r Adolygiad TGCh) â mentrau cymdeithasol (oedd yn gymwys am gymorth ariannol drwy becynnau cefnogaeth). Ar ei waethaf, gallai hyn arwain at gymell sefydliadau i'w cyflwyno eu hunain fel mentrau cymdeithasol er mwyn derbyn gymorth ariannol, er nad oedd hyn yn gydnaws â'u nodau a gwerthoedd sylfaenol. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd fod hyn wedi arwain at rwystredigaeth ar ran rhai sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a gafodd gyngor ond nad oedd o'r modd i'w roi ar waith. Tueddai'r rhanddeiliaid hyn i ddadlau mai dim ond ateb rhannol a dros dro ar y mwyaf a roddodd Cymunedau 2.0 i'r problemau a wynebair trydydd sector - lle'r oedd nifer fawr o sefydliadau, er enghraifft, yn defnyddio cyfrifiaduron personol gyda XP fel system weithredu er nad oedd Microsoft bellach yn cefnogi hyn - yn hytrach na sicrhau unrhyw fath o newid sylfaenol.

Roedd staff ac i ryw raddau rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd yn tueddu i fod yn fwy beirniadol na sefydliadau a gafodd help eu hunain am y prosesau o amgylch 'pecynnau cefnogaeth' (er, fel y gwelsom, nid oedd rhai sefydliadau oedd yn gymwys wedi manteisio ar y cynnig). Dywedodd staff yn y grwpiau ffocws fod llawer o sefydliadau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda cheisiadau am becynnau cefnogaeth, hyd yn oed ar ôl gwneud gwaith

sylweddol arnynt, a dweud fod faint o waith oedd ei angen i lenwi ceisiadau yn anghymesur i'r budd ariannol - yn arbennig gan y dywedwyd yn aml fod ffynonellau cyffredinol eraill o gyllid grant a allai gynnwys offer, gyda phrosesau llawer llai beichus.

'Rwyf wedi treulio fwy neu lai ddau fis yn gweithio'n ddi-baid gydag un grŵp dim ond i gael grant o £1,800' (Cyfrannydd i grŵp ffocws staff)

'Bu'n eithaf anodd rhoi arian, rydym wedi gorfod gwneud llawer o waith arno' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Ar y sail hon, awgrymodd nifer fach o randdeiliaid y byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i integreiddio cefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu TGCh ar gyfer mentrau cymdeithasol gyda chynlluniau cymorth busnes wedi'u targedu un ai at fentrau cymdeithasol neu fentrau micro, er yr awgrymodd eraill fod Cymunedau 2.0 wedi gosod enghraifft drwy roi prosesau trwyadl ar waith o ran asesu cynlluniau busnesau sefydliadau a gafodd gefnogaeth.

Roedd staff a rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd yn gyffredinol yn weddol amheus i ba raddau yr oedd gwaith gyda sefydliadau wedi galluogi'r Rhaglen i fobileiddio'r sector i weithredu fel asiant cynhwysiant digidol, er bod y rhan fwyaf yn cydnabod fod Cymunedau 2.0 wedi gwneud ymdrechion o ddifrif i geisio gwneud hyn. Ychydig o gyfweleion a allai ddynodi enghreifftiau o sefydliadau a gafodd gefnogaeth heblaw'r rhai oedd yn ymwneud â chynlluniau digidol yn mabwysiadu neu'n darparu strategaethau cynhwysiant digidol a chredai nifer o gyfweleion o'r tu fewn i'r partneriaid a ddarparai'r Rhaglen fod yr holl ddull yn seiliedig ar gamsyniad. Felly dywedodd un cyfwelai fod y rhan fwyaf o sefydliadau trydydd sector yr oedd y Rhaglen wedi gweithio gyda nhw yn rhy fach a heb fod ag adnoddau i hyrwyddo cynhwysiant digidol eu hunain i aelodau, gwirfoddolwyr a chleientiaid (er y gellid eu defnyddio i gyfeirio pobl at ddarpariaeth) tra dywedodd un arall fod gwall yn y cysyniad o ddefnyddio'r trydydd sector fel ysgol ar gyfer pobl oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

'Roedd damcaniaeth cludfelt - ond ddigwyddodd hynny ddim mewn gwirionedd - doedd y llif ddim yn gweithio'. (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Yn wahanol iddynt, efallai, roedd rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y wefan yn fwy calonogol. Credai mwyafrif llethol y rhanddeiliaid lleol fod Cymunedau 2.0 wedi rhoi cefnogaeth ansawdd da i grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol, fel y dangosir yn Nhabl 16.

Tabl 16: Priodoldeb, ansawdd ac amseroldeb cefnogaeth gan Cymunedau 2.0 i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol

	Priodoldeb	Ansawdd	Amseroldeb	Nifer
Da iawn	22	21		18
Da	11	12		13
Heb fod yn Dda na Gwael	6	6		5
Gwael	0	0		1
Gwael iawn	1	1		1
Dim yn Gwybod	9	9		11

Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (sylfaen = 50)

Credai mwy na hanner y rhai a allai roi sylwadau fod y gefnogaeth yn dda iawn yn nhermau priodoldeb ac ansawdd, gydag ychydig llai o'r un farn am ei hamseroldeb. Dim ond dau ymatebydd oedd â barn wael am berfformiad y Rhaglen yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn.

Yn nhermau agweddau penodol y gefnogaeth a gynigiwyd gan Cymunedau 2.0 i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, eto rhoddodd tua mwy na hanner y rhai a allodd roi sylwadau y graddiad uchaf i'r tair agwedd wahanol a ystyriwyd (er na wyddai tua chwarter yr ymatebwyr), fel y dangosir yn Nhabl 17.


Tabl 17: Effeithlonrwydd y mathau o gefnogaeth a gynigir gan Cymunedau 2.0

	Darpariaeth hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer staff neu wirfoddolwyr	Helpu grwpiau cymunedol i wneud defnydd effeithlon o dechnoleg	Darparu cyngor technegol i gyngor cymunedol	Nifer
Effeithlon iawn	20	21		16
Gweddol effeithlon	13	15		15
Dim yn arbennig o effeithlon	3	1		2
Dim yn effeithlon o gwbl	0	0		0
Dim yn gwybod	12	12		14

Ffynhonnell: Arolwg ar y We o Sefydliadau Partner (sylfaen = 50)

Credai rhanddeiliaid lleol hefyd (i ryw raddau yn wahanol i ganfyddiadau ein gwaith maes) y bu'r Rhaglen yn gyffredinol llwyddiannus wrth ddefnyddio sefydliadau gwirfoddol a chymunedol fel ffordd dda i gyrraedd unigolion a gafodd eu hallgáu'n ddigidol, fel y dangosir yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Llwyddiant Cymunedau 2.0 wrth ddefnyddio grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i gyrraedd pobl sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol



Ffynhonnell: Arolwg ar y we o Sefydliadau Partner (Sylfaen 5o)

7.3 Natur cefnogaeth a roddwyd i unigolion a bodlonrwydd gyda'r gefnogaeth

7.3.1 Graddfa a natur y cymorth: *Barn rhanddeiliaid*

Rhoddodd gwaith maes gyda staff a rhanddeiliaid yn ogystal â gyda'n hastudiaethau achos cynlluniau digidol olwg cyffredinol gadarnhaol o'r hyn a gyflawnodd y prosiect yn nhermau'r gwaith - cynyddol bwysig - i gefnogi unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol.

Fel y nodwyd eisoes, credai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod y prosiect wedi gwneud yn dda i gyrraedd cynifer o unigolion - p'un ai drwy ei weithgareddau ei hun neu drwy'r cynlluniau digidol yr oedd wedi eu hariannu.

Credai staff a rhanddeiliaid yn eang y bu'r cynlluniau digidol yn neilltuol o llwyddiannus er ei bod yn anochel wedi amrywio'n sylweddol yn nhermau model darpariaeth.

'Maen nhw wedi gweithio'n wirioneddol dda. Maen nhw wedi cael peth cynaliadwyedd allan ohono hyd yn oed mewn achosion lle nad oes cynaliadwyedd maen nhw wedi gweithio gyda nifer anhygoel o bobl'
(Cyfrannydd grŵp ffocws staff)

Credai rhanddeiliaid cenedlaethol a chyfweleion astudiaethau achos cynlluniau digidol y bu gan staff y rhaglen rôl hollbwysig wrth fod yn sylfaen i'r cynlluniau digidol: roedd broceriaid yn aml wedi bod â rôl allweddol wrth ddod â phartneriaethau ynghyd â datblygu'r ceisiadau gwreiddiol, tra bod staff y Rhaglen hefyd wedi rhaeadru hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' i lawr drwy'r cynlluniau:

'Bu'n bwysig hyfforddi'r hyfforddwyr o fewn y cynlluniau, i hyfforddi eraill i gyflwyno cynhwysiant digidol. Yn well na ni'n cadw'r wybodaeth a'r sgiliau, roeddem yn ei chyflwyno i sefydliadau ym mhob rhan o Gymru ac felly yn ei hymwreiddio yn y sefydliadau sy'n rhedeg y cynlluniau'
(Rhanddeiliad cenedlaethol)

Roedd y cyfan heblaw dwy (B,E) o'n pump astudiaeth achos wedi llwyddo neu'n ymddangos bron yn sicr o lwyddo wrth gyrraedd ei dargedau ar gyfer unigolion a gafodd gefnogaeth - er y credid yn gyffredinol fod y rhain yn anodd - gydag un arall (oedd eisoes wedi dod i ben (B)) yn dod o fewn trwch blewyn o'r targed ar ffigurau Canolfan Cydweithredol Cymru, y credai'r partner arweiniol eu bod yn isel. Yn rhai o'r astudiaethau achos hyn roedd maint y ddarpariaeth yn rhagorol: er enghraifft, mewn un astudiaeth achos (A) roedd un aelod o staff wedi cyflwyno cyfanswm o 98 cwrs mewn ychydig dros flwyddyn yn cynnwys 316 sesiwn (cymysgedd o sesiynau galw heibio a chysiau mwy ffurfiol Clic Cyntaf) mewn Canolfannau Gwaith, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a safleoedd sefydliadau cymunedol, gan gyrraedd 922 o unigolion gyda chyfanswm cyllideb o lai na £100,000 am brosiect dwy

flynedd. Mewn un arall (C), roedd un gwirfoddolwr unigol (eithriad mae'n rhaid cyfaddef) wedi rhoi 700 awr o ddarpariaeth.

Soniodd llawer o randdeiliaid a chyfweleion astudiaethau achos am bwysigrwydd y ffaith fod y sesiynau a ddarparwyd dan Cymunedau 2.0 (yn cynnwys y rhai yn y flwyddyn ddiwethaf a gafodd eu cyflwyno gan ddarparwyr dysgu prif ffrwd fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol) a'r cynlluniau digidol yn anffurfiol ac yn cael eu cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn hytrach nag amgylcheddau dysgu ffurfiol: credid bod hyn yn annog cyfranogiad gan rai oedd â phrofiad negyddol o ysgol. Yn y cyd-destun hwn, er y dywedodd rhai rhanddeiliaid y cyflwynwyd sesiynau'n llwyddiannus i rai'n hawlio Lwfans Ceisio Swydd (JSA) mewn Canolfannau Gwaith, soniodd cryn nifer o gyfweleion fod rhai problemau gyda chyfranogwyr yn credu fod yn rhaid iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant, ac y bu'n rhaid i staff Cymunedau 2.0 weithio'n galed i wrthweithio hyn, gan danlinellu manteision ehangach medru defnyddio TGCh yn effeithlon.

Roedd rhanddeiliaid a gyfwelwyd a'r astudiaethau achos hefyd yn dangos fod natur y 'ddarpariaeth' yn amrywio'n helaeth, nid dim ond rhwng gwahanol ardaloedd ond o'u mewn. Felly mewn un ardal astudiaeth achos (C) roedd yn bosibl dod o hyd i gyrsiau mwy strwythuredig, un ai'n seiliedig ar ddeunyddiau Clic Cyntaf y BBC neu ar ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan Cymunedau 2.0 ei hunan, sesiynau galw heibio anffurfiol, yn aml yn defnyddio llyfrgelloedd, lle câi pobl eu hannog i ddod draw gyda phroblemau yn cynnwys gyda'u hoffer eu hunain, a gweithgareddau anffurfiol iawn a gynlluniwyd i wneud i TGCh ymddangos yn hwyl megis Heriau Wii, yn ogystal ag ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth staff rheng-flaen e.e. mewn darparwyr tai.

Mewn un arall (D), lle'r oedd y partner arweiniol yn gymdeithas tai, roedd y cynllun digidol yn cynnwys ystod eang o wahanol weithgareddau yn cynnwys:

- Sesiynau blasu
- Cyflwyno 'Clic Cyntaf' ar gyfer cymorth math Ceiswyr Gwaith yn ymwneud â gwaith

- Datblygu hyfforddwyr gwirfoddol
- Hyfforddi staff rheng-flaen
- Sesiynau ceiswyr cartrefi a ffeirio cartrefi
- Sesiynau Dewch Ar-lein i bobl hŷn
- Sesiynau galw heibio mynediad agored anffurfiol ar gyfer teuluoedd, gyda dyfeisiau Nintendo Wii ar gyfer plant
- Sesiynau Galw Heibio Cynhwysiant Digidol yn cynnwys materion megis diogelwch ar-lein, arbed arian ar-lein, gwefannau i helpu gyda gwaith cartref plant, anfon negeseuon e-bost yn ogystal â sut i gyrchu gwasanaethau cyhoeddus ar-lein a llenwi ceisiadau am fudd-daliadau ar-lein

Yn yr astudiaethau achos daearyddol eraill, roedd darpariaeth (A a B) unwaith eto'n gymysgedd o ddarpariaeth galw heibio anffurfiol a chysiau mwy strwythuredig, yn aml wedi'i seilio o amgylch Clic Cyntaf, wedi'i ymestyn dros bedair neu bum wythnos.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, soniodd llawer o randdeiliaid am y ffaith y bu'r ffocws yng nghan 2 yn llawer mwy clir ar gael pobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd, p'un ai oedd y dull wedi bod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

'Ar gyfer cam 2, aeth y ffocws o ennyn eich diddordeb mewn technoleg i'ch cael ar-lein mewn gwirionedd. Ni wnaeth ein targedau newid ond rhoddodd Llywodraeth Cymru fwy o bwyslais ar gael pobl ar-lein, yn hytrach na chael pobl i wneud rhywbeth gyda thechnoleg, fel straeon digidol' (Cyfrannydd grŵp ffocws staff)

Credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid fod y gymysgedd yma o wahanol ddulliau yn gweithio'n dda, gyda llawer yn tanlinellu pwysigrwydd dull 'canfod y bachyn fydd yn ennyn diddordeb pobl ... fel y gallant weld sut y gallai fod o werth iddyn nhw'.

Dywedodd rhai ei bod yn gamarweiniol credu y gellid barnu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant ymyriad gan faint o amser a gymerai: dywedodd un cyfwelai er enghraifft y gallai treulio 10 munud gyda pherson hŷn yn standin Cymunedau 2.0 yn yr Eisteddfod a dangos sut y gallent ddefnyddio llechen i gysylltu ar Skype gyda pherthnasau gael mwy o effaith yn yr amgylchiadau cywir (er enghraifft, lle'r oedd gan yr unigolion wyrion a allai helpu os oeddent mewn trafferthion) na rhywun yn mynychu cwrs Clic Cyntaf pedair wythnos.

Fodd bynnag, dywedodd nifer fach o randdeiliaid y gellid dadlau bod Cymunedau 2.0 yn rhy barod i gyfrif cyfranogwyr oedd wedi manteisio o ymyriad ymylol iawn yn unig, gydag un neu ddau'n nodi fod y trothwy ar gyfer cymorth yn sylweddol is nag a ddefnyddid gan Citizens Online yng nghynlluniau peilot Get IT Together, lle'r oedd angen isafswm o bedair awr. Dywedodd o leiaf un rhanddeiliad ei bod yn debyg fod 20,000 yn fesur mwy cywir o'r nifer o unigolion oedd wedi cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon yn y Rhaglen na'r cyfanswm a gofnodwyd ar y gronfa ddata.

Efallai'n fwy difrifol, dywedodd cryn nifer o staff a rhanddeiliaid fod yr ymgyrch i gyrraedd targedau wedi arwain at i'r Rhaglen weithiau orfod targedu 'ffrwythau isaf y goeden', gyda'r canlyniad y byddai'n gymesur anos cyrraedd gweddill y boblogaeth oedd yn parhau wedi eu hallgáu'n ddigidol. Felly, dywedodd un ei bod yn debyg y bu'r Rhaglen hyd yma 'yn fwyaf llwyddiannus wrth gyrraedd rhai sy'n rhwyddaf ennyn eu diddordeb ... y chwarter o'r gymuned sy'n mynd draw i'r ganolfan gymunedol leol' tra soniodd nifer o gyfweleion am y ffaith nad oedd staff o'r Rhaglen ac o gynlluniau digidol yn gyffredinol wedi bod ag unrhyw le i weithio yn eu cartrefi (oherwydd pryderon am yswiriant, diogelwch a diffyg mynediad i Wi-Fi), gan felly eithrio llawer o'r bobl fwyaf bregus ac wedi eu hallgáu'n gymdeithasol, oedd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd oedran, afiechyd neu ddiffyg hyder: er y bu ymgais e.e. drwy brosiectau gyda Gofal a Thrwsio ac Age Cymru, roedd y rhain yn gyffredinol gyfyngedig o ran maint a lefel.

Ar yr un pryd, roedd cyfweleion astudiaethau achos bron bob amser yn dadlau fod dull anffurfiol y cynlluniau digidol yn denu math gwahanol iawn o

gyfranogwyr i'r rhai fyddai'n cymryd rhan mewn dysgu mwy ffurfiol. Felly mewn un astudiaeth achos (B) roedd staff a gymerodd ran wrth gyflenwi'r cynllun digidol yn gryf o'r farn tra bod y coleg lleol yn cynnig cyrsiau TG, nad oedd y rhain yn addas ar gyfer grwpiau targed Cymunedau 2.0 oherwydd eu bod yn a) gyrsiau gydag achrediad e.e. ECDL nad oedd yn apelio at eu buddiolwyr; b) costus; c) dim ond ar gael ar sail tymor academaidd a ch) dim yn cael eu cyflwyno gan diwtoriaid oedd â chydymdeimlad gydag amgylchiadau'r grwpiau targed. Mewn astudiaeth achos arall (A), dywedodd staff yn gweithio mewn tai cymdeithasol fod llawer o'r rhai a gymerodd ran mewn sesiynau yn oedrannus neu heb fod yn gallu symud llawer o gwmpas ac i ddechrau wedi wfftio'r syniad o unrhyw fath o hyfforddiant: roedd yn annhebygol iawn y byddai'r math yma o gyfranogwyr wedi bod yn barod i fynychu darpariaeth fwy ffurfiol. Mewn trydedd ardal (C), ystyrid bod darpariaeth galw heibio mewn llyfrgelloedd yn rhoi cefnogaeth fwy addas mewn amgylchedd anfygythiol, oedd yn apelio'n neilltuol at bobl hŷn ac at blant a'u rhieni, ac oedd yn pontio'r bwlch rhwng y math o help y gallai staff llyfrgell ei roi ar eu pen eu hunain â dysgu ffurfiol na fyddai'n denu llawer:

'Gallwn ni [llyfrgelloedd] roi cefnogaeth TG i breswylwyr ond allwn ni ddim mynd â nhw ar daith, yn arbennig y rhai gydag anghenion dyfnach' (Cyfwelai astudiaeth achos).

Yn nhermau pedwar grŵp targed y boblogaeth, credai bron bawb o'r rhanddeiliaid a chyfweleion astudiaethau achos hynny a allodd roi sylwadau y bu cynnydd da yng nghyswllt pobl hŷn (yr ystyrid bod dyfodiad dyfeisiau llechen yn wirioneddol bwysig) a cheiswyr gwaith (lle'r oedd yn amlwg fod y ffon o fod angen arddangos defnydd o wefan UJM wedi helpu), ond credai llawer y bu'r cynnydd yn nhermau'r anabl yn llawer mwy darniog. Er y soniwyd am enghreifftiau o arfer da neu ardderchog - er enghraifft, gwaith gyda Chlwb Byddar Bargoed - credai llawer fod gofynion arbenigol delio gyda gwahanol dechnolegau addasol a deall anghenion penodol grwpiau gwahanol wedi'i gwneud yn neilltuol o anodd i 'raeadru' sgiliau (e.e. i staff llyfrgell), gan olygu fod staff Cymunedau 2.0 eu hunain yn aml yn ymwneud â darpariaeth uniongyrchol oedd yn anochel yn rhoi cyfyngiadau difrifol ar 'gyrraedd' y

Rhaglen ac yn golygu y byddai'r 'costau uned yn eithriadol o ddrud' (Rhanddeiliad cenedlaethol).

Yn nhermau tai cymdeithasol, ymddangosai fod y farn ymysg cyfweleion yn wahanol iawn. Dywedodd nifer ohonynt nad oedd Cymunedau 2.0 yn rhoi adroddiad ar wahân ar nifer y cyfranogwyr a gynorthwywyd oedd yn byw mewn tai cymdeithasol. Teimlai sawl rhanddeiliad y bu'r ymateb gan wahanol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ddarniog iawn, gyda rhai'n coleddu'r neges cynhwysiant digidol yn llawn (ac er enghraifft, yn sicrhau fod Wi-Fi am ddim ar gael mewn cynlluniau tai gwarchod) ac eraill heb fod yn gwneud mwy na rhoi gwasanaeth gwefus iddo, tra bod diffyg mynediad cyffredinol i Wi-Fi ar stadau tai cymdeithasol yn farn fwy cyffredinol. Nodwyd yn eang bod llawer o denantiaid - yn cynnwys llawer oedd mewn egwyddor â mynediad i ddyfeisiau llechen neu ffonau clyfar - yn methu cael contractau i gael mynediad personol i Wi-Fi eu hunain oherwydd graddiad credyd gwael, hyd yn oed pe gallent ei fforddio. Roedd rhai cyfweleion yn feirniadol iawn o fethiant landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i symud ymlaen gyda unrhyw fath o Wi-Fi cymunol neu seiliedig ar ardal heblaw mewn cynlluniau tai gwarchod. Dywedodd nifer fach o gyfweleion fod y dystiolaeth o'r Arolwg Cenedlaethol fod tenantiaid tai cymdeithasol hyd yn oed yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwrdd na thenantiaid tai rhent preifat yn dweud cyfrolau am ddiffyg gwir ymgysylltu gyda'r mater hwn gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ar yr un pryd, roedd un o'n hastudiaethau achos o gynlluniau digidol (D) yn cael ei arwain gan gymdeithas tai a bernid yn gyffredinol iddo fod yn llwyddiannus iawn wrth gefnogi tenantiaid i gael mynediad i gymorth.

Yn fwy cyffredinol, soniodd rhanddeiliaid a rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaethau achos bod cost ac argaeledd mynediad i'r rhyngwrdd yn broblem sylweddol i lawer o'r rhai a dargedwyd neu a gefnogwyd gan Cymunedau 2.0, gan y gallai fod yn anodd i gymunedau amddifadus yn y Cymoedd neu gefn gwlad Cymru gyrraedd llyfrgelloedd a safleoedd masnachol gyda Wi-Fi am ddim. Ar y llaw arall, ystyrid bod cost offer yn llai o broblem, yn arbennig gyda dyfodiad dyfeisiau llechen rhad a ffonau clyfar, er y soniwyd am enghreifftiau o arfer da yn nhermau gweithio gyda darparwyr offer wedi'i adnewyddu i roi

mynediad i offer cost isel i gyfranogwyr mewn darpariaeth Cymunedau 2.0 yn o leiaf un o ardaloedd yr astudiaethau achos (C) a mannau eraill.

Soniodd rhanddeiliaid a chyfweleion astudiaethau achos yn aml am rôl allweddol gwirfoddolwyr, yn neilltuol wrth gyflwyno cynlluniau digidol, gyda'r Rhaglen wedi hyfforddi bron 600 o wirfoddolwyr erbyn iddo ddod i ben. Er yr ystyrid adeg y Gwerthusiad Interim fod recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn broblem, ymddengys y bu mwy o lwyddiant yn ystod cam 2, i raddau helaeth drwy ddatganoli rheoli gwirfoddolwyr i'r cynlluniau digidol. Roedd recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr i gynorthwyo neu ymgymryd â chyflenwi sesiynau galw-heibio neu hyfforddiant yn uniongyrchol yn nodwedd allweddol yn y cyfan heblaw un (E) o'n hastudiaethau achos o gynlluniau digidol: yn astudiaeth achos E, y bwriad oedd recriwtio hyfforddwyr o fewn sefydliadau partner ond bu hyn yn llawer anos nag a ddisgwylid. Ar draws y pedair astudiaeth achos arall, soniodd staff y prosiect am gyfanswm o tua 130 o wirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio gyda golwg ar ddarparu cefnogaeth i unigolion, er yn y rhan fwyaf o achosion roedd y gronfa o wirfoddolwyr gweithgar yn sylweddol llai. Mewn rhai ardaloedd (yn neilltuol C, ac i raddau llai A a D) roedd gwirfoddolwyr eu hunain yn cyflwyno sesiynau heb unrhyw fewnbwn gan staff cyflogedig.

Yn fwy cyffredinol, soniodd rhanddeiliaid y bu datblygu carfan o wirfoddolwyr yn llwyddiant mawr. Ystyrid yn eang bod darparu hyfforddiant mwy strwythuredig a hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' dan arweiniad PAVS yn bwysig yma.

Er y medrid credu bod risg yn nhermau ansawdd mewn defnyddio gwirfoddolwyr (yn neilltuol lle, fel mewn nifer o ardaloedd astudiaethau achos, roedd rhain yn cael eu gadael i ddarparu darpariaeth galw-heibio neu gyrsiau ar eu pen eu hunain, heb i staff cyflogedig fod yn bresennol), credai nifer o randdeiliaid fod defnyddio gwirfoddolwyr nid yn unig yn galluogi 'cyrraedd' pellach ond hefyd yn helpu yn nhermau adeiladu perthynas gyda chyfranogwyr. Yn neilltuol, dywedwyd fod manteision enfawr i ddefnyddio pobl yn edrych am swyddi fel gwirfoddolwyr o ran adeiladu sgiliau a hyder yr

unigolion oedd yn gwirfoddoli, a hefyd yn nhermau 'effaith arddangos i'r rhai a gefnogent. Yn yr un modd, ystyriwyd bod recriwtio pobl oedd wedi ymddeol fel gwirfoddolwyr yn rhoi cysur i rai cyfranogwyr, a allai fel arall gredu na fyddai person ifanc proffesiynol yn gwir ddeall eu diffyg hyder.

Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn gadarnhaol iawn am ddefnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi unigolion, ond dywedodd nifer fach fod cost eu hyfforddi a'u rheoli, yn neilltuol o gofio fod trosiant uchel mewn gwirfoddolwyr di-waith iau (er am y rheswm cadarnhaol eu bod yn aml yn llwyddo i symud i gyflogaeth) yn golygu nad oedd yn economaidd. Er mai barn lleiafrif yn bendant oedd hyn, roedd cytundeb llawer ehangach na ellid tybio fod gweithlu gwirfoddol yn gynaliadwy heb gymorth neu recriwtio aelodau eraill newydd.

Nodwyd eisoes bod cytundeb eang y bu ffocws gweithgaredd yng nghyswllt unigolion yn ystod ail gam y Rhaglen ar fynediad i'r rhynggrwyd, ond roedd peth anghytundeb os bu gan y Rhaglen ormod o ffocws ar ddim ond cael pobl ar-lein, yn hytrach na datblygu sgiliau TGCh a'r gallu i ddefnyddio'r rhynggrwyd yn hyderus ac mewn modd priodol. Dywedodd llawer o gyfweleion bod sicrhau cynhwysiant digidol yn ymwneud â mwy na dim ond dangos i rywun sut i ddefnyddio'r rhynggrwyd. Teimlai rhai ohonynt fod y Rhaglen wedi cydnabod hyn ac wedi gwneud gwaith da, er enghraifft drwy sicrhau fod pobl yn edrych am swyddi nid yn unig yn defnyddio gwefan UJM ond yn gwneud hynny'n effeithlon. Teimlai eraill y gallai'r ymgyrch i sicrhau nifer uchel o gyfranogwyr fod efallai wedi gostwng y ffocws ar gynyddu sgiliau a hyder.

'Nid yw cael y dechnoleg ar gael i chi yr un peth â bod â'r sgiliau i ddefnyddio'r rhynggrwyd. Mae gan bawb ffôn clyfar. Ond ydyn nhw yn eu defnyddio i gael gwybodaeth ar wasanaethau cyhoeddus? Ydi'r sgiliau sylfaenol ganddyn nhw ynghyd â'r sgiliau technoleg gwybodaeth i fanteisio i'r eithaf ar y rhynggrwyd?' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Fodd bynnag, awgrymodd ein hastudiaethau achos cynlluniau digidol fod ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd rhoi sgiliau i bobl ddefnyddio'r rhynggrwyd yn effeithlon yn ogystal â'u cael ar-lein. Nododd cyfweleion un partner arweiniol (B) er mai dwy awr oedd y cyswllt lleiaf yr oedd Cymunedau

2.0 ei angen i gynnwys cyfranogwr ar y gronfa ddata, yn ymarferol roedd y rhan fwyaf o'r rhai yr oeddent wedi gweithio gyda nhw wedi cymryd rhan am sylweddol fwy o amser. Ailwnaed y pwynt na ellid cymryd datganiadau gan unigolion fod ganddynt rhai sgiliau digidol yn ganiataol bob amser, gan ddweud na ddylid canolbwyntio'n llwyr ar y rhai nad oeddent yn ystyried eu hunain fel defnyddwyr y rhyngrwyd:

'Daeth rhai draw a dweud wrthym fod ganddyn nhw e-bost, ond pan aethoch i mewn i'w cyfrifon e-bost y cyfan oedd ganddyn nhw yno oedd neges groeso ... doedd ganddyn nhw ddim syniad sut i'w ddefnyddio. Nawr pe byddech chi heb ganiatau i'r rheini ddod, wel ... (Cyfwelai astudiaeth achos)

Gan droi at y rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y we, dywedodd y rhain yn gyffredinol fod y gweithgareddau a drefnwyd gan y Rhaglen yn effeithlon (Tabl 18).

Tabl 18: Effeithlonrwydd gweithgareddau ar gyfer buddiolwyr unigol

	Sesiynau blasu neu weithdai ar gyfer buddiolwyr	Nifer Hyfforddiant manwl cysylltiedig â TGCh ar gyfer buddiolwyr
Effeithlon iawn	25	20
Gweddol effeithlon	18	18
Dim yn neilltuol o effeithlon	1	2
Dim yn effeithlon o gwbl	2	2
Dim yn gwybod	4	8

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o sefydliadau partner (Sylfaen 50)

Yn nhermau'r grwpiau targed, credai mwyafrif helaeth yr ymatebwyr y bu'r Rhaglen yn llwyddiannus wrth gysylltu â chyfranogwyr o bob un o'r pedwar grŵp, er fod ychydig llai yn hyderus iddynt fod yn llwyddiannus gyda phobl anabl (32 ymatebydd) a gyda phreswylwyr tai cymdeithasol (34 ymatebydd) na gyda phobl ddi-waith a phobl hŷn (38 ymatebydd ym mhob achos): y gwahaniaeth yma, fodd bynnag, oedd yng nghyfran yr ymatebwyr na allai roi sylwadau, yn hytrach na'r gyfran a deimlai y bu'r Rhaglen yn aflwyddiannus, er y dylid nodi mai dim ond tri ymatebydd a deimlai y bu'r Rhaglen yn aflwyddiannus yng nghyswllt pobl yn edrych am swyddi.

Yn olaf, gofynnwyd cwestiwn agored i ymatebwyr am ba agweddau o Cymunedau 2.0 a fu'n neilltuol o lwyddiannus wrth gyrraedd pobl oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol.

Credai 11 ymatebydd y bu gan lyfrgelloedd ran allweddol yn y Rhaglen, gan eu bod yn fannau lleol a chymunedol oedd yn hygyrch i bawb, gyda dau ohonynt yn dweud y bu sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd yn neilltuol o llwyddiannus. Yn ychwanegol, dywedodd nifer o ymatebwyr eraill fod dulliau cymunedol, yn cynnwys darparu hyfforddiant drwy grwpiau cymunedol, yn llwyddiant arall i Cymunedau 2.0, gydag un yn sôn am yr 'hyfforddiant strwythuredig a chefnogaeth' gan Cymunedau 2.0 fel rheswm am y llwyddiant yma. Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd fod hyfforddiant yn llwyddiannus, er na soniwyd fod un math penodol o weithgaredd hyfforddiant yn fwy llwyddiannus nag eraill.

Enghreifftiau o lwyddiannau a nodwyd gan lai na phump ymatebydd oedd gweithio partneriaeth (pedwar ymatebydd), cyllid ar gyfer gweithgareddau (pedwar), gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i alluogi pobl i chwilio am swyddi ar-lein (pedwar), defnyddio adnoddau Clic Cyntaf (tri) a gweithio allgymorth (tri).

7.3.2 Targedu a natur cefnogaeth i unigolion

Gan droi at ganfyddiadau ein harolygon gydag unigolion, a chymryd y data o bob un o'r tri arolwg yn y don gyntaf (a gynhaliwyd yn 2011, 2013 a 2014) gyda'i gilydd, byddai'n ymddangos y gwnaeth y Rhaglen yn dda yn nhermau cyrraedd y grŵp targed priodol.

Drwyddi draw, dywedodd ychydig dros draean o ymatebwyr (200 neu 35 y cant) nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi (yn sylweddol


uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr Arolwg Cenedlaethol, hyd yn oed ar ôl rhoi ystyriaeth i broffil oedran yr ymatebwyr¹⁰²).

Fel y gwelir yn Ffigurau 6 a 7, dywedodd 46 y cant o'r holl ymatebwyr (260) a 60 y cant (143) o ymatebwyr dros 65 oed nad oeddent yn bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd adeg ymuno â'r Rhaglen. O'r rheiny, dim ond lleiafrif oedd wedi defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl (57 neu 27 y cant o rai nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd), gan olygu nad oedd 203 (neu 36 y cant) erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd. Roedd y rhaniad rhwng defnyddwyr a rhai heb fod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn debyg iawn ar draws y tri cohort.

Fodd bynnag, ar draws y sampl yn ei gyfanrwydd, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ddefnyddiai'r rhyngrwyd yn ddefnyddwyr gweddol gyson, gyda dim ond chwarter (79 neu 25 y cant o ddefnyddwyr) yn defnyddio'r rhyngrwyd lai nag unwaith yr wythnos (er bod y gyfran yma'n uwch - ar 39 y cant defnyddwyr ar gyfer rhai 65 oed ac uwch). Mae'n ddiddorol nodi fod gwahaniaethau sylweddol rhwng y tri gwahanol gohort yn y cyswllt yma: yng nghohort 2011, dywedodd 18 y cant o ddefnyddwyr eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd lai nag unwaith yr wythnos, tra bod y ffigurau cyfatebol ar gyfer cohortau 2013 a 2014 yn 33 y cant a 23 y cant yn yr un drefn, er bod cohort 2011 ar gyfartaledd yn sylweddol hŷn na cohortau diweddarach. Yn arbennig o gofio am y cynnydd parhaus mewn defnydd o'r rhyngrwyd dros y cyfnod, mae hyn yn awgrymu gwell targedu ar y rhai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol fwyaf wrth i'r Rhaglen ddatblygu


¹⁰² Gyda 42 y cant yn 65+ oed.

Ffigur 6: Defnydd blaenorol o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg



Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 571 buddiolwr

Ffigur 7: Defnydd blaenorol o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg 65 oed a throsodd



Ffynhonnell: Arolwg o 239 cyfranogydd 65 oed a throsodd

Yn fwy cyffredinol, dywedodd dros hanner yr holl ymatebwyr nad oedd ganddynt ddim profiad o gyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth cyn cymryd rhan (156 neu 27 y cant) neu bron ddim o gwbl (140 neu 25 y cant): eto, efallai'n wrth-reddfol, cohort cyntaf 2011 oedd debycaf o ddweud fod

ganddynt beth profiad o gyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth a chohort 2014 oedd leiaf tebygol o wneud hynny, gan eto awgrymu fod y Rhaglen yn targedu cyfranogwyr hyd yn oed yn fwy priodol nag yn y camau cynnar a bod y cynlluniau digidol yn neilltuol o lwyddiannus yn y cyswllt hwn.

Pan ofynnwyd iddynt am natur eu cyfranogiad gyda Cymunedau 2.0, dywedodd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (490 neu 86 y cant) eu bod wedi cymryd rhan mewn 'cyrsgau cyfrifiadurol sylfaenol'¹⁰³, gydag opsiynau eraill yn cael eu dewis gan bump y cant neu lai o ymatebwyr (gweler Tabl 19).

Tabl 19: Mathau o weithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt

Gweithgaredd	Nifer	Canran
Cwrs cyfrifiadurol sylfaenol (e.e. prosesu geiriau, E-bost, y Rhynggrwyd)	490	86
Arall	119	21
Cyfryngau cymdeithasol	28	5
Ffotograffiaeth ddigidol	22	4
Skype	18	3
Straeon digidol	15	3
Gwneud ffilmiau	7	1
Cwrs ffôn symudol	2	-

Ffynhonnell: Arolwg ffôn o gyfranogwyr yn 2011, 2013 a 2014 (sylfaen 571)

Fel y gwelir, dywedodd mwy nag un ym mhob pump o ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Pan ofynnwyd iddynt am fwy o wybodaeth am beth a olygai hyn, roedd yr ymateb mwyaf cyffredin o ddigon yn ymwneud â chymorth i chwilio am swyddi neu UJM, gydag o leiaf 48 o unigolion (8 y cant) yn sôn am hyn. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:

- Help gyda iPad (10 ymateb)
- Photoshop (saith ymateb)
- Spam/diogelwch (chwech ymateb)
- Creu gwefannau (pedwar ymateb)
- Ebay/siopa ar-lein (pedwar ymateb)

¹⁰³ Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb

8.0 Canfyddiadau: Tystiolaeth ar ganlyniadau ac effaith

8.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma ystyriwn dystiolaeth ar ganlyniadau ar gyfer sefydliadau - yn nhermau newidiadau i'w defnydd o TGCh, perfformiad a chynaliadwyedd ariannol ac yn nhermau creu a chynnal cyflogaeth - ac ar gyfer unigolion - yn nhermau cynyddu eu hyder a'u cymhwysedd mewn defnyddio'r rhyngwrdd a TGCh yn fwy cyffredinol ac yn nhermau hybu eu cyflogadwyedd a'u lles ariannol a chymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn troi'n gyntaf at y cwestiwn pwysig p'un ai a lwyddodd y Rhaglen i newid agweddau a dulliau gweithredu partneriaid yn y sector cyhoeddus yng nghyswllt cynhwysiant digidol.

Canfyddiadau allweddol

Er ychydig yn gyfyngedig, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y bu gan Cymunedau 2.0 rôl bwysig wrth gynyddu ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol ar draws y trydydd sector a'r sector cyhoeddus a gwnaeth gyfraniad i ddatblygu darpariaeth gwasanaethau ar-lein gan y sector cyhoeddus.

Roedd effaith tymor hwy cefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac i fentrau cymdeithasol yn fwy cyfyngedig. Er bod Cymunedau 2.0 yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin eu gallu i reoli TGCh eu hunain yn ogystal ag ar roi cyngor a datrys problemau i'r sefydliadau a gaiff gefnogaeth, mae'r gwaith hydredol yn neilltuol yn awgrymu y gall fod yn afrealistig credu y gall ymyriad unigol wneud gwahaniaeth sy'n parhau ar sefydliadau llai, er yn gyffredinol ni welwyd effeithiau economaidd sylweddol mewn sefydliadau a gafodd gymorth.

Yn nhermau buddiolwyr unigol, mae ein gwaith arolwg yn awgrymu y cafodd cymryd rhan yn y Rhaglen effaith sylweddol a chyson ar i ba raddau yr oedd buddiolwyr yn defnyddio'r rhyngwrdd ar gyfer ystod eang o ddibenion.

Roedd yr effaith gadarnhaol yn neilltuol o amlwg ar gyfer buddiolwyr hŷn, yr oedd eu hymgysylltu gyda'r rhyngwrdd ar ôl cyfranogiad yn sylweddol iawn uwch nag yn y boblogaeth hŷn yn eu cyfanrwydd, fel y dangoswyd yn yr Arolwg Cenedlaethol .

Aeth rhwng chwarter a thraean y buddiolwyr a gyfwelwyd am yr eildro ymlaen i wneud dysgu pellach yn gysylltiedig â TGCh. O gofio am broffil demograffig buddiolwyr, roedd canlyniadau cyflogaeth bob amser yn debygol o fod yn gyfyngedig, ond credai mwy na chwarter nifer fechan y cyfweleion ail don a oedd mewn cyflogaeth fod cymryd rhan yn Cymunedau 2.0 wedi eu cynorthwyo wrth sicrhau eu cyflogaeth bresennol.

Cafodd y farn gyffredinol am effaith y Rhaglen ar fuddiolwyr unigol a awgrymwyd gan ein harolwg ffôn ei hadleisio'n gryf gan dystiolaeth gan randdeiliaid ac astudiaethau achos y cynlluniau digidol.

8.2 Effaith ar ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol a darpariaeth gwasanaethau

Rydym eisoes wedi nodi ym Mhennod 3 farn gonsensws y bu cynhwysiant digidol yn gynyddol bwysig ar agenda polisi Cymru, nid yn lleiaf oherwydd y ffocws ar symud gwasanaethau llywodraeth - yn bennaf oll, fynediad i fudd-daliadau lles - ar-lein a phwysau difrifol ar gostau o fewn y sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid a'r astudiaethau achos ar gynlluniau digidol fod Cymunedau 2.0 ei hun wedi helpu i ysgogi mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i drin cynhwysiant digidol ar ran y sector cyhoeddus a hefyd y trydydd sector, fel ffordd o gefnogi aelodau mwyaf bregus cymdeithas a hefyd fel ffordd o alluogi darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon ar-lein.

'Mae C2.0 wedi mynd ati o ddifrif i drefnu cysylltiadau a phartneriaethau - dod â phobl ynghyd nad ydynt erioed wedi cydweithio o'r blaen ... newid ffyrdd o feddwl' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Felly, mewn un ardal astudiaeth achos (C), credai uwch swyddog awdurdod lleol a gyfwelwyd y bu gan eiriolaeth brocer Cymunedau 2.0 rôl allweddol wrth gael yr awdurdod i ganolbwyntio o ddifrif ar fater cynhwysiant digidol, a amlygwyd yn ddilynol o fewn ei Gynllun Integredig Sengl, gan ddangos effaith negyddol bosibl cynhwysiant digidol ar les y rhai ar fudd-daliadau.

Yn yr un modd, dywedodd rhanddeiliad cenedlaethol fod yr ymrwymiad i gyfanswm o fwy na £600,000 mewn arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau digidol a ysgogwyd gan awdurdodau lleol er y wasgfa ar wariant llywodraeth leol yn awgrymu i ba raddau yr oedd y Rhaglen wedi eu darbwylo am bwysigrwydd yr agenda.


Yn o leiaf dair (C, D, E) o'r astudiaethau achos cynlluniau digidol (a gafodd eu harwain gan awdurdod lleol, cymdeithas tai a sefydliad trydydd sector yn yr un drefn), dywedwyd fod cymryd rhan yn Cymunedau 2.0 wedi arwain at welliannau yn nefnydd y partneriaid arweiniol o'u gwefan a chyfryngau cymdeithasol, ac wedi helpu i gynyddu'r gyfran o fusnes a wneir ar-lein. Yn achos y gymdeithas tai, ystyriwyd bod strategaeth cynhwysiant digidol yn rhan allweddol o waddol y cynllun digidol, tra yn y sefydliad trydydd sector, dywedodd aelod o'r Bwrdd y bu cynnydd sylweddol mewn diddordeb mewn cynhwysiant digidol a materion technoleg ar ran y bwrdd a hefyd y staff.

Ar yr un pryd, dywedodd rhai rhanddeiliaid y bu methiannau yn ogystal â llwyddiannau. Yn neilltuol, teimlai nifer fechan o gyfweleion, er bod rhai o'r sefydliadau mwy o'r trydydd sector yn cytuno o ran yr agenda, bod rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac yn wir Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cymryd llai o ran nag y medrid bod wedi'i obeithio neu'i ddisgwyl: fodd bynnag, nid oedd unrhyw batrwm yn amlwg yma. Yn yr un modd, ystyriwyd bod ymateb awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddarniog, er rhai enghreifftiau ardderchog o awdurdodau unigol yn gwneud ymrwymiad sylweddol.

Credai rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y we yn yr un modd fod y Rhaglen wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol. Credai

bron yr holl ymatebwyr fod y sector gwirfoddol a chymunedol/mentrau cymdeithasol un ai'n ymwybodol iawn neu'n eithaf ymwybodol o'r agenda cynhwysiant digidol (43 allan o 50, gyda thri yn methu ateb) a bod ymwybyddiaeth am yr agenda ar ran y sector wedi cynyddu yn y ddwy i dair blynedd ddiwethaf (46 allan o 50, gyda thri heb ymateb). Yn y sefyllfa yma, roedd yn hynod fod bron yr holl ymatebwyr a gredai hefyd fod Cymunedau 2.0 wedi cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater o fewn y sector, gyda bron dri mewn pump yn dweud iddo wneud cyfraniad sylweddol (Ffigur 8).

Ffigur 8: Cyfraniad Rhaglen Cymunedau 2.0 at godi ymwybyddiaeth o'r agenda cynhwysiant digidol yn y sector gwirfoddol a chymunedol/menter gymdeithasol



A throi at y sector cyhoeddus, priodolodd ymatebwyr yn yr un modd rôl resymol sylweddol i Cymunedau 2.0 yn nhermau codi ymwybyddiaeth gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus am gynhwysiant digidol, er na theimlai cyfran sylweddol ohonynt fod ganddynt ddigon o wybodaeth i roi sylw (Tabl 20).

Tabl 20: Cyfraniad Cymunedau 2.0 at godi ymwybyddiaeth o'r agenda cynhwysiant digidol yn y sector cyhoeddus

	Nifer					
	Adrannau Llywodraeth Cymru	Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf	Gwasanaethau Llyfrgell Awdurdodau Lleol	Cymdeithasau Tai	Adrannau Eraill Awdurdodau Lleol	Canolfan Byd Gwaith
Cyfraniad sylweddol	14	19	22	16	7	20
Peth cyfraniad	16	17	18	21	20	17
Dim cyfraniad neilltuol	3	1	0	1	5	2
Dim cyfraniad o gwbl	1	1	1	1	1	1
Dim yn gwybod	16	10	9	10	15	10

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o randdeiliaid lleol (sylfaen=50)

Pan ofynnwyd iddynt i ba raddau y credent fod Cymunedau 2.0 wedi gwneud cyfraniad i gefnogi datblygu darpariaeth gwasanaethau ar-lein gan y sector cyhoeddus yn gyffredinol, credai ychydig dros hanner yr ymatebwyr (26 i gyd) ei fod un ai wedi gwneud cyfraniad sylweddol (wyth ymatebydd) neu beth cyfraniad (18 ymatebydd)¹⁰⁴. Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ar y we i ba raddau yr oedd Cymunedau 2.0 wedi cyfrannu at newidiadau yn y ffordd yr oedd eu sefydliadau eu hunain yn darparu gwasanaethau'n ddigidol. Dywedodd 36 o ymatebwyr fod eu sefydliadau wedi newid y ffordd yr oeddent yn darparu gwasanaethau ar-lein, a dywedodd ychydig dan eu hanner fod Cymunedau 2.0 wedi gwneud cyfraniad i'r newidiadau hyn (Tabl 21).

Tabl 21: Cyfraniad Cymunedau 2.0 at newidiadau yn y ffordd y darparodd sefydliadau wasanaethau ar-lein

Ymateb	Nifer ymatebwyr
Cyfraniad sylweddol	8
Peth cyfraniad	9
Dim cyfraniad neilltuol	10
Dim cyfraniad o gwbl	7
Dim yn gwybod	2

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o randdeiliaid lleol (sylfaen=50)

¹⁰⁴ Dywedodd naw nad oedd wedi gwneud unrhyw gyfraniad neilltuol, pedwar dim cyfraniad o gwbl ac ni wyddai 11

Er bod y ffigurau hyn mewn rhai ffyrdd yn edrych yn llai cadarnhaol na llawer o'r ymatebion eraill i'r arolwg, mae'r ffaith fod y rhain yn cyfeirio at ddatblygiadau a wnaed o fewn sefydliadau yr ymatebwyr eu hunain yn awgrymu i'r Rhaglen wneud gwahaniaeth i'r 'ochr gyflenwi' yn ogystal ag 'ochr alw' darpariaeth gwasanaethau ar-lein.

Er mai ychydig o'r rhanddeiliaid a'r cyfweleion astudiaethau achos cynlluniau digidol a roddodd sylwadau uniongyrchol ar hyn, mewn sawl achos, ystyrid bod cynlluniau digidol a staff Cymunedau 2.0 wedi ymwneud yn agos gydag ail-bwrpasu gwefannau awdurdodau lleol i gynyddu eu hygyrchedd a'u rhyngweithgaredd.

8.3 Canlyniadau ac effeithiau i sefydliadau

Fel y nodwyd eisoes yn Adran 7.2 roedd llawer o'r gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau yn gyffyrddiad eithaf ysgafn ac yn canolbwyntio ar faterion swyddogaethol a gweithredol. Yn anochel pan wnaethom gynnal ein cyfweliadau cyntaf (p'un ai yn 2011 neu yn 2013), roedd sefydliadau yn aml yn methu dynodi effeithiau sylweddol yn nhermau'r 'llinell isaf', er i lawer bwysleisio i ba raddau y disgwyliid i'r gefnogaeth wella effeithiolrwydd gweithredol ac felly maes o law sicrhau cynaliadwyedd a llacio pwysau ariannol.

Felly prif ddiben cynnal yr ail don o gyfweliadau (yn 2013 a 2014) gyda'r sefydliadau a samplwyd ar hap oedd ymchwilio p'un ai a fu canlyniadau tymor hwy (yn nhermau defnydd cynaliadwy o TGCh i wella'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithio) ac effeithiau (yn nhermau cynyddu proffidioldeb a hyfywedd) y cymorth a roddwyd gan Cymunedau 2.0.

8.3.1 Meithrin gallu sefydliadau i reoli TGCh

Mewn gwirionedd, amlygodd yr ail don o gyfweliadau gyda sefydliadau a gafodd gymorth y ffaith er y ffocws ar feithrin gallu, nad oedd cefnogaeth o'r math a roddwyd gan Cymunedau 2.0 bob amser yn ateb hirdymor.

Yn o leiaf bump achos, teimlai cyfweleion nad oedd eu seilwaith TGCh yn ddigonol ac, yn fwy cyffredinol - er y ffocws ar feithrin gallu a nodwyd gennym yn yr adroddiad interim¹⁰⁵ - mae'n amlwg nad oedd ymwneud gyda

Cymunedau 2.0 wedi gadael gwaddol o sgiliau na hyder i drin hyn. Felly,

- mewn un canolfan gymunedol, roedd y wefan a gafodd ei chreu gan Cymunedau 2.0 ac y dywedwyd ei bod adeg ein cyfweiliad cyntaf wedi cynyddu archebion am ystafelloedd ac felly gynyddu trosiant a sefydlogrwydd ariannol, wedi 'mynd lawr' beth amser yn ôl, heb neb yn y sefydliad â'r galluedd i ddatrys y broblem;
- mewn sefydliad cymunedol arall (lle cyfyngwyd ymgyfraniad gyda'r Rhaglen i gyn aelod o staff yn mynd ar hyfforddiant a drefnwyd gan Cymunedau 2.0 yn hytrach na buddsoddiad mewn offer), dywedodd y rheolwr presennol nad oedd yr offer TG yn 'addas i'r diben erbyn hyn', bod y wefan mewn 'cyflwr gwirioneddol wael' ac nad oedd gan y sefydliad sgiliau TGCh;
- mewn sefydliad arall, roedd ymgais i ddiweddarau'r feddalwedd a roddai'r llwyfan ar gyfer y wefan (Joomla) wedi achosi problemau sylweddol gan olygu ei bod yn cael ei diweddarau'n llawer llai aml, er bod Cymunedau 2.0 wedi camu i'r adwy i helpu adfer peth data a gollwyd ac yn awr yn trefnu hyfforddiant gloywi;
- mewn menter gymdeithasol teimlai'r rheolwr er iddi gael y sgiliau i ddiweddarau'r wefan, na ddangoswyd iddi sut i wneud y newidiadau mwy sylfaenol a ddymunai i'r dyluniad, tra mewn un arall nid oedd y perchen-reolwr wedi meistrolï'r grefft o ddiweddarau'r wefan ac nid oedd hyn yn cael ei defnyddio erbyn hyn;
- mewn dwy fenter gymdeithasol arall, roedd cyrhaeddiad staff gyda mwy o gymwysterau mewn technoleg gwybodaeth wedi arwain at i ganlyniadau ymyriad Cymunedau 2.0 gael eu disodli: mewn un, roedd y wefan a ddarparwyd gyda chefnogaeth y Rhaglen wedi'i disodli ac mewn un arall dywedodd rheolwr swyddfa gyda sgiliau TG proffesiynol oedd newydd ei

¹⁰⁵ 'Yn hollbwysig, fodd bynnag, mae'r cymorth sefydliadau yn ymwneud â darparu cefnogaeth uniongyrchol a hefyd yn meithrin gallu i reoli TGCh yn fwy effeithiol ac effeithlon, a thybir bod hyn yn gryfder allweddol - ac yn wahanol - i gymorth aral a fedrai fod ar gael yn fasnachol' Adroddiad Interim, t. 97

benodi iddo gael ei synnu ar yr hyn a ystyriai yn ddiffyg uchelgais ar ran y sefydliad a ddangoswyd yn yr adolygiad technoleg gwybodaeth a gynhaliwyd, er enghraifft yng nghyswllt storio data'n ddiogel;

- mewn dau sefydliad gwirfoddol a chymunedol arall, nododd y cyfweleion er bod eraill yn eu sefydliad wedi eu hyfforddi i ddiweddarau'r wefan, yn ymarferol dim ond nhw oedd yn gwneud hynny: ac yn y ddau achos, teimlid fod angen 'hwb' newydd:
'Rydym yn ymwybodol iawn o holl wendidau a phethau od yn y wefan ... fe fydden i'n ei wneud mewn ffordd wahanol erbyn hyn;
- mewn sefydliad gwirfoddol a chymunedol arall, roedd newid personél yn golygu nad oedd y wefan a ddatblygwyd yn cael ei defnyddio: roedd y cyfwelai yma'n feirniadol o'r ffaith nad oedd y wefan a ddatblygwyd gyda chefnogaeth Cymunedau 2.0 yn ddwyieithog ac roedd yn gobeithio sicrhau cyllid i gomisiynu gwefan newydd gan contractwr preifat;
- teimlai menter gymdeithasol arall hefyd fod y wefan a gefnogwyd gan Cymunedau 2.0 ddim ond flwyddyn neu ddwy ynghynt yn awr angen ei diweddarau neu gael gwefan newydd yn ei lle, gyda'r cyfwelai yn nodi gyda synnwyr trannoeth y gallent fod wedi gwneud penderfyniadau gwahanol am y math o wefan y gwnaethant ei chomisiynu ond nad oedd hyn yn feirniadaeth ar C2.0, yn hytrach yn fwy o arwydd bod technoleg yn parhau i ddatblygu'n gyflym.

Wrth gwrs, mae angen cydnabod fod y rhan fwyaf ohonynt yn sefydliadau bach iawn, gyda galluedd staff cyfyngedig (ac mewn rhai achosion, ddim galluedd staff) ac yn aml gyda throsiant sylweddol mewn aelodau staff a gwirfoddolwyr. Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, fod newid cyflym mewn technolegau digidol yn golygu mai oes fer sydd gan offer, meddalwedd a sgiliau TGCh yn aml a bod angen eu hadnewyddu a'u diweddarau'n aml. Gall fod yn afrealistig disgwyl i gefnogaeth y Rhaglen arwain at leihau yn sylfaenol effaith newidiadau o'r fath ar fentrau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol bach.

Mae hefyd yn bwysig cofio i'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y cyfweiliad cyntaf sôn am ddatblygiadau cadarnhaol o ran gwella effeithiolrwydd sefydliadau a gostwng yr amser a'r gwaith a wastreffid ac y cafodd yr effeithiau cadarnhaol eu cynnal mewn llawer o achosion. Ymhellach dywedodd y rhan fwyaf o ddigon o'r sefydliadau a ail-gyfwelwyd yn ail don y cyfweiliadau na chredent y byddent wedi medru canfod a/neu fforddio cefnogaeth debyg o fan arall, gan awgrymu lefelau cymharol uchel o ychwanegedd (gweler hefyd Adran 7.2.2.).

Gan droi at y cyfweiliadau gyda staff a rhanddeiliaid eraill, pwysleisiodd staff yn gyffredinol y bu meithrin gallu sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion TGCh eu hunain yn y dyfodol yn ffocws mawr i'w gweithgaredd yng nghanam 2 ond fe wnaethant hwy a chyfweleion eraill nodi bod y cyfuniad o newid technolegol a throsiant staff a gwirfoddolwyr yn golygu efallai na fyddid yn cynnal y gwelliannau a sicrhawyd.

'Felly gallwch gael ateb i bobl ar bwynt neilltuol, ond os ewch yn ôl mewn tair blynedd, efallai nad yw'r atebion hynny bellach yn addas'
(Rhanddeiliad cenedlaethol)

Tueddai rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y we i fod yn gadarnhaol am rôl Cymunedau 2.0 wrth gefnogi newid cadarnhaol gan y trydydd sector yn y defnydd o dechnoleg, gan fod yn realistig i ba raddau yr oedd newidiadau o'r fath yn gynaliadwy.

Mae Tabl 22 yn dangos ymatebion i gwestiwn yn ymwneud â newidiadau i ddefnydd TGCh gan grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol: wedyn gofynnwyd i'r rhai a gredai fod grwpiau o'r fath wedi cynyddu eu defnydd o TGCh am gyfraniad Cymunedau 2.0 i'r newid yma, fel y dangosir yn Nhabl 23.

Tabl 22: I ba raddau y mae grwpiau cymunedol/mentrau cymdeithasol wedi newid eu defnydd o TGCh:

	Nifer		
	Cynyddu eu defnydd o TGCh i reoli eu sefydliadau	Cynyddu eu defnydd o TGCh fel dull ar gyfer cysylltu ag aelodau	Cynyddu eu defnydd o TGCh ar gyfer cyfathrebu'n ehangach a marchnata
Cynnydd sylweddol	12	18	15
Peth cynnydd	21	16	18
Dim cynnydd neilltuol	4	4	5
Dim cynnydd o gwbl	0	0	0
Dim yn gwybod	12	11	11

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o sefydliadau partner (sylfaen 50)

Tabl 23: I ba raddau mae Cymunedau 2.0 wedi cyfrannu at newidiadau yn y defnydd o TGCh

	Nifer		
	Cynyddu eu defnydd o TGCh i reoli eu sefydliadau	Cynyddu eu defnydd o TGCh fel dull ar gyfer cysylltu ag aelodau	Cynyddu eu defnydd o TGCh ar gyfer cyfathrebu'n ehangach a marchnata
Cyfraniad sylweddol	6	12	8
Peth cyfraniad	19	13	17
Dim cyfraniad neilltuol	2	3	1
Dim cyfraniad o gwbl	1	0	1
Dim o gwbl	5	6	6

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o sefydliadau partner (sylfaen=33/44)

Drwyddi draw, felly, roedd union hanner yr holl ymatebwyr i'r arolwg ar y we (25 i gyd) yn credu fod Cymunedau 2.0 wedi gwneud o leiaf beth cyfraniad i gynyddu'r defnydd o TGCh i reoli sefydliadau, i gysylltu ag aelodau ac ar gyfer cyfathrebu ehangach a marchnata, er yn gyffredinol teimlid nad oedd yn hyn helaeth iawn.

8.3.2 Effaith economaidd ar sefydliadau

Cymharol ychydig o dystiolaeth o effaith economaidd tymor hwy a roddodd ail don y cyfweiliadau gyda sefydliadau a gafodd gefnogaeth.

O'r 33 sefydliad y gwnaethom eu cyfweld am yr eildro, teimlai un fenter gymdeithasol fod gwella'r seilwaith a sgiliau TGCh wedi gwella'r sefydliad 'ym mhob maes', gan eu galluogi i weithredu gwell rheolaeth ariannol a defnyddio TGCh fel rhan o'u darpariaeth gwasanaethau. Ar gyfer y fenter gymdeithasol yma, bu'r gefnogaeth yn hanfodol fel sylfaen i'w dyfodol:

'Fyddai'r cwmni ddim wedi bod pe na fydden nhw wedi dod i mewn, roedd yn hollbwysig ... daeth y cymorth a'r grant ar yr amser cywir.'

Priodolodd cymdeithas tai gynnydd sylweddol mewn cyswllt gyda thenantiaid ar-lein, a oedd yn ei dro wedi cynyddu effeithiolrwydd gweithredol i'w buddsoddiad mewn cynhwysiant digidol, a gefnogwyd gan Cymunedau 2.0. Credai menter gymdeithasol arall (a ddynodwyd hefyd fel astudiaeth achos arfer da) fod ymyriad Cymunedau 2.0 wedi arwain at newidiadau sylweddol mewn effeithiolrwydd gweithredol a hefyd wedi'i galluogi i arddangos canlyniadau ei gweithgareddau ei hun gyda'i grŵp cleient, gan felly gryfhau ei mynediad i gyllid allanol:

'Mae wedi'n helpu gyda chyllid - gallwn ddangos ystadegau dilys a ffigurau mewn ffordd broffesiynol sydd wedi'n helpu i sicrhau cyllid'

Credai sefydliad gwirfoddol a chymunedol arall fod gosod Wi-Fi wedi cynyddu incwm y кафе, a dywedodd o leiaf chwe sefydliad arall yr ymddangosai fod gwefannau neu ddulliau cyfryngau cymdeithasol a ddatblygwyd gyda chefnogaeth y Rhaglen yn bwysig wrth ddenu aelodau neu gwsmeriaid.

Yn ystod y gwaith maes, fe wnaeth y sefydliadau hyn ddynodi ffyrdd y bu'r gefnogaeth o gymorth i hyfywedd ariannol yn yr ymylon, er enghraifft:

- Soniodd dwy fenter gymdeithasol mai dim ond drwy'r Rhaglen y daethant i wybod am y posibilrwydd o gael meddalwedd Microsoft yn rhatach drwy elusen Technology Exchange - gydag un ohonynt yn amcangyfrif fod hyn wedi arbed miloedd o bunnau i'r elusen. Dywedodd un arall fod yr offer TGCh a ddarparwyd ar gyfer gweithwyr symudol fel rhan o'r pecyn cefnogaeth (oedd wedi eu galluogi, er enghraifft, i gael cleientiaid i lofnodi gwaith papur priodol yn ystod ymweliadau cartref) wedi cynyddu eu heffeithiolrwydd ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn costau;

- Grŵp gwirfoddol a fu ag ymrwymiad i ddilyn prosiect cynhwysiant digidol ac a fyddai wedi symud ymlaen gyda hyn hyd yn oed heb gefnogaeth Cymunedau 2.0 a wnaeth arbedion sylweddol oherwydd i staff y Rhaglen eu cynghori ar offer rhatach ar gyfer straeon digidol nag y bwriadent ei brynu'n wreiddiol: roeddent i ddechrau wedi ystyried offer drud iawn ond dywedwyd wrthynt y gallent lawrlwytho meddalwedd am ddim ac mai dim ond y microffonau yr oedd yn rhaid iddynt eu prynu;
- Grŵp cymunedol bach, a fyddai oni bai am Cymunedau 2.0, wedi talu £1,000 i gwmni TG proffesiynol am wefan ac wedyn wedi gorfod talu am ddiweddarau'r wefan yn rheolaidd.

Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau, ni wnaeth y gefnogaeth unrhyw wahaniaeth amlwg yn nhermau eu perfformiad neu hyfywedd ariannol. Yn wir, mewn dwy fenter gymdeithasol lle'r oedd cyfweleion yn y cyfweiliad cyntaf wedi priodoli cynnydd mewn trosiant, elw ac (mewn un achos) gyflogaeth i'r hwb a gafwyd gyda'r cymorth gyda gwefannau newydd a defnydd cyfryngau cymdeithasol, awgrymodd yr ail gyfweiliadau y gellid dadlau fod pethau wedi mynd ar i nôl (er nad oedd hyn yn y naill achos na'r llall wedi cysylltu mewn unrhyw ffordd gyda rôl Cymunedau 2.0); felly roedd atyniad twristiaeth wedi gorfod dileu swyddi a bu gostyngiad mewn trosiant meithrinfa, er yn achos yma yma y credai'r cyfwelai fod eu gwefan a Facebook wedi bod o gymorth wrth recriwtio rhieni newydd ac yn debyg wedi atal gwaeth canlyniadau a diogelu swyddi:

'Bu'r llynedd yn flwyddyn wael i ni ... ond gallai fod wedi bod yn waeth'.

Mewn trydedd menter gymdeithasol, roedd gwefan newydd yn galluogi'r sefydliad i ddefnyddio e-fasnach i ddelio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid unigol wedi bod o hwb i drosiant i ddechrau ond erbyn yr ail gyfweiliad nid oedd yn cael ei defnyddio'n aml gan fod y busnes wedi dewis canolbwyntio ar ei fasnachu traddodiadol busnes-i-fusnes.

Nid oedd cefnogaeth ychwaith wedi arwain yn uniongyrchol at unrhyw fentrau cymdeithasol newydd; ni ddaeth uchelgais wreiddiol un cynllun digidol i

ddatblygu menter gymdeithasol gynaliadwy yn darparu gwasanaethau TGCh (oedd eisoes yn edrych yn anodd adeg cyfweiliad 2011) i ddim erbyn yr ail gyfweiliad, yn rhannol oherwydd bod yr amserlenni'n rhy fyr ac yn rhannol oherwydd anawsterau o fewn y sefydliad cynnal.

Fodd bynnag, roedd y sefydliad a oedd hefyd yn astudiaeth achos arfer da wedi llwyddo i ddechrau is-gwmni newydd cynhyrchu incwm, er na phriodolid hyn yn uniongyrchol i Cymunedau 2.0. Roedd gan drydydd sefydliad a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2013 uchelgais i ddechrau menter gymdeithasol newydd, ond ni allwyd cysylltu â'r sefydliad yma ar gyfer ail don y cyfweiliadau.

O'r mentrau cymdeithasol a gafodd gefnogaeth, dim ond un oedd wedi creu swyddi yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gefnogaeth a gafwyd, ac yn yr achos yma, medrid dweud ei fod wedi dadleoli cyflogaeth neu o leiaf waith o fewn y sector preifat.

Yn fwy cyffredinol, credai llawer o'r sefydliadau fod y gefnogaeth wedi cynyddu eu proffil a'u hygyrdd gyda chwsmeriaid, cleientiaid, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill: felly credai un grŵp cymunedol ymgyrchu fod presenoldeb deinamig a deniadol ar y we wedi'u helpu i sefydlu eu hygyrdd gyda'r Aelodau Cynulliad ac Aelod Seneddol lleol a Chynghorwyr - yn ogystal â hybu eu barn am eu hunain fel corff 'proffesiynol' - tra credai grŵp gwirfoddol arall fod nifer eu haelodau wedi cynyddu oherwydd eu gwefan newydd.

Gan droi at y sefydliadau y soniodd Cymunedau 2.0 amdanynt fel arfer da (a oedd fel y dywedwyd yn bennaf yn fentrau cymdeithasol), nodwyd yma nad oedd y cyfweleion yn gyffredinol yn amlygu canlyniadau sylweddol yn nhermau perfformiad ariannol. O'r wyth astudiaeth achos¹⁰⁶:

- Mewn tair, er yr ystyrid bod yr adolygiadau TGCh a gynhaliwyd yn werthfawr iawn, yn ymarferol nid oedd yr argymhellion wedi eu gweithredu (o leiaf nid hyd yma) ;

¹⁰⁶ Gan eithrio'r un a gyfwelwyd gyntaf yn 2013 fel rhan o'r ail gohort a ddewiswyd ar hap

- Mewn dwy, nid oedd y sefydliadau'n ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu incwm neu fasnachu;
- Mewn un, roedd ymgyfraniad Cymunedau 2.0 wedi arwain at welliannau sylweddol yn nhermau effeithiolrwydd gweithredu, ond roedd y sefydliad, oedd bellach wedi recriwtio gweithiwr TG proffesiynol, wedi symud ymlaen i lefel newydd;
- Mewn un, roedd y cymorth wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol yn nhermau effeithiolrwydd gweithredu a chynyddu galluedd y sefydliad i fasnachu mewn ffordd newydd, gyda nifer fwy o aelodau.

Roedd staff a rhanddeiliaid cenedlaethol yn gyffredinol yn tueddu i adleisio'r dystiolaeth o'r gwaith maes gan bwysleisio mai dim ond effaith cymedrol a gafodd ymyriad Cymunedau 2.0 o ran sicrhau bod sefydliadau trydydd sector yn gynaliadwy ac o ran effeithiau economaidd.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol gyda'r gefnogaeth i sefydliadau'n gyffredinol yn dweud fod yr Adolygiadau TGCh a gynhyrchwyd ganddynt yn aml yn dangos sut y gellid sicrhau twf ac effeithiolrwydd gweithredol, ond yn rhy aml o lawer ni weithredwyd ar eu cyngor oherwydd yr ystyrid fod yr opsiynau a gyflwynwyd yn rhy uchelgeisiol neu oherwydd bod y broses o geisio cyllid gan Cymunedau 2.0 yn or-feichus.


Fe wnaethant hwy a chyfweleion sôn am nifer o straeon llwyddiant, er enghraifft:

- Asiantaeth gofal, a gefnogwyd gan y Rhaglen i ddigideiddio ei system rota gwaith, yn galluogi staff i gael mynediad i'w rota gwaith heb orfod galw yn y swyddfa; Canolfan Gymnasteg Abertawe oedd wedi cyflwyno system archebu ar-lein gyda chefnogaeth y Rhaglen, gydag effaith ariannol sylweddol o fedru llenwi slotiau gwag ar fyr rybudd;
- Mudiad gwirfoddol bychan lle'r oedd gwirfoddolydd yn flaenorol wedi treulio dau ddiwrnod y mis yn ysgrifennu cyfeiriadau cefnogwyr gyda llaw ar amlenni a newid hynny am system oedd yn cymryd awr, gan felly ryddhau amser gwerthfawr ar gyfer darparu gwasanaeth.

Fodd bynnag, derbyniwyd nad oedd y rhain o reidrwydd yn nodweddiadol. Ar yr un pryd, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y gefnogaeth yn wirioneddol wedi 'trawsnewid' pethau i o leiaf rai o'r sefydliadau a gafodd gefnogaeth.

Yn nhermau'r arolwg ar y we o randdeiliaid lleol, ni allodd bron hanner yr ymatebwyr ddweud i ba raddau yr oedd y Rhaglen wedi cyfrannu at wneud mentrau cymdeithasol yn fwy proffidiol neu gynaliadwy ac o'r rhain a oedd, credai'r rhan fwyaf ei bod wedi gwneud peth cyfraniad, gyda dim ond tri ymatebydd yn credu fod hyn yn wir i raddau sylweddol (Ffigur 9).

Ffigur 9: I ba raddau y mae'r Rhaglen wedi helpu mentrau cymdeithasol i ddod yn fwy proffidiol neu gynaliadwy



8.4 Canlyniadau ar gyfer unigolion

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yng nghyswllt y canlyniadau ar gyfer unigolion yn sylweddol fwy cadarnhaol na'r rhai ar gyfer sefydliadau.


8.4.1 Newidiadau yn y defnydd o'r rhyngwrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg

Gan droi'n gyntaf at ganfyddiadau ton cyntaf yr arolwg ffôn, soniodd cyfweleion am newidiadau sylweddol yn eu defnydd o'r rhyngwrwyd ar ôl

derbyn cymorth gan Cymunedau 2.0, o gymharu â'r sefyllfa cyn ymgysylltu: mae cymhariaeth rhwng 'cynt' ac 'wedyn' ar draws y tri cohort yn awgrymu gwerth ychwanegol sylweddol yn nhermau symud cyfranogwyr i fyny 'ysgol ymgysylltu' (Ffigur 10).

Drwyddi draw, roedd y gyfran o fuddiolwyr nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl neu lai na unwaith yr wythnos wedi gostwng ar ôl cyfranogiad gan tua 37 y cant (216 o ymatebwyr), tra bod y ganran oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd 'y rhan fwyaf o ddyddiau' wedi cynyddu gan 29 y cant (164 o ymatebwyr).

Ffigur 10: Defnydd cynt ac wedyn o'r rhyngrwyd gan ymatebwyr yr arolwg




Ffynhonnell: Arolwg o 571 o gyfranogwyr yn 2011, 2013 a 2014

Cafodd y cynnydd mewn defnydd ei adlewyrchu gan gynnydd yn y gyfran a ddywedodd fod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi gyda 449 (79 y cant) yn dweud hyn o gymharu â 367 (64 y cant) cyn ymgysylltu a chynnydd yn y gyfran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cyfrifiaduron neu ddyfeisiau TGCh eraill yn rheolaidd (gyda 464 neu 81 y cant yn dweud eu bod yn defnyddio dyfeisiau o'r fath o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu gyda 250 neu 44 y cant cyn iddynt gymryd rhan).

Roedd y newid yn neilltuoel o amlwg ymysg buddiolwyr hŷn, gyda'r gyfran nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl neu'n ei defnyddio lai na unwaith yr

wythnos yn gostwng o 75 y cant cyn cymryd rhan (179 neu 239 o ymatebwyr) i 30 y cant wedyn (71 ymatebydd) fel y dangosir yn Ffigur 11.

Ffigur 11: Defnydd cynt ac wedyn o'r rhynggrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg 65 oed a throsodd



Ffynhonnell: Arolwg o 239 cyfranogydd 65 oed a throsodd yn 2011, 2013 a 2014

Mae cymariaethau gyda data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu, er bod y gyfran o fuddiolwyr yn dweud eu bod yn defnyddio'r rhynggrwyd cyn cymryd rhan (ar 54 y cant) yn sylweddol is nag ar gyfer y boblogaeth i gyd, roedd yn sylweddol uwch - ar 84 y cant - ar ôl cymryd rhan¹⁰⁷.

Yn wir, roedd y gyfran o fuddiolwyr yn ein harolwg a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhynggrwyd ar ôl cymryd rhan yn Cymunedau 2.0 yn uwch na'r gyfran o'r boblogaeth yn defnyddio'r rhynggrwyd yn y 20 y cant o ardaloedd lleiaf amddifadus yng Nghymru a mwy na 10 y cant yn uwch nag ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd yn y 20 y cant o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru¹⁰⁸. Mae'r ffigur hwn yn well byth o gofio am broffil oedran y buddiolwyr. Yn wir, ar gyfer rhai 65 oed ac uchod, roedd y gyfran o gyfweleion a

¹⁰⁷ Yn 2012/13 roedd 77% o'r holl boblogaeth yn defnyddio'r rhynggrwyd, a gynyddodd i 79% yn 2013/14

¹⁰⁸ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012/13: Cynhwysiant Digidol, t.21: roedd 72% o'r boblogaeth yn y cwntel o ardaloedd mwyaf amddifadus yn defnyddio'r rhynggrwyd o gymharu gyda 82% o'r boblogaeth yn y cwntel o ardaloedd lleiaf amddifadus.

ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar ôl cymryd rhan yn 77 y cant (184 o 239); mae hyn yn cymharu â dim ond 39 y cant a 44 y cant o'r rhai 65+ oed a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd yn Arolygon Cenedlaethol 2012/13 a 2013/14.

Hyd yn oed wedyn, ar ôl cymryd rhan, dywedodd lleiafrif o 90 (neu 16 y cant) o'r ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd: dywedodd y cyfan heblaw saith ohonynt nad oeddent wedi ei defnyddio ers cymryd rhan yn Cymunedau 2.0. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (61 o'r 90) yn bobl hŷn, yn cynrychioli 26 y cant o bawb 65 oed a throsodd.

Rhoddodd y lleiafrif hwn ystod amrywiol o resymau am beidio defnyddio'r rhyngrwyd gyda diffyg sgiliau (a nodwyd gan 28 neu draean o'r ymatebwyr hyn) y rhesymau y soniwyd amdanynt amlaf, efallai'n awgrymu fod ymyriadau weithiau â chyffyrddiad rhy ysgafn. Ymatebion eraill cymharol gyffredin oedd:

- Cost offer yn rhy uchel (21 neu 25 y cant o'r rhai nad oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd);
- Dim eisiau defnyddio'r rhyngrwyd (19 neu 23 y cant);
- Problemau iechyd yn ei wneud yn anodd (14 neu 17 y cant);
- Dim angen defnyddio'r rhyngrwyd (13 neu 16 y cant)
- Cost mynediad yn rhy uchel (11 neu 13 y cant)¹⁰⁹.

Roedd y rhan fwyaf yn defnyddio'r rhyngrwyd yn eu cartrefi - gyda 422 o ymatebwyr (neu 87 y cant o bawb a ddefnyddiai'r rhyngrwyd) yn dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn eu cartrefi¹¹⁰ ond 135 (28 y cant) yn dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd 'mewn man cyhoeddus arall e.e. llyfrgell, canolfan gymunedol, caffe rhyngrwyd'. Mae'n ddiddorol bod cohort 2011 yn llawer llai tebygol o ddefnyddio mannau cyhoeddus, unwaith eto efallai'n adlewyrchu fod y Rhaglen wedi ei thargedu mewn modd mwy addas ar y mwyaf difreintiedig yn ystod cam 2 ond hefyd efallai'n dangos fod offer a Wi-Fi

¹⁰⁹ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm

¹¹⁰ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb

ar gael yn ehangach. Dywedodd 75 o ymatebwyr (neu 15 y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd) eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y gwaith.

Cyfrifiaduron gliniadur yn y cartref a'r gwaith oedd y prif ffyrdd o gael mynediad i'r rhyngrwyd gyda dau-draean defnyddwyr rhyngrwyd yn nodi hyn (318 neu 65 y cant) fel y dangosir yn Nhabl 24¹¹¹.

Tabl 24: Ffyrdd o gyrchu'r rhyngrwyd

Gweithgaredd	Nifer	Canran
Cyfrifiadur desg	254	52
Gliniaduron yn y cartref neu'r gwaith	318	65
Ffôn symudol neu ffôn clyfar	110	23
Cyfrifiadur llaw (e.e. llechen, iPad, Palmtop)	89	18
Gliniadur heb fod yn y cartref na'r gwaith	43	9
Teledu digidol	34	7
Consol gemau	16	3
Arall	4	1

Ffynhonnell: Arolwg ffôn o fuddiolwyr yn 2011, 2013 a 2014 (571 sylfaen)

Yn ddiddorol, roedd y gyfran a ddefnyddiai ffonau clyfar yn parhau'n gymharol isel ym mhob cohort (efallai'n adlewyrchu cost/argaeledd contractau i gyrchu'r rhyngrwyd ar y ffôn).

Mae Tabl 25 yn rhoi manylion ymatebion yn nhermau'r rhesymau dros gyrchu'r rhyngrwyd am ddefnydd personol neu breifat¹¹²:

¹¹¹ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb

¹¹² Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb

Tabl 25: Rhesymau am ddefnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer defnydd personol neu breifat

Gweithgaredd	Nifer	Canran
Pori cyffredinol	448	92
E-bost	420	86
Canfod gwybodaeth am iechyd, llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus	329	67
Canfod gwybodaeth am nwyddau a gwasanaethau eraill (yn cynnwys gwyliau, teithiau hedfan, tai)	314	64
Prynu neu archebu tocynnau, nwyddau neu wasanaethau (heb gynnwys cyfranddaliadau a gwasanaethau ariannol)	242	50
Ystafelloedd sgwrsio, byrddau negeseuon, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu flogio (e.e. Facebook, Twitter)	197	40
Edrych am swyddi neu waith	184	38
Gwranddo ar y radio neu edrych ar raglenni teledu	178	36
Canfod gwybodaeth yn ymwneud â gwaith ysgol neu gwrs addysg	154	32
Darllen neu lawrlwytho newyddion ar-lein (yn cynnwys papurau newydd neu newyddion chwaraeon)	148	30
Chwarae neu lawrlwytho cerddoriaeth, gemau, llyfrau neu feddalwedd arall	147	30
Bancio personol, gweithgareddau ariannol a buddsoddi arall	137	28
Ffonio dros y rhyngwrwd/cynadleddau fideo	121	25
Gwerthu nwyddau neu wasanaethau ar-lein (e.e. drwy arwerthiannau ar-lein)	103	21

Ffynhonnell: Arolwg ffôn o fuddiolwyr yn 2011, 2013 a 2014 (571 sylfaen)

O gofio am gynnwys demograffig y sampl, dylid nodi'r defnydd cymharol uchel o'r rhyngwrwd ar gyfer chwilio am swyddi: yn wir, dywedodd 68 y cant o'r rhai o oedran gwaith a ddefnyddiai'r rhyngwrwd eu bod yn ei defnyddio yn y ffordd hon. Mae'r ffaith fod hanner yr ymatebwyr a ddefnyddiai'r rhyngwrwd yn gwneud hynny i brynu tocynnau, nwyddau neu wasanaethau yn awgrymu y bydd cyfran cymharol fawr o'r rhai a gefnogwyd gan yr holl Raglen wedi eu

galluogi i sicrhau mynediad sydd ar gael drwy sianeli ar-lein a drafodir ym Mhennod 2.

Er mai canfod gwybodaeth am iechyd, llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus oedd un o'r rhesymau a nodwyd amlaf am ddefnyddio'r rhyngwrwyd, dim ond lleiafrif o ymatebwyr ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd i gysylltu â Llywodraeth Cymru (97 neu 20 y cant o'r rhai a ddefnyddiai'r rhyngwrwyd, [17 y cant o'r holl sampl]) neu asiantaeth gyhoeddus arall neu awdurdod lleol (193 neu 40 y cant o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd [34 y cant o'r holl boblogaeth]). Mae'r ffigurau hyn yn amlwg is na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer defnyddwyr y rhyngwrwyd ar draws poblogaeth Cymru yn gyffredinol a gofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Fel y nodwyd ym Mhennod 1, mae ein gwaith arolwg hefyd yn cynnwys elfen hydredol er mwyn ymchwilio os cafodd buddion cymryd rhan yn Cymunedau 2.0 eu cadw: cynhaliwyd arolygon dilynol gyda chyfranogwyr, gyda chyfanswm o 304 wedi eu hail-gyfweld. Cymharwyd y rhain gyda'r ymatebion gan yr un cyfweleion yn nhon gyntaf y cyfweiliadau i leihau unrhyw dueddiad o barodrwydd cyfranogwyr i gael eu hail gyfweld.

Gan gymharu canlyniadau ymatebion i ail don yr arolwg gyda'r ymatebion i'r don gyntaf gan yr un 304 o ymatebwyr, yr argraff gref yw mai cymharol ychydig o newid a fu yn y defnydd o'r rhyngwrwyd gan yr unigolion hyn. I raddau helaeth iawn, gellir ystyried hyn fel rhywbeth cadarnhaol, gan i'r enillion a gofrestrwyd o gymryd rhan yn y Rhaglen gael eu cynnal yn gyffredinol (er nid gan bawb) er ei bod yn deg dweud tra bod rhai ymatebwyr wedi gwneud dysgu pellach yng nghyswllt TGCh, cymharol ychydig o dystiolaeth oedd o ddatblygiad pellach mewn sgiliau neu adeiladu ar y profiad.

Drwyddi draw, roedd gan 228 o'r ymatebwyr (75 y cant) fynediad i'r rhyngwrwyd yn eu cartrefi adeg yr ail gyfweiliad, o gymharu â 240 yng nghyfweliadau'r cylch cyntaf (er na roddodd chwe ymatebydd ateb clir i'r cwestiwn ar y cam ail-gyfweld) a dywedodd 234 (76 y cant) eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar hyn o bryd, o gymharu â 248 yn y cyfweiliadau cylch cyntaf (er na roddodd

pump ymatebydd ateb clir i'r cwestiwn ar y cam ail-gyfweld). Er bod hyn yn dangos cwmp bach mewn diddordeb gan leiafrif, mae serch hynny hefyd yn enilliad net o gymharu gyda phroffil gwreiddiol y cyfranogwyr hyn, gan fod 116 (53 y cant) wedi dweud cyn cymryd rhan eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Dywedodd 51 o ymatebwyr yr ail don nad oeddent erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd, tri yn llai nag a ddywedodd yr un peth adeg y don gyntaf o gyfweiliadau, gyda'r rhesymau a roddwyd yn debyg iawn i'r holl gyfranogwyr nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd ar ôl cymryd rhan.

Roedd ymatebion i gwestiwn amlder mynediad i'r rhyngrwyd yn dangos patrymau tebyg i gyfweiliadau'r don gyntaf, er y bu peth colli diddordeb ymysg lleiafrif cymharol fach a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llai aml ar y cam ail don, fel y dangosir yn Nhabl 26 islaw:

Tabl 26: Defnydd y rhyngrwyd gan ymatebwyr yr ail don o gymharu â'u hymateb gwreiddiol (rhif absoliwt, nid canrannau)¹¹³

Defnydd	Ail Don	Ton Gyntaf	Nifer
			Cyn Ymgysylltu
Dim yn defnyddio ar hyn o bryd	51	54	143
Llai aml nag unwaith yr wythnos	32	17	52
O leiaf unwaith yr wythnos	71	78	48
Y rhan fwyaf o ddyddiau	149	154	59
Dim ymateb	1	1	2

Ffynhonnell: Cyfweiliadau gyda'r un 304 cyfranogydd yn 2011, 2013, 2014 a 2015

Fel gyda'r don gyntaf o gyfweiliadau yn cyffredinol, fodd bynnag, ymddengys effaith net cyfranogiad mewn cynyddu amlder defnydd y rhyngrwyd yn glir. Roedd y rhan fwyaf yn defnyddio'r rhyngrwyd yn eu cartrefi¹¹⁴ (226 neu 90 y cant o bawb a ddefnyddiai'r rhyngrwyd, o gymharu â 230 yn nhon gyntaf y cyfweiliadau), gyda 50 (neu 20 y cant) yn defnyddio'r rhyngrwyd mewn man cyhoeddus megis llyfrgell (o gymharu gyda 69 yn y don gyntaf).

¹¹³ Sylfaen = 304

¹¹⁴ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio'r rhyngwrwd ar liniaduron¹¹⁵ (171 o ymatebwyr neu 68 y cant o'r rhai'n defnyddio'r rhyngwrwd) neu gyfrifiaduron desg (104 o ymatebwyr neu 41 y cant), ond gyda thueddiad cynyddol i ddefnyddio gliniaduron o gymharu gyda thon gyntaf y cyfweiliadau (mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r newid yn y gwahaniaeth yn pris rhwng y ddau) pan oedd y ffigurau hyn yn 162 a 128 yn yr un drefn.

Er yn dal i fod yn lleiafrif cymharol fach, roedd y gyfran o ddefnyddwyr y rhyngwrwd a ddefnyddiai ddyfeisiau llaw megis iPad wedi cynyddu gan 39 (13 y cant) yn y don gyntaf i 70 (28 y cant) erbyn yr ail don, tra bod defnydd o ffonau symudol i gyrchu'r rhyngwrwd wedi cynyddu'n fwy araf (o 47 neu 15 y cant i 55 neu 22 y cant): roedd sianeli eraill yn parhau'n brin.

Roedd rhai newidiadau yn y rhesymau am ddefnyddio'r rhyngwrwd (Tabl 27 islaw). Yn neilltuol, bu cynnydd mawr yn y defnydd ar gyfer lawrlwytho cerddoriaeth a gemau, darllen newyddion ar-lein a defnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer teleffoni, mae'n debyg yn adlewyrchu newidiadau mewn defnydd ehangach yn hytrach nag unrhyw beth penodol i gyfranogwyr yn y Rhaglen, gyda chynnydd cymedrol yn gyffredinol yn yr ystod defnyddiau gan yr ymatebwyr.

Roedd y nifer a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r rhyngwrwd i geisio gwybodaeth am neu i gysylltu â Llywodraeth Cymru wedi cynyddu o sylfaen isel (o 43 i 55 neu 18 y cant o'r holl ymatebwyr) ond roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd i gysylltu ag awdurdodau lleol neu wasanaethau cyhoeddus eraill wedi cynyddu i 107 (35 y cant) o gymharu â 102 adeg ton gyntaf y cyfweiliadau.

¹¹⁵ Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb

Tabl 27: Defnydd y rhyngrwyd ar gyfer gwahanol ddibenion gan gohortau 2011/2013 yn 2013/2014 (nifer absoliwt, nid canrannau)¹¹⁶

Diben	Ail Don	Nifer
		Ton Gyntaf
Pori cyffredinol	212	235
E-bost	204	221
Canfod gwybodaeth am iechyd, llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus	179	148
Canfod gwybodaeth am nwyddau a gwasanaethau eraill (yn cynnwys gwyliau, tocynnau hedfan, tai)	157	168
Prynu neu archebu tocynnau, nwyddau neu wasanaethau (heb gynnwys cyfranddaliadau a gwasanaethau ariannol)	134	124
Darllen neu lawrlwytho newyddion ar-lein	134	71
Ystafelloedd sgwrsio, byrddau negeseuon, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu flogio	106	89
Chwarae neu lawrlwytho cerddoriaeth, gemau neu feddalwedd arall	103	63
Gwranddo ar y radio neu edrych ar y teledu	99	81
Canfod gwybodaeth am waith addysgol neu gwrs addysg	72	69
Ffonio dros y rhyngrwyd/cynadleddau fideo	75	64
Bancio personol, gweithgareddau ariannol a buddsoddi	73	61
Edrych am swyddi neu waith	66	80
Gwerthu nwyddau a gwasanaethau	39	54

Ffynhonnell: Cyfweiliadau gyda'r un 304 cyfranogydd yn 2011, 2013, 2014 a 2015

8.4.2 Canlyniadau cadarnhaol eraill ar gyfer ymatebwyr i'r arolwg

Er y rhoddodd ymatebion buddiolwyr i'r arolwg ffôn ddarlun cadarnhaol iawn o i ba raddau yr oedd cyswllt gyda'r Rhaglen yn arwain at newid yn y defnydd o'r rhyngrwyd a TGCh yn fwy cyffredinol, rhoddodd ymatebwyr dystiolaeth hefyd o ganlyniadau cadarnhaol eraill yn nhermau hyder a chymhwysedd.

Gofynnwyd i gyfweleion y don gyntaf faint o wahaniaeth (ar raddfa 1-5 lle'r oedd un yn 'dim gwahaniaeth' a phump yn 'wahaniaeth sylweddol') a wnaeth cymryd rhan ac mewn ymateb:

- Dywedodd 71 y cant o ymatebwyr ei fod wedi gwneud gwahaniaeth amlwg (4 neu 5 ar y raddfa) i'w canfyddiad o ba mor ddefnyddiol y gallai fod;
- Dywedodd 64 y cant ei fod wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i'w barn o ba mor ddefnyddiol y gallai fod;
- Dywedodd 61 y cant iddo wneud gwahaniaeth amlwg yn eu hyder i ddefnyddio technoleg gwybodaeth;

¹¹⁶ Sylfaen = 176/178 (pawb oedd wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar unrhyw amser). Caniateid mwy nag un ymateb.

- Dywedodd 65 y cant iddo wneud gwahaniaeth amlwg yn eu dymuniad i ddefnyddio technoleg gwybodaeth;
- Dywedodd 55 y cant iddo wneud gwahaniaeth amlwg yn eu sgiliau i ddefnyddio technoleg yn effeithlon.

Efallai'n dangos y gyfran uwch o gohort 2014 oedd o oedran gwaith (gyda llawer wedi eu recriwtio drwy gydweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith), roedd ymatebwyr o'r cohort diwethaf hwn ychydig yn llai tebygol o ymateb yn gadarnhaol ar yr holl bwyntiau hyn ac eithrio'r dymuniad i ddefnyddio technoleg gwybodaeth, er heblaw am yr olaf o'r cwestiynau hyn roedd mwyafrif hyn yn oed o'r cohort yma'n nodi fod y gwahaniaeth yn o leiaf 4 ar y raddfa pum pwynt.

Hyd yn oed wedyn, ar draws y boblogaeth i gyd, dywedodd lleiafrif gweddol sylweddol nad oedd cymryd rhan wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'w dymuniad i ddefnyddio technoleg (80 neu 14 y cant), eu hyder (63 neu 11 y cant) neu eu sgiliau (73 neu 13 y cant) - er yn achos dymuniad, gall hyn wrth gwrs fod oherwydd bod ganddynt eisoes gymhellant cryf cyn cymryd rhan.

Yn nhermau cynnydd, dywedodd hanner holl ymatebwyr y don gyntaf (285 neu 50 y cant) fod cymryd rhan yn Cymunedau 2.0 yn bendant wedi'i gwneud yn fwy tebygol y byddent yn gwneud dysgu pellach yn gysylltiedig â sgiliau cyfrifiadur neu dechnoleg gwybodaeth, gyda 29 y cant arall (166) yn dweud fod hyn yn bosibilrwydd, gan adael lleiafrif o un ym mhob pump pellach na chredent iddo wneud hyn yn fwy tebygol.

Er y dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (328 neu 57 y cant) nad oedd y cwestiwn os oedd cymryd rhan wedi gwella eu rhagolygon swydd yn berthnasol iddynt (yn bennaf oherwydd eu hoedran) a 15 y cant arall (87 o ymatebwyr) nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth, credai dros chwarter yr holl gyfranogwyr un ai ei fod wedi eu gwneud yn fwy cyflogadwy (76 o ymatebwyr neu 13 y cant) neu eu gwneud 'ychydig yn fwy cyflogadwy' (73

neu 13 y cant): cynyddodd hyn i 52 y cant yn achos ymatebwyr rhwng 25 a 54 oed.

Gan droi at ail don yr arolwg, dywedodd 85 o'r 304 ymatebydd a gafodd eu hail-gyfweld (28 y cant) eu bod wedi gwneud mwy o gyrsiau neu ddysgu'n gysylltiedig â TGCh ers eu profiad dechreuol gyda Cymunedau 2.0, gyda thua hanner y rheiny'n dweud na fyddent yn bendant (22 neu 24 y cant) neu ei bod yn debyg na fyddent wedi gwneud hynny (15 neu 21 y cant) oni bai am eu hymwneud gyda Cymunedau 2.0¹¹⁷. Roedd y drydedd garfan o gyfweleion - y rhai a gyfwelwyd gyntaf yn 2014 - yn sylweddol llai tebygol o ddweud eu bod wedi gwneud mwy o ddysgu.

O'r 85 yma, dywedodd 38 (45 y cant) eu bod wedi mynychu mwy o gyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol a 25 (35 y cant) eu bod wedi dysgu sut i wneud pethau gan eu teulu a'u ffrindiau¹¹⁸, roedd pump (saith y cant) wedi gwneud cyrsiau ffotograffiaeth ddigidol a phedwar (chwech y cant) wedi gwneud dysgu'n gysylltiedig â Skype.

Yn nhermau effeithiau ehangach yn cynnwys y rhai'n gysylltiedig â'r farchnad lafur, nid oedd wrth gwrs yn realistig disgwyl i'r rhain fod yn amlwg iawn, gan mai dim ond lleiafrif o ymatebwyr yr ail don (137 neu 45 y cant¹¹⁹) oedd o oedran gwaith - gyda chyfanswm o 183 (60 y cant) o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi ymddeol - ond roedd ymatebion calonogol gan y nifer cymharol fach o gyn-gyfranogwyr a oedd mewn gwaith adeg ail don y cyfveliadau am rôl Cymunedau 2.0 wrth sicrhau eu swyddi cyfredol.

Roedd 60 (20 y cant) o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth adeg ail don y cyfveliadau, gyda 47 mewn cyflogaeth gyflogedig a 13 yn hunangyflogedig, cynnydd net o bump o gymharu gyda thon gyntaf y cyfveliadau: dywedodd saith ymatebydd y credent y bu gan y sgiliau TG a'r dysgu a wnaethant drwy

¹¹⁷ Dywedodd deg (12 y cant) y byddent yn bendant wedi gwneud hynny beth bynnag, gyda 25 arall (29 y cant) yn dweud ei bod yn debyg y byddent wedi gwneud hynny. Ni wyddai neu ni ddywedodd wyth (10 y cant).

¹¹⁸ Gallai ymatebwyr roi nifer o ymatebion.

¹¹⁹ Adeg cyfveliadau 2011, roedd 39 dan 65 oed, ond roedd dim llai na deg ohonynt wedi cyrraedd 65 oed yn y cyfamser.

Cymunedau 2.0 rôl bwysig wrth sicrhau eu swydd bresennol, gyda deg arall yn dweud y bu ganddynt ryw rôl ¹²⁰. O'r rhai nad oedd naill ai'n gweithio nac wedi ymddeol, dywedodd 38 (12 y cant o holl ymatebwyr yr ail don) eu bod yn ddi-waith, 14 (pump y cant) eu bod yn hirdymor wael neu anabl, pedwar (un y cant) eu bod yn astudio'n llawn-amser, tri (un y cant) eu bod yn gofalu am y cartref a dywedodd un eu bod yn 'gwneud rhywbeth arall'.

8.4.3 Canlyniadau ar gyfer unigolion: Barn rhanddeiliaid

Roedd rhanddeiliaid a chyfweleion astudiaethau achos cynlluniau digidol yn gyffredinol yn weddol hyderus o werth ychwanegol y Rhaglen, gan ddweud na fyddai cyfran sylweddol o'r buddiolwyr wedi canfod ffyrdd eraill i gael y sgiliau a'r wybodaeth a gynigiwyd, er y cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai cyfran wedi canfod ffyrdd eraill - er enghraifft, drwy deulu a chyfeillion - o wneud hynny. Ymhellach, credai rhai rhanddeiliaid, megis rhai o gyfweleion Canolfan Byd Gwaith yn ardaloedd astudiaethau achos (A, C) oni bai am y Rhaglen y byddent wedi gorfod talu i ddarparwyr gynnal cyrsiau mynediad sylfaenol ar gyfer ceiswyr swyddi, er mwyn ateb eu targedau anodd ar gyfer symud ceisiadau am Lwfans Ceiswyr Gwaith ar-lein.

Yn niffyg tystiolaeth megis yr hyn a gyflwynwyd yn ein harolwg, teimlai llawer o'r cyfweleion hyn nad oedd ganddynt wybodaeth am y cwestiwn hanfodol o i ba raddau yr oedd yr enillion yn nhermau hyder a chymhwysedd y credent oedd yn cael eu gwneud drwy'r Rhaglen yn debygol o gael eu cynnal gan unigolion dros y tymor hwy, gyda rhai'n amau os oedd ymyriadau lefel isel yn debygol o arwain at newidiadau hirdymor mewn ymddygiad - er y dywedodd llawer ohonynt y gallent roi enghreifftiau lle'r oedd ymgysylltu gyda'r Rhaglen wedi arwain at foment 'bwlb golau' ar ran cyfranogwyr unigol. Dywedwyd bod hynny yn ei dro wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn cynnwys gostwng arwahanrwydd cymdeithasol a'r mathau o effeithiau economaidd a drafodwyd ym Mhennod 2.

¹²⁰ Dywedodd 12 na fu ganddo rôl ac ni wyddai pump.

Fodd bynnag, roedd cyfweleion (yn neilltuol y rhai agosaf at y materion hyn) yn gyffredinol fwy hyderus fod cymorth i geiswyr swydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn nhermau eu hyder yn defnyddio'r rhyngrwyd fel dull o edrych am waith a hefyd eu cyflogadwyedd. Dywedodd cyfweleion Canolfan Byd Gwaith y bu Cymru yn gyson â'r gyfradd uchaf neu ail uchaf o wneud ceisiadau Lwfans Ceiswyr Gwaith ar-lein, a gyda 70 y cant o swyddi'n awr yn cael eu hysbysebu ar-lein yn unig, credid y byddai'r lefel yma o lythrennedd digidol yn llifo trwodd i ganlyniadau cyflogaeth cadarnhaol. Nodwyd hefyd fod gan fynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd fuddion eraill, megis mynediad i well gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, a ostyngai'r canfyddiad fod rhai swyddi yn anhygyrch i geiswyr swyddi.

Ymhellach, gallodd staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn ogystal â rhai o'r cyfweleion astudiaethau achos cynlluniau digidol sôn am enghreifftiau cadarnhaol o deithiau personol gan unigolion di-waith oedd wedi ymuno â phrosiectau fel gwirfoddolwyr ac wedi sicrhau sgiliau, hyder a CVs cryfach oedd wedi'u galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth. Yn rhannol fel canlyniad i hyn, roedd llawer o gyfweleion yn llawer mwy cadarnhaol fod y Rhaglen wedi cyfrannu at nifer sylweddol o ganlyniadau cyflogaeth cadarnhaol nag at greu swyddi.

'Rwy'n sicr fod yr ymyriadau yr ydym wedi'u cefnogi wedi arwain at i lwythi o bobl gael swyddi' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Ar yr un pryd, mynegodd nifer o randdeiliaid rwystredigaeth na wnaed fawr i fonitro canlyniadau o'r fath yn ffurfiol, gan nad oeddent yn darged ffurfiol ar gyfer y Rhaglen ac oherwydd y bu'r Ganolfan Byd Gwaith yn amharod i rannu data ar gynnydd unigolion oedd yn edrych am swyddi.


Yn nhermau dilyniant i ddysgu pellach, dywedodd mwyafrif helaeth y rhanddeiliaid a'r cyfweleion yn yr astudiaethau achos cynhwysiant digidol nad oedd hon yn ffordd addas i farnu llwyddiant neu aflwyddiant y gwaith gydag unigolion. Credai'r cyfweleion hyn fod pwysigrwydd y mathau o gefnogaeth ac ymyriad a gynigwyd gan Cymunedau 2.0 yn benodol oherwydd ei fod yn anffurfiol ac yn rhwydd cael mynediad iddo ac y gallai apelio at unigolion oedd

â phrofiad negyddol yn unig o addysg ffurfiol. Gan hynny, credent er y gallai lleiafrif cyfranogwyr fod wedi bod â diddordeb mewn mynd â'u dysgu ymhellach - fel yr awgrymwyd yn yr arolwg - roeddent yn annhebygol o ddymuno dilyn dysgu ffurfiol seiliedig ar gymwysterau mewn gosodiad addysg bellach, yn neilltuol gan fod y rhain fel arfer yn codi ffioedd. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith fod y Rhaglen - nid yn lleiaf drwy swyddogaeth 'Cysiau cyfrifiadur yn agos atoch chi' ar y wefan - yn ei gwneud yn bosibl cyfeirio pobl at ddarpariaeth o'r fath. Ymhellach, mewn nifer o'r cynlluniau digidol astudiaeth achos, fe wnaeth y tîm hefyd drefnu i'r coleg lleol roi cyflwyniad ar gyfleoedd dysgu pellach ar ddiwedd y cysiau Clic Cyntaf.

Ar yr un pryd, nododd rhai staff a rhanddeiliaid fod yr ymgyrch genedlaethol a gyflwynwyd ym mlwyddyn olaf y Rhaglen wedi'i seilio o amgylch defnyddio staff darparwyr mwy ffurfiol i gyflwyno darpariaeth Cymunedau 2.0 mewn lleoliadau cymunedol a chredid y byddai hyn wedi rhoi cyfle i weld os byddai cyfran uwch o gyfranogwyr yn ymateb i hyrwyddo cyfleoedd dysgu pellach hyd yn oed yn fwy rhagweithiol.

Rhoddodd rhanddeiliaid lleol a ymatebodd i'r arolwg ar y we asesiad calonogol yn gyffredinol o'r canlyniadau ar gyfer unigolion, gyda mwyafrif helaeth yn credu y bu'r Rhaglen yn llwyddiannus wrth ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn technoleg (Ffigur 12).

Ffigur 12: Llwyddiant y Rhaglen wrth ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn technoleg




Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar yr ymatebion hyn, esboniodd 27 o ymatebwyr pam y credent iddi fod yn llwyddiannus, gan gyfeirio'n fwyaf aml at llwyddiant defnyddio llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol 'anfygythiol' eraill (a nodwyd gan bum ymatebydd) ac 'ansawdd ac empathi'r staff' (gan bedwar o ymatebwyr).

Credai bron hanner yr holl ymatebwyr y bu'r Rhaglen un ai'n llwyddiannus iawn (saith) neu'n weddol llwyddiannus (17) wrth ennyn diddordeb cyfranogwyr i fynd i ddysgu pellach yn gysylltiedig â TGCh, gyda mwyafrif yr ymatebwyr eraill (19 i gyd) yn dweud na fedrent roi sylw, tra credai tri-chwarter yr ymatebwyr y byddai'r Rhaglen wedi cyfrannu at helpu pobl i ennill sgiliau TG a fyddai'n eu gwneud yn fwy cyflogadwy (Ffigur 13).

Ffigur 13: Llwyddiant y Rhaglen wrth wneud buddiolwyr yn fwy cyflogadwy

Nifer



Ffynhonnell: Arolwg ar y we o sefydliadau partner (sylfaen = 50)

9.0 Canfyddiadau: Y dyfodol

Yn y bennod fer hon ystyriwn farn rhanddeiliaid a chyfweleion astudiaethau achos am y dyfodol¹²¹.

Canfyddiadau allweddol

Roedd amrywiaeth barn am yr angen am a siâp unrhyw Raglen yn y dyfodol, er y credai llawer o gyfweleion y dylid integreiddio cefnogaeth ar gyfer mentrau cymdeithasol gyda chefnogaeth busnes fwy cyffredinol ac y dylai unrhyw Raglen newydd ganolbwyntio mwy ar gefnogi cynhwysiant digidol unigolion yn hytrach na sefydliadau.

Roedd yn debygol y byddai rhai elfennau o rai o'r cynlluniau digidol yn cael eu cynnal hyd yn oed pe na byddai rhaglen ganolog yn y dyfodol, ond credai'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr fod angen o leiaf adnodd canolog i ysgogi cynlluniau lleol, dod â phartneriaid ynghyd a chyfnewid arfer da rhwng ymarferwyr cynhwysiant digidol. Awgrymodd rhai cyfweleion hefyd fod angen gweithredu mwy cadarn i sicrhau mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer adrannau tlotaf cymdeithas, yn arbennig y rhai mewn tai cymdeithasol.

Efallai nad yw'n syndod y credai llawer o'r staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a rhai rhanddeiliaid cenedlaethol eraill fod yr angen yn parhau am Cymunedau 2.0 fel yr oedd, ar y sail fod gan y Rhaglen yn awr fomentwm sylweddol ac y collid hyn pe byddid yn dod â hi i ben, hyd yn oed os cyflwynid cynllun tebyg yn ddilynol.

'Mae'r Rhaglen yn dechrau cael effaith go iawn nawr .. byddai'n drueni dod â hi i ben yn awr ... mae'r Rhaglen wedi addasu a dylid ei pharhau fel hynny fel y byd ar-lein, yn addasu drwy'r amser' (Cyfrannydd grŵp ffocws staff)

¹²¹ Mae'n bwysig tanlinellu y casglwyd tystiolaeth rhanddeiliaid yn ystod 2014 cyn penderfyniad y Gweinidogion i lansio Rhaglen newydd, Cymunedau Digidol Cymru, i adeiladu ar waith Cymunedau 2.0. Gweler: <http://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2015/150317-digital-inclusion-project/?lang=en>

Deallai rhai aelodau eraill o staff a rhanddeiliaid cenedlaethol fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwyddion cryf nad oedd cynllun ar raddfa debyg yn cael ei ystyried (nid yn lleiaf oherwydd y credid ei bod yn annhebygol y byddai arian ERDF ar gael ar raddfa debyg yn y dyfodol) a rhoi sylwadau yng ngoleuni'r hyn a welid fel fait accompli. Er y credai rhai bod hyn yn drueni, dywedodd lleiafrif sylweddol yn y cyd-destun - yn nhermau'n neilltuol y diddordeb cynyddol mewn cynhwysiant digidol ar ran ystod eang o sefydliadau cyhoeddus ac i ryw raddau'r trydydd sector - nad oedd mwyach angen Rhaglen o faint ac uchelgais Cymunedau 2.0: yn lle hynny yr uchelgais ddylai fod i annog 'prif ffrydio' gweithgareddau cynhwysiant digidol o fewn sefydliadau eraill, yn arbennig Cymunedau yn Gyntaf, awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol, a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Credai'r cyfweleion hyn ac yn wir rai rhanddeiliaid eraill bod achos cryf dros ddadgyplu'r gwaith gyda sefydliadau o hyrwyddo cynhwysiant digidol i unigolion.

'Ni ddylai [Rhaglen yn y dyfodol] geisio ei wneud o gwbl' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Roeddent yn cydnabod, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Rhaglen, na fu'r cysylltiad rhwng y gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol a'r gwaith gydag unigolion yn gryf.

Dywedodd y cyfweleion hyn y dylai meithrin gallu mentrau cymdeithasol i ddefnyddio ac ymelwa ar TGCh gael ei integreiddio yn y dyfodol gyda'r cynnig cymorth busnes mwy generig i fentrau cymdeithasol neu i fentrau micro yn fwy cyffredinol: yn wir roedd Canolfan Cydweithredol Cymru eisoes mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a WEFO ar y sail yma. Yn yr un modd, dylid integreiddio cefnogaeth ariannol barhaus ar gyfer yr offer TGCh, datblygu gwefannau ac ati gyda pha bynnag gynlluniau grant bach oedd ar gael dan y cylch newydd o raglenni cronfa strwythurol.

Roedd y farn yn fwy amrywiol mewn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol eraill. Roedd yn sicr gydnabyddiaeth gyffredinol fod angen sylweddol yn parhau am gefnogaeth o fewn y sector (gydag un cyfwelai yn ofni argyfwng wrth i gyfrifiaduron personol a ddefnyddiai system weithredu XP, oedd yn dal yn gyffredin iawn yn y sector, ddechrau methu) - ac yn wir, ei bod yn natur y sector y byddai anghenion o'r fath yn parhau am byth. Ond er y teimlai nifer fechan o gyfweleion y dylid integreiddio cefnogaeth gyda gwasanaethau cefnogaeth mwy cyffredinol o 'seilwaith' y sector gwirfoddol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol), roedd eraill yn amau os oedd hyn yn realistig, tra credai rhai bod angen ffrwd cyllid grant tebyg i'r hyn a fu ar gael ar gyfer mentrau cymdeithasol yn unig o Cymunedau 2.0.

Gan droi at hyrwyddo cynhwysiant digidol ar gyfer unigolion, roedd llawer o randdeiliaid, yn ogystal â llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos cynhwysiant digidol, er yn gadarnhaol iawn am yr hyn a gyflawnwyd, yn cydnabod i ryw raddau fod y gwaith caletaf yn dal ar ôl: bron drwy ddiffiniad, yr unigolion nad oedd Cymunedau 2.0 wedi cyffwrdd arnynt hyd yma oedd y rhai anoddaf eu cyrraedd, yn arbennig y rhai gydag anableddau penodol, pobl oedd yn gaeth i'w cartrefi a'r rhai heb fawr iawn o hyder. Er hyn, neu efallai o'i herwydd, teimlai rhai rhanddeiliaid y byddai'n haws i unigolion a chyrff oedd eisoes â rhesymau eraill i gysylltu gyda hwy gyflawni hyn yn hytrach na thrwy gynllun ar wahân, a bod nifer o'r sefydliadau hyn yn awr wedi sylweddoli, nid yn lleiaf drwy waith Cymunedau 2.0, bod hyn yn bwysig hefyd ar gyfer eu hagendâu eu hunain.

Yn neilltuol, er y teimlid fod ymrwymiad darparwyr tai cymdeithasol braidd yn ddarniog, dywedwyd bod cynhwysiant digidol yn gynyddol yn cael ei gydnabod fel bod yn sylfaenol bwysig i sicrhau referniw a gostwng costau gweinyddol yn y dyfodol. Yng nghyd-destun un o'r astudiaethau achos (C), ymhellach, nodwyd fod un Cyngor wedi dechrau ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Cefnogi Pobl roi adroddiad yn ôl yn rheolaidd ar yr hyn a wnaethant i sicrhau fod gan denantiaid sgiliau TGCh priodol a mynediad i'r rhyngwyd ac ystyriwyd bod hyn yn fodel posibl i eraill.

Yn yr un modd, mewn llawer o ardaloedd roedd clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu ar bwysigrwydd hyrwyddo cynhwysiant digidol fel rhan o faes gwrthdlodi'r gwaith: dywedwyd fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa gref i ymwreiddio hyn ymhellach fyth.

Yn nhermau ceiswyr swyddi, nododd nifer o gyfweleion fod ailddatblygu mawr yn mynd rhagddo lle byddai rhan o bob Canolfan Gwaith â Wi-Fi llawn a chymysgedd o gyfrifiaduron personol a llechi, lle gallai ceiswyr swydd gael mynediad i'r rhyngwrdd ar y safle, gyda chefnogaeth gan staff oedd wedi eu hyfforddi'n arbennig: hyd yn ddiweddar iawn bu'n amhosibl i gynghorwyr ddangos sut i ddefnyddio gwefan UJM, er enghraifft, oherwydd lefelau rheolaeth ar fynediad digidol (er enghraifft, peidio medru gwneud chwiliad ar y we am 'dai tafarn' oedd wedi'i gwneud yn anodd dynodi swyddi yn y sector lletygarwch).

Ystyriwyd bod llyfrgelloedd hefyd wedi trawsnewid yn nhermau eu hymagwedd at gynhwysiant digidol, gyda rheolwyr a staff yn deall fod ail-ddyfeisio llyfrgelloedd fel canolfannau rhyngwrdd cymunedol yn helpu i ddangos eu pwysigrwydd parhaus fel adnodd cymunedol ar adeg o doriadau mawr. Er y teimlai llawer fod cynnydd mewn awdurdodau lleol mewn mannau eraill yn ddarniog, roedd peth sail dros fod yn obeithiol fod cynhwysiant digidol yn cael ei brif ffrydio mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin lle datblygwyd modiwl hyfforddiant ar gynhwysiant digidol. Gobeithid y byddai hyn yn cael ei ymestyn i'r holl staff oedd â chysylltiad rheng-flaen gyda'r cyhoedd.

Yn y cyd-destun hwn, teimlai rhai cyfweleion fod angen i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd drwy'r cynlluniau digidol yn nhermau cymell a defnyddio'r math yma o ddatblygiad. Nodwyd fod Cymunedau 2.0 yn ei flwyddyn olaf wedi lansio cynllun mawr i gynnig hyfforddiant mewn cynhwysiant digidol i staff rheng-flaen o ystod eang o sefydliadau (gyda pheth o'n gwaith maes gyda chynlluniau digidol yn awgrymu yr ystyrid hyn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn): roedd hyn wedi

llwyddo yn gyfangwbl i hyfforddi tua 200 o staff rheng-flaen o lyfrgelloedd, cymdeithasau tai a sefydliadau eraill.

Ar yr un pryd, roedd nerfusrwydd na fedrid gwarantu cynaliadwyedd cynlluniau o'r fath yng nghyd-destun y pwysau i ostwng gwariant cyhoeddus.

Cadarnhawyd hyn gan dystiolaeth o bum cynllun digidol: mewn un oedd eisoes wedi cau (B), roedd y momentwm i raddau helaeth wedi ei golli (dan arweiniad sefydliad o'r trydydd sector), gydag unigolion a ofynnai am gefnogaeth yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth mewn coleg addysg bellach (y codid ffi amdani) ac mewn o leiaf un arall (A - a arweinid gan Gyngor Gwirfoddol Sirol), roedd yn anhebygol y byddai'r gweithgaredd yn parhau ar yr un lefel. Fodd bynnag, mewn dau arall (C a D) - un dan arweiniad awdurdod lleol ac un arall dan arweiniad cymdeithas tai - roedd cryn optimistiaeth y byddid yn cynnal o leiaf peth o'r gweithgaredd, er yn rhannol drwy gyrchu cyllid allanol (o'r Loteri Fawr a Cymunedau yn Gyntaf) tra mewn pumed (E - dan arweiniad sefydliad trydydd sector), gobeithid hefyd y gellid symud ymlaen â gweithgaredd gyda chefnogaeth cyllid allanol.

Er mewn o leiaf dri achos roedd cynlluniau digidol wedi datblygu carfan o wirfoddolwyr, roedd rhanddeiliaid yn yr astudiaethau achos hyn a rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod yn eang nad oedd gwirfoddolwyr o'r fath yn hollol hunangynhaliol: roeddent angen seilwaith cefnogaeth, anogaeth a throsolwg, a byddai hefyd angen parhaus neu ysbeidiol i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd i gymryd lle'r rhai oedd yn gadael i fynd i gyflogaeth neu ddim ond oherwydd newidiadau mewn blaenoriaethau ac ymrwymadau.

Hyd yn oed lle credai rhanddeiliaid a chyfweleion eraill nad oedd yn briodol cael olynydd i Cymunedau 2.0 oedd yn rhoi cyllid i weithgareddau lleol, teimlid yn gyffredinol fod angen rhyw fath o adnodd cynhwysiant digidol canolog parhaus ar gyfer Cymru i ysgogi cynlluniau lleol, dod â phartneriaid ynghyd a chyfnewid arfer da rhwng ymarferwyr cynhwysiant digidol. Fel arall roedd risg y byddai cynlluniau lleol yn parhau i 'ailddyfeisio'r olwyn', neu y gadewid i

swyddogion cynhwysiant digidol unigol weithio ar ben eu hunain mewn sefydliadau mawr.

‘Os ydych chi’n colli’r rôl gydlynw ganolog, yna mae gen i ofn ei fod yn mynd i fethu a mynd allan o’r ffenestr’ (Cyfrannydd i grŵp ffocws staff)

Dyweddodd rhai y gallai hyn hefyd roi cartref parhaus ar gyfer yr adnoddau a ddatblygwyd gan y Rhaglen (yn cynnwys adnodd 'byw' 'Cyrsgiau cyfrifiadur yn eich ymyl chi') oedd fel arall mewn risg o ddim ond cael eu rhoi mewn archif.

Awgrymodd nifer o randdeiliaid hefyd, er bod y ffocws ar feithrin sgiliau, hyder a chymhwysedd yn allweddol i gynhwysiant digidol yn parhau'n briodol, roedd materion sylweddol oedd angen eu trin yng nghyswllt mynediad i'r rhyngwrdd. Fel y nodwyd eisoes, teimlai nifer o gyfweleion fod darparwyr tai cymdeithasol yn neilltuol, er trafodaethau ar hyn, wedi methu hyd yma i fynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod mynediad cyffredinol i Wi-Fi, o gofio am y problemau oedd gan lawer o unigolion oedd wedi eu hallgáu'n ddigidol (a chymdeithasol) wrth sicrhau a fforddio contractau gyda darparwyr gwasanaeth rhyngwrdd:

‘Fe ddylen nhw roi Wi-Fi i mewn fel maen nhw’n rhoi dŵr i mewn, ond dydyn nhw ddim yn gweld hynny eto, maen nhw'n ei weld o fel cost’
(Rhanddeiliad cenedlaethol)

Fodd bynnag, credai o leiaf ddau gyfweleir arall nad oedd gan gymdeithasau tai yr arbenigedd technegol na'r pwysau negodi oedd angen i sicrhau cytundeb addas gyda darparwyr, gydag un yn dadlau fod angen i Lywodraeth Cymru gymryd yr awenau a'r llall y dylai Cymunedau 2.0 ei hunan fod yn rhagweithiol, gan ddefnyddio ei 'alluoedd technegol'.

Roedd ymatebion gan randdeiliaid lleol i'r arolwg ar y we i raddau helaeth yn adleisio'r farn rywfaint yn gymysg am gynaliadwyedd yn y dyfodol. Pan ofynnwyd iddynt os byddai eu gweithgareddau cynhwysiant digidol eu hunain yn cael eu parhau, credai mwyafrif clir y byddent (gweler Tabl 28).

Tabl 28: Tebygrwydd y bydd gweithgareddau cynhwysiant digidol yn cael eu cynnal

		Nifer
Ymateb	Nifer ymatebwyr	
Tebygol iawn	13	
Gweddol debygol	19	
Dim yn debygol iawn	11	
Dim yn debygol o gwbl	2	
Dim yn gwybod	4	

Ffynhonnell: Arolwg ar y we o Sefydliadau Partner (sylfaen 50)

Pan ofynnwyd iddynt sut y byddai gweithgareddau yn cael eu hariannu yn y dyfodol, dywedodd o leiaf 10 ymatebydd y credent y byddai eu sefydliadau eu hunain yn ariannu parhau gweithgareddau er y dywedodd un 'byddwn yn cael hyn yn anodd', tra credai dau y byddai gweithgareddau'n cael eu darparu gan wirfoddolwyr ac na fyddent angen cyllid a chredai dau y byddai gweithgareddau'n targedu ceiswyr swydd yn cael eu cefnogi gan y Ganolfan Byd Gwaith a chymdeithasau tai. Gobeithiai cyfanswm o naw ymatebydd gael mynediad i ryw fath o gyllid allanol i gefnogi gweithgareddau gyda phedwar yn sôn am ffynonellau penodol (gwahanol).

Er hyn, credai mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r arolwg ar y we (42 i gyd) fod angen Rhaglen olynol (credai dau nad oedd angen hyn a dywedodd pedwar na wyddent).

10.0 Casgliadau ac argymhellion

10.1 Casgliadau

Wrth i raglen Cymunedau 2.0 ddod i ben, mae'n amlwg i'r rhaglen barhau'n berthnasol mewn cyd-destun polisi sydd wedi newid. Yn wir, mae'r pwysau cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn neilltuol i symud darpariaeth gwasanaeth (yn arbennig yn gysylltiedig â budd-daliadau) i fod ar-lein wedi tanlinellu pwysigrwydd hanfodol cynhwysiant digidol fel rhan o strategaeth gwrthdlodi gydlynol ac wedi helpu i ysgogi diddordeb buddiolwyr posibl yn ogystal â sefydliadau eraill.

Ymddengys yn glir o'r gwaith maes a wnaethom y bu tîm rheoli'r Rhaglen yn hyblyg yn y ffordd y symudodd ymlaen â'r Rhaglen er mwyn addasu ac yn wir fanteisio ar y newid mewn amgylchiadau. Ymddengys y gwnaed y newidiadau a gyflwynwyd ar ddechrau cam 2, gyda ffurfio'r timau ardal, mewn modd effeithiol a phriodol a bu'r cynlluniau digidol, yn neilltuol, yn elfen newydd bwysig a llwyddiannus, sydd wedi ymestyn cyrraedd y Rhaglen a hefyd ddechrau datblygu carfan o staff a gwirfoddolwyr o fewn sefydliadau eraill a fedrid, o'u meithrin yn addas, yn rhannol o leiaf fod yn hunangynhaliol. Er na fu maint y newid angenrheidiol bob amser yn rhwydd i'r staff, mae'n amlwg fod y partneriaid darparu wedi ymateb i'r her. Bu'r berthynas rhwng Canolfan Cydweithredol Cymru fel y partner arweiniol, yr Uned Cynhwysiant Digidol a WEFO hefyd yn effeithlon.

Fodd bynnag, mae hefyd yn glir fod pwysau'r Rhaglen wedi newid yn bendant yn ystod cam 2 tuag at yr ymdrech i hyrwyddo cynhwysiant digidol i unigolion. Er gwaethaf ymdrech gryfach mewn blynyddoedd diweddar i ddefnyddio'r gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (ac i raddau llai, fentrau cymdeithasol) fel modd o gyrraedd unigolion wedi eu hallgáu'n ddigidol, yn hytrach na dim ond diwallu'r anghenion a fynegwyd ganddynt o ran cefnogaeth TGCh, mae'r cyswllt rhwng y gwahanol elfennau (unigolion, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol) y Rhaglen wedi parhau rywfaint yn denau.

I ryw raddau caiff hyn ei adlewyrchu yn y perfformiad ar y targedau a gytunwyd, er yn gyffredinol gwnaeth y Rhaglen yn gymharol dda, o gofio y cafodd y targedau a gytunwyd yn wreiddiol gyda WEFO a Llywodraeth Cymru yn gyffredinol eu cynyddu yn hytrach na'u gostwng. Mae'r perfformiad yng nghyswllt buddiolwyr unigol yn arbennig o dda, er mewn rhai achosion y gall y cyswllt gyda'r Rhaglen fod wedi bod yn gynnil. Mae perfformiad yng nghyswllt mentrau newydd a grëwyd rywfaint yn siomedig o'i gymharu - er nad oes gennym unrhyw reswm dros gwestiynu'r ddadl fod y Rhaglen wedi dioddef oherwydd y rheolau am gyfrif dwbl a blaenoriaeth prosiectau eraill cymorth busnes i fentrau cymdeithasol yn nhermau hawlio'r allbynnau hynny - megis yr un ar y swyddi newydd a gafodd eu creu.

Bu cryn welliant yn nhermau'r perfformiad ar y targedau themâu trawsbynciol ac mewn gwirionedd, mae'r gyfran o'r holl fentrau a gafodd gymorth a gafodd hefyd gefnogaeth ar bolisiâu cydraddoldeb ar gydraddoldeb a/neu reoli'r amgylchedd yn rhesymol dda. Ymhellach, mae'r data monitro yn awgrymu fod y gwaith gydag unigolion wedi llwyddo'n dda wrth gysylltu gydag ystod amrywiol o bobl.

Yn nhermau canlyniadau, mae ein hymchwil ansoddol gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn rhoi darlun rywfaint yn gymysg. Ymddangosai mai ychydig o ganlyniadau caled sydd - yn nhermau'r swyddi a grëwyd, cynnydd mewn trosiant ac elw a llai o ddibyniaeth ar grantiau, er bod y rhan fwyaf o sefydliadau yn llawn canmoliaeth am y gefnogaeth a gawsant ac yn gallu dynodi o leiaf fuddion tymor byr yn nhermau effeithiolrwydd gweithredu a chydnerthedd: roedd hefyd yn glir ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau a gafodd gefnogaeth, y gwrthffeithiol fyddai rhygnu ymlaen (efallai gyda chanlyniadau negyddol difrifol) neu gael help drutach a llai addas gan y sector preifat.

Fodd bynnag, dangosodd elfen hydredol yr ymchwil mewn gwirionedd, mai anaml y mae'r math o gefnogaeth i sefydliadau trydydd sector yn drawsnewidiol a gall hefyd fod ag oes silff fer, o gofio am y newid cyflym mewn technoleg a'r trosiant yn aml sydd yr un mor gyflym mewn staff ac

aelodau Bwrdd sefydliadau o'r fath. Er gwaethaf ymdrechion gwirioneddol - yn arbennig yng nghanam 2 - i feithrin gallu o fewn sefydliadau i reoli TGCh yn ogystal â rhoi datrysiadau i broblemau uniongyrchol, ac er gwaethaf dull llawer mwy trwyadl ar weithredu strategol drwy'r Adolygiad TGCh, ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau a welsom, nid oedd y gefnogaeth gan Cymunedau 2.0 yn rhoi datrysiadau hirdymor; medrid dadlau ei bod yn afrealistig disgwyl iddi wneud hynny.

Ymhellach, er bod mentrau cymdeithasol a dderbyniodd becynnau cefnogaeth yn gyffredinol yn fodlon iawn, mewn rhai achosion tybid fod y broses yn orfeichus (o gymharu gyda chynlluniau grant eraill sydd ar gael i fentrau micro), barn a adleisiwyd gan y staff a rhai rhanddeiliaid.

Ar y llaw arall, ymddengys y bu'r gwaith yn ystod cam 2 gydag unigolion yn llwyddiannus iawn. Mae ein hymchwil hydredol gyda chroestoriad o fuddiolwyr yn rhoi tystiolaeth glir y cafodd y Rhaglen effaith sylweddol a hir yn nhermau'r tueddiad i ddefnyddio'r rhyngwrdd, sydd yn fwy trawiadol byth o gofio yr ymddengys fod y targedu ar unigolion i fod â mwy o ffocws yn ystod cam 2 (hyd yn oed wrth i'r Rhaglen ehangu i gynnwys pob rhan o ardal y rhaglen Cydgyfeirio).

Er ei bod yn amhosibl bod yn sicr pa gyfran o'r buddiolwyr fyddai wedi eu darbwylo yn y diwedd drwy ddulliau eraill i ymwneud gyda TGCh, ac er bod ehangu'r Rhaglen i bob rhan o Gymru wedi'i gwneud yn bosibl cymharu a gwrthgyferbynnu cynnydd yn nhermau cynhwysiant digidol mewn ardaloedd oedd yn cael cymorth ac nad oedd yn cael cymorth, cawsom ein darbwylo gan y dystiolaeth (nid yn lleiaf drwy ein hastudiaethau achos o gynlluniau digidol) fod dull Cymunedau 2.0 wrth gyflwyno yn y gymuned, mewn ffordd anfygythiol ac yn defnyddio dulliau datblygu cymunedol, wedi llwyddo i 'recriwtio' llawer o unigolion na fyddid byth wedi eu cyrraedd drwy lwybrau mwy confensiynol.

Ar yr un pryd, mae'r Rhaglen wedi ei chael yn anodd cyrraedd rhai grwpiau, yn neilltuol bobl gydag anabledau a phobl sy'n gaeth i'w cartrefi, o gofio am

natur benodol eu hanghenion a lefel y gefnogaeth oedd ei hangen. Er bod Cymunedau 2.0 wedi gwneud camau sylweddol ymlaen wrth fynd i'r afael â phroblem allgáu digidol torfol, mae hefyd yn wir yn fwy cyffredinol y bydd gweddill y boblogaeth o'r rhai sy'n dal i fod wedi eu hallgáu'n ddigidol yn galetach byth eu cyrraedd.

Er bod y bwch wedi cau yn nhermau cynhwysiant digidol rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig (o 11 y cant yn 2011/12 i 2 y cant yn 2013/14) mae'n sicr fod nifer o ffactorau wedi effeithio ar hyn (yn cynnwys tueddiad naturiol i ymgysylltu digidol aros yn ei unfan unwaith y cyrhaeddir lefelau o tua 80%), ymddengys yn debygol fod yr ymdrech gyda ffocws ar gynhwysiant digidol wedi chwarae ei ran.

Mae ein hadroddiad ansoddol yn awgrymu nifer o elfennau allweddol o arfer da a gyfrannodd at ei lwyddiant:

- Gweithio gyda a thrwy bartneriaid parod yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a threfnu perthnasoedd cydfuddiannol, er enghraifft rhwng Canolfan Byd Gwaith a llyfrgelloedd;
- 'Gwerthu' manteision cynhwysiant digidol drwy ganfod y 'bachyn' fydd o ddiddordeb i unrhyw unigolyn penodol;
- Datblygu a chynnig darpariaeth mewn sesiynau hylaw bach mewn gosodiadau anffurfiol a chynnig digon o gyfle ar gyfer sesiynau 'galw heibio' nad ydynt yn golygu unrhyw ymrwymiad parhaus;
- Gwneud defnydd effeithlon (yn neilltuol yn ystod cam 2) o wirfoddolwyr, yn seiliedig ar ddatblygu modelau cadarn ar gyfer 'hyfforddi'r hyfforddwr': er bod angen mewnbwn rheoli sylweddol, mae gwirfoddolwyr wedi cael budd eu hunain o'r profiad o weithio gyda'r Rhaglen ond ymddengys iddynt fod wedi helpu wrth wneud y ddarpariaeth yn fwy hygyrch a chodi llai o ofn.

Drwy'r partneriaethau a adeiladwyd i gyflwyno cynlluniau digidol a thrwy waith ehangach ar lefel genedlaethol, mae Cymunedau 2.0 hefyd wedi cyfrannu at gynyddu gwelededd ac adeiladu mwy o ddealltwriaeth o'r agenda cynhwysiant digidol, o fewn y sector statudol a hefyd y trydydd sector. Yn rhannol fel

canlyniad (er yn rhannol hefyd fel canlyniad i'r sylweddoliad fod cynhwysiant digidol yn llwybr i'r ffordd fwy effeithlon a chost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau) ac er gwaethaf yr amgylchiadau anodd iawn a achoswyd gan doriadau mewn gwariant cyhoeddus, mae'n awr wir ymdeimlad o fomentwm am yr agenda.

Mae'n anodd iawn dod i gasgliadau am werth am arian y Rhaglen oherwydd:

- Gwahanol elfennau'r Rhaglen, yn targedu mentrau cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac unigolion;
- Ei bod yn amhosibl gwahanu effeithiau'r Rhaglen o sbardunau eraill cynhwysiant digidol, yn arbennig y 'gwthiad' o'r agenda diwygio lles a datblygu technolegau mwy hygyrch megis dyfeisiau llechen a ffonau clyfar - yn neilltuo o gofio i'r Rhaglen gael ei hymestyn i Gymru gyfan¹²²;
- Yr anghytuno am faint y buddion ariannol sy'n llifo o gynhwysiant digidol i unigolion ac i gymdeithas.

Ar ôl dweud hyn, a gan ganolbwyntio'n llwyr ar y gwaith gydag unigolion, lle tybiwn y sicrhawyd rhan fwyaf y budd, gallwn ddod i'r casgliad y bydd y gost gryswth fesul buddiolwyr unigol tua £345 y pen¹²³. A thybio fod ein harolwg ffôn yn gynrychioladol a bod cymryd rhan yn y Rhaglen wedi arwain at i tua 30% o fuddiolwyr gael eu trawsnewid o rai heb fod yn eu defnyddio i fod yn ddefnyddwyr cyson o'r rhyngwrdd, yna mae'r gost net ar gyfer pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn ddigidol fel canlyniad o'r Rhaglen tua £1,150. O gofio am faint yr arbedion sydd ar gael i unigolion yn prynu nwyddau a

¹²² Yn y cyd-destun hwn, mae'n hynod y canfu arolwg ail-gysylltu ddechrau 2015 o'r ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 a ddywedodd yn wreiddiol nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwrdd, fod 24% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn ddefnyddwyr y rhyngwrdd adeg yr arolwg, gan awgrymu i ba raddau y mae allgau digidol wedi parhau i ostwng ar draws y boblogaeth yn gyffredinol: er ar yr un pryd ei bod yn bosibl neu hyd yn oed yn debygol y gellid priodoli peth o'r cynnydd yn y gyfran o ddefnyddwyr rhyngwrdd i weithgareddau Cymunedau 2.0 a chynlluniau digidol cysylltiedig, yn arbennig gan i 37% o'r rhai oedd wedi defnyddio'r rhyngwrdd ddweud eu bod un ai bob amser wedi cael peth cymorth i wneud hynny (28%) neu'n dibynnu ar rywun arall i reoli'r ddyfais. Gweler *Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14 Arolwg ail-gysylltu Cynhwysiant Digidol*, Llywodraeth Cymru 2015

¹²³ Yn seiliedig ar gyfanswm o 61,250 o gyfranogwyr ar draws Cymru gyfan a chyfanswm gwariant Rhaglen o £21.059 miliwn. Y ffigur cyfatebol ar gyfer yr ardal Cydgyfeirio yn unig - ac eithrio costau'r Uned Cynhwysiant Digidol nad yw'n rhwydd eu rhannu ar draws y gwahanol prosiectau - yw £330.

gwasanaethau ar-lein - hyd yn oed gan ganiatáu am wahanol batrymau prynu'r rhai ar incwm isel - ymddengys fod hyn yn werth da am arian o'r safbwynt unigol, tra hefyd yn cyfrannu at arbedion o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar-lein a manteision ehangach i gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys manteision cyfran fechan ond a allai fod yn arwyddocaol o fuddiolwyr yn medru gwella eu sefyllfa yn y farchnad lafur: os oedd canlyniadau harolwg ffôn yn gynrychioladol, byddai'r Rhaglen wedi bod â rôl bwysig wrth gynorthwyo tua 1,250 o gyn-fuddiolwyr i gael mynediad i swyddi newydd ¹²⁴.

Wrth gwrs, drwy ganolbwyntio'n llwyr ar y gwaith gydag unigolion, mae'r ffigurau hyn yn anwybyddu canlyniadau ehangach y Rhaglen yn nhermau codi ymwybyddiaeth o'r agenda cynhwysiant digidol a datblygu partneriaethau (cynaliadwy, mewn rhai achosion o leiaf) a dulliau i fynd i'r afael â hynny, yn ogystal â'r manteision di-os i'r 750+ o fentrau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol a dderbyniodd gefnogaeth. Er o'u hystyried ar sail unigol (ac anwybyddu rôl datblygu sefydliad fel ffordd o gyrraedd unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol), rydym yn amau os gellir cyflwyno achos mor gadarn am werth am arian y maes diweddaraf hwn o weithgaredd. Fodd bynnag, mae'r rhesymau am hyn yn ymwneud mwy gyda chynllun y Rhaglen - y gred y gallai ymyriad TGCh cyfyngedig o ran amser gyda sefydliadau bychan ac aml yn fregus fod yn drawsnewidiol - yn hytrach na gydag unrhyw wallau mewn gweithredu. Yn ymarferol, bydd y sefydliadau hyn yn dal i fod angen cefnogaeth allanol gyda TGCh am gyfnod amhenodol, yn yr un modd ag ar gyfer mentrau micro yn y sector preifat - a'r dewis yma yw a ddylai'r sector cyhoeddus dalu'r cyfan neu ran o gefnogaeth o'r fath, neu adael hynny i rymoedd y farchnad (gyda, wrth gwrs, ganlyniadau a allai fod yn ddifrifol i sefydliadau trydydd sector na all ganfod yr adnoddau i dalu cyfraddau'r farchnad).

¹²⁴ Yn seiliedig ar ein canfyddiadau y dywedodd saith allan o'r 304 o fuddiolwyr a gafodd eu hail-gyfweld 18 mis ar ôl y don gyntaf fod y gefnogaeth a gawsant gan Cymunedau 2.0 wedi helpu 'llawer' arnynt wrth gael eu swydd bresennol (gyda saith arall yn dweud ei fod wedi helpu ychydig): cyfradd o 2.3%. Byddai 2.3% o'r 54,563 o fuddiolwyr ar ddiwedd y Rhaglen yn 1,255 o unigolion.

Os na chafodd y gefnogaeth a roddwyd i sefydliadau mewn gwirionedd yr effaith a ddymunid o sicrhau newid cynaliadwy, mae peth tystiolaeth fod Cymunedau 2.0 eisoes wedi datblygu gwaddol o sefydliadau allanol (awdurdodau lleol, rhai Cyngorau Gwirfoddol Sirol a sefydliadau mwy yn y trydydd sector, cymdeithasau tai, yn ogystal â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf) sy'n fodlon buddsoddi eu harian eu hunain, neu fuddsoddi mewn ymdrechion i sicrhau cyllid allanol, i barhau i hyrwyddo cynhwysiant digidol unigolion. I'r graddau hyn, rydym o'r un farn â Llywodraeth Cymru nad oes angen parhau neu ail-greu Cymunedau 2.0 fel y mae, hyd yn oed pe bai hynny'n bosibl. Fodd bynnag, credwn y bydd yn dal i fod angen rhyw adnodd canolog Cymru-gyfan er mwyn rhoi anogaeth a chefnogaeth i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau cynhwysiant digidol ar y rheng flaen. Yn y cyd-destun hwnnw y gwnawn ein hargymhellion¹²⁵.

10.2 Argymhellion

Argymhelliad 1: Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i annog prif ffrydio cynhwysiant digidol fel rhan o'i strategaeth gwrthdlodi. Yn neilltuol, dylid annog clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i roi adnoddau i waith cynhwysiant digidol o fewn eu hardaloedd.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru geisio dyrannu adnoddau ar gyfer rhaglen fwy cyfyngedig i olynu Cymunedau 2.0, yn canolbwyntio'n llwyr ar yr ymgyrch i gynyddu ymhellach byth gynhwysiant digidol unigolion sydd wedi eu hallgáu ar hyn o bryd. Ni ddylai hyn ynddo'i hyn gynnal - nac ariannu, mae'n debyg - gweithgaredd rheng-flaen ond dylai:

- Barhau i weithredu i hyrwyddo cynhwysiant digidol i sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, gan ganolbwyntio ar ffyrdd y gall gweithgareddau cynhwysiant digidol chwarae i agendâu eraill, megis gwella effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth;

¹²⁵ Gwnaed yr argymhellion hyn ym mis Tachwedd 2014, cyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru am raglenni'r dyfodol.

- Cefnogi ac annog partneriaid sydd eisoes yn cymryd rhan yn y cynlluniau digidol i gynnal eu hymgyfraniad, yn cynnwys darparu cefnogaeth i gyrchu cyllid allanol;
- Lle bo angen, trefnu partneriaethau lleol a thematig newydd;
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio rhwng unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol, er mwyn lledaenu arfer da ac osgoi dyblygu, tra'n gweithio'n agos gyda rhwydweithiau cyfredol neu newydd o fewn sectorau (e.e. cymdeithasau tai, llywodraeth leol);
- Cynnal a hyrwyddo gwaddol Cymunedau 2.0 o ran dulliau a thechnegau, yn cynnwys cadw cyfleuster 'Cyrsiau Cyfrifiadur yn eich ymyl chi' ar y wefan;
- Parhau fel bo angen i ddarparu hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr', gyda ffocws neilltuol ar gefnogi sefydliadau rheng-flaen i ddatblygu a chefnogi carfan o wirfoddolwyr all ddarparu hyfforddiant sylfaenol mewn TGCh.

Argymhelliad 3: Yn ychwanegol, a gan adeiladu ar yr ymgyrch genedlaethol a gynhaliwyd ym misoedd olaf y Rhaglen, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr hyfforddiant i ystyried sut y gellir cynnal (ac ariannu) dysgu anffurfiol yn gysylltiedig â TGCh ar ôl i Cymunedau 2.0 ddod i ben.

Argymhelliad 4: Oherwydd lefel uchel barhaus allgáu digidol ymysg tenantiaid tai cymdeithasol, ac anhawster unigolion gyda hanes credyd gwael yn sicrhau contractau gyda darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP), dylai Llywodraeth Cymru fel mater o frys weithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i ystyried sut y medrid cynnig mynediad cyffredinol ar sail dim cost neu gost isel i'r rhyngrwyd, a dylai edrych p'un a sut y dylid cyrchu cyllid gan yr ERDF yn y dyfodol i gefnogi hyn.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori gyda grwpiau cynrychioladol perthnasol i ystyried y ffordd orau o symud ymlaen gyda gweithgaredd cynhwysiant digidol ar gyfer pobl anabl, yng ngoleuni'r anawsterau a gafwyd wrth gyrraedd nifer fawr o bobl anabl yn eu cartrefi.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith am anghenion cefnogaeth ceiswyr swyddi yn y dyfodol ac eraill sy'n derbyn budd-daliadau lles, sydd heb y sgiliau, hyder neu fynediad i'r rhyngwrdd i fedru gweithredu mewn amgylchedd ar-lein. Yn ddelfrydol, o gofio am awgrym rhai cyfweleion y gallai cyllidebau fod wedi bod ar gael i gefnogi'r gwaith hwn pe na byddai Cymunedau 2.0 wedi bod ar gael, dylai geisio sicrhau cyfraniad ariannol tuag at gefnogaeth barhaus gan sector cyhoeddus Cymru, e.e. llyfrgelloedd, ar gyfer unigolion o'r fath.

Argymhelliad 7: Yn nhermau mentrau cymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru geisio integreiddio cefnogaeth ar faterion TGCh gyda'r cynnig cymorth busnes ehangach, p'un ai drwy Busnes Cymru yn gyffredinol neu drwy wasanaeth arbennig cefnogaeth i fentrau cymdeithasol. Dylai cefnogaeth i uwchraddio seilwaith a galluedd TGCh fod yn gymwys ar gyfer unrhyw gynlluniau cyllid busnes a dargedwyd yn benodol ar fentrau micro.

Argymhelliad 8: Yn nhermau'r boblogaeth ehangach o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mae angen rhoi ystyriaeth (o fewn Llywodraeth Cymru ac o bosibl hefyd Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector) os dylai darparu cefnogaeth TGCh (wrth ochr cefnogaeth ar faterion megis llywodraethiant a chodi arian) fod yn rhan o'r rôl y disgwylir i seilwaith y trydydd sector (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol) ei chwarae ac os felly, sut y gellid cydnabod hyn drwy gyllid. Yn ein barn ni, mae hon yn flaenoriaeth is ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru na chefnogaeth ar gyfer cynhwysiant digidol unigolion, ond os nad yw Llywodraeth Cymru a'r sector yn ystyried bod hyn yn flaenoriaeth, yna bydd angen cydnabod y bydd rhai sefydliadau'n ei chael yn anodd cynnal seilwaith TGCh digonol (neu mewn rhai achosion, unrhyw seilwaith TGCh).